


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion yng Nghymru - Canllawiau Adeiladu

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2025

Canllawiau Rhif y Ddogfen: WG51809

**Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion yng Nghymru**
**Cymunedau Dysgu Cynaliadwy**

*Cynulleidfa*
Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, ac awdurdodau esgobaethol.

*Trosolwg*
Bydd y canllawiau yn cynorthwyo'r rhai sy'n datblygu cynlluniau ysgolion ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, i'w hystyried gan y Gyfarwyddiaeth Addysg.

*Camau i'w cymryd*
Dylid defnyddio'r canllawiau wrth ddylunio adeiladau ysgolion ar gyfer cyfalaf a cyllid refeniw o'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

*Rhagor o wybodaeth*
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:

**Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg**
**Y Gyfarwyddiaeth Addysg**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3NQ**

**Ffôn: 03000 257672**
**e-bost: cymunedaudysgucynaliadwy@llyw.cymru**

*Copïau ychwanegol*
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/rhaglen-cymunedau-dysgu-cynaliadwy

© Hawlfraint y Goron 2025 WG51809 ISBN digidol 978-1-80633-555-8

Cymunedau **Dysgu** Cynaliadwy
Sustainable Communities for **Learning**

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **4**

**Crynodeb** **9**

Sut y mae'r canllawiau'n ymateb i'r polisi Cymru newydd? 10

**Canllawiau ar y Briff** **16**

Cynllun Gwaith RIBA 16

Achos Busnes Strategol 17

Datblygu'r Rhestr Ystafelloedd gychwynnol (SoA) 18

**Egwyddorion Dylunio** **20**

Gweledigaeth ar gyfer yr Ysgol 20

Cyfleusterau Ysgol Estynedig a Defnydd Cymunedol a Rennir 21

Cyfleoedd o ran y Cwricwlwm 22

Gofynion Dylunio Allweddol 23

Diogelwch Personol a Diogelwch Eiddo 25

Perfformiad Amgylcheddol 25

**Rhan 1 - Canllawiau ar Arwynebeddau Adeiladau** **26**

Newidiadau Allweddol 27

Arwynebedd Gros yr Adeiladau 28

Arwynebedd Net Adeiladau 28

Arwynebedd Adeiladau Nad yw'n Net 50

**Canllawiau Penodol** **56**

Manylion cynradd 56

Manylion uwchradd 57

Elfennau penodol ADY ac ystyriaeth o'r arwynebedd 58

**Canllawiau Penodol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** **59**

**Rhan 2 - Maint Arwynebedd y Safle** **99**

Cyfanswm Arwynebedd y Safle 100

Arwynebedd Net y Safle: Caeau Chwarae 104

Cyfleusterau addysg gorfforol yn yr awyr agored 106

Ystyriaethau Ychwanegol yn achos Ysgolion Arbennig 110

Arwynebedd yr Adeiladau a Mynediad 110

Arwynebedd Atodol i'r Safle 111

# Cyflwyniad


**Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (SCfL) yn ariannu adeiladau newydd a gwaith adnewyddu mawr ar adeiladau ysgolion, fel ei gilydd. Lle cynigir ysgolion newydd neu estyniadau, cafodd canllawiau a meincnodau'r Rhaglen a ddefnyddiwyd i werthuso'r achosion busnes eu cysoni â chyfres safonau'r Bwletinau Adeiladu.**

Roedd ton fuddsoddi gyntaf y Rhaglen yn dod dan y faner 'Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif' ac yn cynrychioli buddsoddiad o £1.6 biliwn dros y cyfnod o bum mlynedd a ddaeth i ben yn 2019. Roedd hwn wedi cefnogi'r gwaith ailadeiladu ac adnewyddu ar gyfer dros 170 o ysgolion. Dechreuodd yr ail don fuddsoddi ym mis Ebrill 2019. Cafodd ei hehangu i gynnwys sefydliadau addysg bellach, a'i hailenwi yn 'Y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif'.

Ym mis Ionawr 2022, ailenwyd y Rhaglen yn 'Cymunedau Dysgu Cynaliadwy' i wneud datganiad clir am ein hymrwymiad i'r amgylchedd, cydlyniant cymunedol, a'n cenedlaethau i'r dyfodol. Bydd y Rhaglen hon yn gweld buddsoddiad pellach o £2.3 biliwn yn seilwaith ysgolion a cholegau, buddsoddiad a fydd yn defnyddio cyfalaf cyhoeddus a refeniw, fel ei gilydd, ac a fydd yn cael ei reoli o hyn ymlaen ar sail dreigl (Rhaglen Dreigl SCfL).

Trwy ddull cydadeiladu, caiff y rhaglen ei chyflwyno'n unol â chyflymder a blaenoriaeth y partneriaid cyflawni. Mae'r dull cydadeiladu hwn wedi'i estyn i gynnwys y canllawiau a'r gwersi a ddysgwyd trwy gyfrwng gweithdai rhanddeiliaid o ran addasrwydd cyfres canllawiau'r Bwletinau Adeiladu mewn cyd-destun Cymreig, newidiadau i Cwricwlwm i Gymru, gorfodi Carbon Sero Net, a mabwysiadu Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, er enghraifft.

*Mae'r ddogfen yn disodli Bwletinau Adeiladu 98, 99 a 104: Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion, a gyhoeddwyd yn 2014-2015 gan yr Adran Addysg (yr Adran Addysg a Sgiliau gynt), ac unrhyw ddiwygiadau cysylltiedig.*



Bydd cyllid o'r Rhaglen SCfL yn caniatáu i bob adeilad newydd gael ei adeiladu'n unol â'r safonau hyn. Gellir defnyddio graffiau a fformiwlâu syml i wirio bod nifer, maint a math yr ystafelloedd mewn cynlluniau newydd ac adeiladau cyfredol o leiaf yr hyn a argymhellir ar gyfer pum categori o ofodau defnyddiadwy. Mae'r rhain wedi'u cyfrifo i fynd i'r afael â gofynion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac anableddau, gweithlu'r ysgol, a defnydd cymunedol y tu allan i oriau ysgol. Gosodir safonau tebyg ar gyfer categorïau amrywiol arwynebedd safleoedd. Yn hollbwysig, argymhellir cael 'fflôt' arall hefyd i ddarparu ar gyfer blaenoriaethau unigol pob ysgol: boed hynny'n gyfleusterau ar gyfer yr arbenigedd neu'n ddarpariaeth 'ysgol estynedig' gyfyngedig.

Disgwylir y bydd ar bob ysgol brif ffrwd ac ysgol arbennig angen o leiaf gyfanswm yr arwynebedd net argymelledig, sy'n cynnwys y 'fflôt'. Efallai y bydd gan rai ysgolion arwynebedd atodol ychwanegol ar ben hyn, er enghraifft ar gyfer Darpariaeth Dysgu Amgen ac iddi adnoddau arbennig. Fodd bynnag, dim ond rhan o'r broses o greu cyfleusterau sy'n cefnogi nodau a gweledigaeth addysgol pob ysgol yw cael yr arwynebedd yn iawn. Yn hollbwysig hefyd y mae safon y dylunio a manylebau priodol.

Mae'r ddogfen hon yn darparu cymorth i gwblhau offeryn Rhestr Ystafelloedd (SoA), elfen sy'n ofynnol yn rhan o'r cais am gyllid strategol o'r Rhaglen SCfL, y gellir ei gyrchu ar wahân.

## Nod y ddogfen

**Prif ddiben y ddogfen hon yw pennu canllawiau arwynebedd syml, realistig, anstatudol ar gyfer adeiladau a thiroedd newydd i ysgolion yng Nghymru.**

Bydd hyn yn arwain at ddatblygu canllaw annibynnol i Gymru sy'n symud oddi wrth Fwletinau Adeiladu (BB) 98 a 99 yr Adran Addysg, bwletinau a dynnwyd yn ôl ac sydd wedi cael eu defnyddio i bennu maint ysgolion ers 2010, a hynny'n seiliedig ar eu harwynebeddau mewnol ac allanol lleiaf argymelledig. Mae'r ddogfen yn dwyn ymlaen o'r dogfennau hynny y gofynion priodol mewn perthynas â phennu maint, ond, yn bwysig, mae wedi gweithio i gynnwys hyblygrwydd ac arwynebedd ychwanegol i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru ochr yn ochr â pholisïau ac ymrwymiadau eraill Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, mae'r ddogfen yn gyson â darpariaeth addysgol Cymru i ddiffinio canllawiau arwynebedd anstatudol, syml ar gyfer adeiladau a safleoedd ysgolion Cymru, a hynny yn achos pob ystod oedran o 3 i 19 wrth symud ymlaen.

Nod y ddogfen hon yw cynorthwyo partneriaid cyflawni, penseiri ac arweinwyr awdurdodau lleol, ynghyd â'r rhai sy'n ymwneud â chreu'r achos busnes a'r briff dylunio ar gyfer adeiladau ysgolion newydd, neu brosiectau adnewyddu a/neu drawsnewid ysgolion. O ystyried yr angen i ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu'r briff yn y ffordd orau, gallai ddarparu arweiniad a gallai fod yn berthnasol i benaethiaid, arweinwyr technegol ac eraill a fydd yn cyfrannu ac yn cynghori ar anghenion eu hysgolion a faint o ofod sy'n ofynnol i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru ac i ddiwallu gweithgareddau addysgu a dysgu cyfredol ac yn y dyfodol.

Fodd bynnag, yn unol â pholisïau sy'n ceisio cynyddu dewis a chyfle mewn addysg a ariennir gan y wladwriaeth, ni fydd yn rhaid bodloni'r canllawiau hyn ym mhob achos o reidrwydd, a dylid eu cymhwyso'n hyblyg bob amser ac yng ngoleuni'r amgylchiadau penodol.

Mae'r ddogfen hon yn defnyddio'r wybodaeth sydd eisoes yn bodoli, ynghyd â gwerth y Bwletinau Adeiladu, ond mae hefyd yn ceisio darparu ar gyfer yr uchod, a chaiff ei diweddaru'n unol â hynny.

Mae'r canllawiau ar faint wedi cael eu haddasu fymryn i ddarparu ar gyfer darpariaeth neilltuol pan fo arwynebeddau neu ofodau ychwanegol yn ofynnol i wella hyblygrwydd a diwallu anghenion lleol ac anghenion prosiect penodol (fel y nodir yn y briffiau).

Newid ym myd addysg yw'r grym ysgogol y tu ôl i'r Rhaglen o hyd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod manteision a phwysigrwydd dwyn ysgolion a'u cymunedau ynghyd, a hynny gan ddarparu'r gofodau gorau posibl i ddiwallu anghenion yr ysgol a'r gymuned leol/a rhanddeiliaid.

Yn y Bwletinau Adeiladu, mae'r Adran Addysg yn darparu dull rhagnodol o Bennu Maint Ysgolion; yng Nghymru, mae gennym ddull lle ceir mwy o gydadeiladu, ac mae'r ddogfen hon yn cefnogi'r broses o bennu maint yr adeiladau a datblygu SoA, ynghyd â'r achosion busnes cyffredinol sydd i'w cyflwyno i'r SCfL.

Mae'r ddogfen yn cadw rhywfaint o athroniaeth y Bwletinau Adeiladu a ddefnyddiwyd yn flaenorol, a hynny'n benodol ynghylch mynd ati'n ofalus i ddatblygu briff a'r meini prawf dylunio, ond yr hyn sy'n bwysig yw fod maint adeiladau'r ysgol a'r safle yn cael eu cyflwyno mewn dwy ran:

- Rhan 1 Mae hon yn pennu'r argymhellion ar gyfer yr arwynebedd adeiladu yn achos y categorïau gofodau cyffredinol a'r mathau unigol o ofod, fel ei gilydd, gan ddarparu ar gyfer yr addasiadau i feintiau sy'n seiliedig ar adolygiad polisi Cymru a chysoni ag arfer gorau. Mae hyn yn cynnwys graffiau a fformiwlâu i ddangos yr ystodau argymelledig o ran arwynebedd y gofodau hyn;
- Rhan 2 Mae hon yn nodi'r mathau a chategorïau o ardaloedd allanol ac yn cynnwys argymhellion ar gyfer arwynebedd y safle yn achos y categorïau amrywiol o ofodau awyr agored sy'n ofynnol o fewn ardal y cae chwarae ac arwynebedd net y safle. Megis yn rhan 1, mae graffiau yn galluogi defnyddwyr i bennu meintiau ardaloedd allanol.

Gellir defnyddio'r canllawiau hyn i amcangyfrif yr arwynebedd gofynnol ar gyfer ysgolion newydd sy'n cyflwyno Cwricwlwm i Gymru ac sy'n bodloni'r gofynion polisi ehangach, yn ogystal ag unrhyw arwynebedd adeiladu ychwanegol posibl a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer yr ysgolion hynny sy'n darparu gwasanaethau ychwanegol neu gyfleusterau lleol. Wrth ystyried y modd y bydd adeiladau presennol yn cael eu defnyddio, mae'n bwysig cydnabod y bydd cyfran yr arwynebedd net i arwynebedd gros yn amrywio'n ôl y dyluniad, ynghyd â nodi unrhyw 'arwynebedd atodol' sy'n ofynnol ar gyfer swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â'r ysgol ac nad ydynt yn swyddogaethau cymorth.

Mae'r ddogfen hon yn cefnogi'r broses o gwblhau'r SoA, sef rhestr a fydd yn cael ei chynnwys yn rhan o'r cais am gyllid o'r Rhaglen SCfL. Bydd gofyn i'r SoA nodi'r gofodau sy'n ofynnol yn yr ysgol, gan gynnwys eu maint a'u math. Bydd angen i'r SoA gynnwys rhesymeg ar gyfer unrhyw ardaloedd sy'n fwy na'r rhai a gyflwynir yn y canllawiau hyn er mwyn caniatáu i benderfyniad gael ei wneud ar lefel y cyllid a ddarperir ac i amlinellu'n glir y gofynion ychwanegol o ran gofodau.

Bydd cwblhau SoA yn ofyniad ychwanegol i'r broses achos busnes. Mae hyn yn galluogi'r SCfL i goladu data i'w ddadansoddi yn y dyfodol fel y gellir diwygio'r canllawiau a'r broses fonitro i amlygu tueddiadau o ran y gofynion ynghylch gofodau.

## Sut y gellir ei defnyddio?

Bydd y ddogfen hon yn cael ei defnyddio'n bennaf i ddarparu'r meini prawf pennu maint ar gyfer ysgolion, ond bydd hefyd yn rhoi arweiniad mewn perthynas â sicrhau bod y briff cywir yn cael ei osod, briff sy'n cyd-fynd ag anghenion lleol a gofynion addysgol y dyfodol.

- Briff cywir
- Ymgysylltu/ymgynghori cymunedol
- Pennu meintiau priodol
- Parodrwydd i addasu ar gyfer y dyfodol/paratoi at y dyfodol
- Yn cefnogi ceisiadau am gyllid

## Mae'r ddogfen hon:

- Yn cyfeirio at reoliadau a Bwletinau Adeiladu e.e. BB93 Acwsteg, BB101 Awyru, BB100 Tân, gofynion safonau adeiladu a chanllawiau eraill a ddefnyddir gan y SCfL. Rhaid cyflwyno'r dogfennau a'r gofynion hyn yn rhan o'r dyluniad.
- Yn rhoi gwybodaeth am gyrff rheoleiddio eraill, deddf.wriaeth berthnasol ac arfer da y dylech fod yn gwybod amdanynt os ydych yn dylunio, yn addasu neu'n estyn tir ac adeiladau presennol
- Yn cyfeirio at ddogfennau arfer da sy'n rhoi cyngor defnyddiol
- Rydym yn cydnabod y bydd llawer o'r rheoliadau a'r dogfennau canllaw hyn yn cael eu diweddaru, ac efallai y bydd argymhellion pellach yn codi yn seiliedig ar dueddiadau a fydd yn datblygu yn y dyfodol

Gyda hyn mewn golwg, byddwn yn parhau i adolygu a chynnal y ddogfen ganllaw hon.





# Crynodeb

**Un o'r gofynion allweddol ar gyfer datblygu'r ddogfen ganllaw annibynnol hon oedd ystyried y modd y gallai polisi Cymru ehangach a Cwricwlwm i Gymru ddylanwadu ar faint a chynlluniau ysgolion, ynghyd â'u llunio.**

Wrth ddatblygu'r canllawiau, rhoddwyd ystyriaeth i ofynion y polisïau cenedlaethol allweddol a ganlyn:

- **Cwricwlwm i Gymru**
- **Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd**
- **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**
- **Carbon Sero Net**
- **Cynnig Gofal Plant Cymru**
- **Cymraeg 2050**
- **Ysgolion Bro**
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

## Sut y mae'r canllawiau'n ymateb i'r polisi Cymru newydd?

Mae gan Gymru nifer o bolisïau cenedlaethol allweddol y gellir eu hystyried ochr yn ochr â rheoliadau addysg a chanllawiau dylunio.

### Fframwaith Cwricwlwm i Gymru

Gwella addysg yw cenhadaeth genedlaethol Cwricwlwm i Gymru. O ran cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithredol, nid oes dim mor hanfodol i'n pobl ifanc na mynediad cyffredinol i'r profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol, a'r gallu i'w caffael.

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn ddatganiad clir o'r hyn sy'n bwysig wrth gyflawni addysg eang a chytbwys. Y Pedwar Diben yw'r weledigaeth a'r dyhead a rennir ar gyfer pob plentyn ac unigolyn ifanc. Wrth wireddu'r rhain, rydym yn gosod disgwyliadau uchel i bawb, yn hyrwyddo llesiant personol a chenedlaethol, yn herio anwybodaeth a chamwybodaeth, ac yn annog dysgwyr i chwarae eu rhan trwy fod yn ddinasyddion effro a beirniadol.

Un o nodweddion diffiniol y fframwaith yw ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddylunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu eu hunain. Ar ei phen ei hun, nid yw'n rhaglen 'barod' i'w chyflawni.

Mae fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn rhoi arweiniad i ysgolion ar ddatblygu eu cwricwla eu hunain, gan gefnogi eu disgyblion tuag at y 'pedwar diben'. Y pedwar diben yw datblygu:

- Dysgwyr galluog ac uchelgeisiol
- Cyfranogwyr mentrus a chreadigol
- Dinasyddion egwyddorol a gwybodus
- Unigolion iach a hyderus

### Sut y mae'r polisi hwn yn effeithio ar faint ysgolion?

Mae Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi ystyriaethau sy'n creu cysylltiadau rhwng yr amrywiol ddisgyblaethau ac ardaloedd mewn ysgolion. Mae hyn yn golygu ei fod y n addas i ddatblygu ardaloedd dysgu mewn modd sy'n darparu ar gyfer hyblygrwydd mewn swyddogaethau, elfen y bydd angen ei hystyried wrth ddyrannu gofodau.

Rhaid i'r cwricwlwm hefyd ystyried anghenion dysgu ychwanegol a hwyluso trochi yn y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Cefnogir hyn gan y strategaeth Cymraeg 2050.

Mae'r cwricwlwm yn amlygu newid yn y dull o addysgu sy'n ei ddatgysylltu oddi wrth ganllawiau blaenorol y Bwletin Adeiladu a ddatblygwyd gan yr Adran Addysg.

Mae'r defnydd o dechnoleg a'i datblygiad wedi newid y modd y mae gofodau'n cael eu defnyddio, ac mae maint ystafelloedd dosbarth ar gyfer mathau penodol o addysgu wedi lleihau.

### Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd

Bydd plant ysgolion cynradd Cymru yn cael prydau ysgol am ddim. Mae'r cymhelliant hwn yn cefnogi uchelgeisiau'r llywodraeth i fynd i'r afael â thlodi plant a sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn mynd heb fwyd yn yr ysgol.

**Sut y mae'r polisi hwn yn effeithio ar faint ysgolion?**

Yn dilyn cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, rhagwelir y bydd yr angen i ehangu cyfleusterau ceginau yn hanfodol i ateb y galw cynyddol.

### Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (yn cynnwys canolfannau adnoddau)

Mae'r ddarpariaeth ADY yng Nghymru yn cefnogi plant a phobl ifanc 0 i 25 oed ag ADY i oresgyn rhwystrau i ddysgu a gwireddu eu llawn botensial. Yn gyffredinol, bydd gan bob plentyn ac unigolyn ifanc ag ADY, ni waeth beth fo difrifoldeb yr anghenion, yr hawl i gynllun datblygu unigol (CDU) a fydd yn nodi darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer yr unigolyn dan sylw.

**Sut y mae'r polisi hwn yn effeithio ar faint ysgolion?**

Daw hyn o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018, sy'n disodli'r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig cyfredol. Mae goblygiadau'r Ddeddf hon yn golygu y gallai fod yn ofynnol gwneud darpariaethau ychwanegol ar gyfer ADY o ran gofod penodedig er mwyn hwyluso gofynion y Ddeddf. Gallai hyn fod ar ffurf nifer o fathau o ofodau, megis gofodau tawel neu ofodau ar gyfer gweithgarwch egnïol.

### Yr Argyfwng Hinsawdd – Carbon Sero Net

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod Cymru mewn Argyfwng Hinsawdd. O ganlyniad, mae wedi pennu ein huchelgais i gyflawni cymdeithas garbon niwtral erbyn 2050, gan gydgysylltu camau gweithredu i symud sefydliadau oddi wrth eu defnydd o danwyddau ffosil.

Bydd pob ysgol a choleg newydd yng Nghymru yn ysgolion a cholegau Carbon Sero Net. Bydd yn ofynnol i adeiladau fod yn gweithredu ar Garbon Sero Net, sy'n golygu bod yr allyriadau a gynhyrchir ganddynt yn rhan o'u hynni gweithredol yn allyriadau carbon sero net neu negatif, a'u bod yn bodloni targedau carbon ymgorfforedig. Bydd hyn yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus carbon sero net yng Nghymru erbyn 2030.

**Sut y mae'r polisi hwn yn effeithio ar faint ysgolion?**

Mae hyn wedi'i fandadu yn rhaglen yr ysgol i helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiad i ddod yn genedl Carbon Sero Net erbyn 2050. Bydd gan hyn oblygiadau o ran y modd y mae'r ysgol yn cael ei phweru a pha systemau y mae'r ysgol yn eu defnyddio ar gyfer gwresogi, oeri a dŵr poeth.

Mae'n bosibl y bydd darpariaethau ar gyfer systemau Carbon Isel a Di-garbon yn gofyn am addasu'r arwynebedd gwasanaethau adeiladau gofynnol i wneud iawn am y systemau gwahanol ac, o ganlyniad, gallai arwynebeddau addasedig fod yn ofynnol i gefnogi'r system(au) penodedig.

Dylai'r tîm dylunio fod yn ystyried manteision systemau canolog neu ddatganolog, elfen a fydd hefyd yn cael effaith ar y gofynion mewn perthynas â gofodau i gyfarpar a gwasanaethau.

## Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar

Prif amcan y Rhaglen yw cefnogi Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant, a'i nod yw gwella a thyfu darpariaethau gofal plant newydd a chyfredol, a hynny gyda phwyslais penodol ar gryfhau'r darpariaethau cyfrwng Cymraeg.

Rhennir y gyllideb (yn amodol ar argaeledd) yn ddwy ffrwd ariannu wahanol: cyllid grantiau bach a chyllid cyfalaf mawr, ac mae ar gael i ddarparwyr gofal plant a chwarae cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn asesu prosiectau cyfalaf mawr yn seiliedig ar faen prawf cymhwyster ar gyfer cymorth ariannol. Ystyrir ceisiadau ar sail y canlyniadau a fyddai'n cael eu cyflawni o ganlyniad i fuddsoddiad, h.y. gwell darpariaeth, mwy o gapasiti, cydleoli gwasanaethau.

Gan gydnabod pwysigrwydd amlygu a chefnogi ysgogwyr polisi, caiff achosion busnes yn achos y Grant Cyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar eu pwysoli'n unol â'r meini prawf canlynol:

- Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg
- Cydleoli lle bo cynllun yn cefnogi agenda cydleoli gwasanaethau Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol.
- Ehangu'r Cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg neu Feithrinfeydd y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau gofal plant.
- Ehangu lleoedd.

## Sut y mae'r polisi hwn yn effeithio ar faint ysgolion?

Gan y bydd ysgolion Cymru yn mabwysiadu meddylfryd bro, mae'n bosibl y bydd y ddarpariaeth ar gyfer cyfleusterau gofal plant yn cael ei hystyried yn rhan o ofod cyffredinol yr ysgol. Byddai hyn yn dylanwadu ar y mathau o ofodau a fyddai ar gael gan y gallai fod yn ofynnol cynnwys meithrinfa yn yr ysgol.

Yn unol â sicrhau buddion cymunedol, dylid ystyried a fyddai yna fwy o oblygiadau neu gyfleoedd yn bodoli i wneud sawl defnydd o ofodau, e.e. neuaddau a gofodau allanol.

## Cymraeg 2050

Yn 2017, roedd y strategaeth Cymraeg 2050 wedi nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae tair thema strategol wedi'u pennu i gyflawni'r targed hwn:

1. **Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**
2. **Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**
3. **Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn golygu bod y Llywodraeth yn ymrwymo i gyflwyno Bil Addysg y Gymraeg yn ystod y chweched Senedd.

Mae'r cynigion ar gyfer Bil yn cael eu cyflwyno yng nghyd-destun ehangach 'Cymraeg 2050'. Mae'r uchelgais i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yn gofyn am newidiadau trawsnewidiol i'r ffordd yr ydym yn meddwl am y Gymraeg ac am rôl addysg o fewn y cyd-destun hwnnw.

Bydd y Bil yn cymryd camau i alluogi holl ddisgyblion Cymru i ddod yn siaradwyr Cymraeg annibynnol a hyderus trwy'r system addysg statudol. I gyflawni'r uchelgais polisi hwn, bydd y Bil yn gwneud newidiadau i'r ffordd y caiff addysg yng Nghymru ei chynllunio er mwyn cynyddu hyd a lled y ddarpariaeth Gymraeg a gyflenwir. Yn ganolog i'r Bil y bydd y cysyniad o ddisgrifio lefelau hyfedredd yn y Gymraeg (ar hyd un continwwm) ac o welliant parhaus i drawsnewid deilliannau.

**Sut y mae'r polisi hwn yn effeithio ar faint ysgolion?**

Bydd y Bil yn gwneud newidiadau i'r ffordd y mae addysg yng Nghymru yn cael ei chynllunio er mwyn cynyddu hyd a lled y ddarpariaeth Gymraeg a gyflenwir, a rhoddir y newidiadau hyn ar waith ar lefel genedlaethol, lefel yr awdurdod lleol a lefel yr ysgol. Byddai hyn yn cael ei gefnogi gan ganolfannau trochi y gellid eu lleoli y tu allan i'r lleoliad addysg gynradd; fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd o'r wlad, gallai fod yn fuddiol sefydlu'r rhain mewn ysgolion, e.e. 1-2 ystafell ddosbarth.

## Ysgolion Bro

Dymuniad Llywodraeth Cymru yw fod pob ysgol yng Nghymru yn Ysgol Bro:

- Meithrin partneriaeth gref â theuluoedd
- Ymateb i anghenion ei chymuned
- Cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill

## How does this policy impact school sizes?

O dan y cynllun hwn, ystyrir y gymuned yn rhanddeiliad allweddol yn natblygiad ysgol. Y modd y mae'r gymuned yn ymgysylltu â'r ysgol a'r modd y gallai'r ysgol fod â rôl yn ei chymuned.

Gall anghenion y gymuned leol ddylanwadu ar y gofynion o ran darparu gofodau a rennir.

Gallai ystyriaethau gynnwys gofod ychwanegol ar gyfer storfeydd cymunedol, ystafelloedd ymolchi cymunedol hygyrch, a gofod ar gyfer cypyrddau clo.

Bydd y modd y mae cymuned yn defnyddio gofodau ysgol yn amrywio o gymuned i gymuned, a dylid asesu'r holl ofod sydd ar gael yn ystod y cam dylunio er mwyn ystyried ei addasrwydd ar gyfer defnydd cymunedol, a hynny am y gall cyfleusterau a rennir a gwell cyfleusterau gynnig mwy o refeniw i ysgolion. Fodd bynnag, mae'n ofynnol sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddiogelwch safle ac i amddiffyn plant (yn dibynnu ar lefel y cyfleusterau cymunedol penodedig).

*Mae rhai ystyriaethau sylfaenol ar gyfer defnydd cymunedol wedi cael eu nodi, ond nid ydynt yn hollgynhwysfawr, a dylai'r briffiau roi arweiniad clir ar ofynion y prosiect.*

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu'r angen i gyrff cyhoeddus feddwl mewn modd mwy ymwybodol am gynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ledled eu datblygiadau i wella llesiant cyffredinol Cymru. Mae'r ddeddf yn rhoi 7 nod llesiant ar waith:

1. **Cymru lewyrchus**
2. **Cymru gydnerth**
3. **Cymru iachach**
4. **Cymru sy'n fwy cyfartal**
5. **Cymru o gymunedau cydlynus**
6. **Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu**
7. **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

## Sut y mae'r polisi hwn yn effeithio ar faint ysgolion?

Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddylanwad trwm ar y broses o lywio'r ystyriaethau ar gyfer gweledigaeth a dyluniad ysgolion, a hynny mewn ffyrdd sy'n bodloni'r meini prawf a sefydlwyd ym mhob un o'r saith nod llesiant. Mae hefyd wedi llywio Cwricwlwm i Gymru, sy'n trosi'r nodau i'r hyn a ddylai fod yn ddiben cwricwlwm.

Ystyriaeth allweddol sydd wedi deillio o'r Ddeddf yw creu ysgolion bro i sicrhau mwy o hyblygrwydd a defnydd effeithlon o'r gofod sydd ar gael. Mae hyn yn anelu tuag at greu cymunedau cydlynol, ac yn darparu cyfle i wella iechyd corfforol a meddyliol pobl.

# Canllawiau ar y Briff

**Wrth ddatblygu'r ddogfen ganllaw hon ar gyfer pennu maint ysgolion, nododd yr ymgynghoriad fod y broses ar gyfer creu briff a meini prawf dylunio yn y Bwletinau Adeiladu a ddefnyddid yn flaenorol yn un ddefnyddiol a buddiol i nifer o randdeiliaid.**

Mae cynllun gwaith RIBA yn darparu dull wedi'i ddiweddaru ar gyfer datblygu'r briff yn ystod camau cynharaf prosiect, a bydd yn darparu cymorth i dimau gyflawni'r weledigaeth ar gyfer ysgolion.

Mae'r ddogfen yn parhau i roi ystyriaeth i'r meini prawf dylunio allweddol y dylid ystyried eu cynnwys yn y briff er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau'n briodol ac yn addasadwy i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru, a'u bod yn bodloni gofynion cenedlaethol a lleol cyfredol, yn ogystal â datblygiad deddfwriaeth yn y dyfodol.

## Cynllun Gwaith RIBA

Mae Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) yn gorff aelodaeth proffesiynol byd-eang sy'n arbenigo mewn rhagoriaeth bensaernïol.

Mae wedi datblygu canllawiau, a elwir yn Gynllun Gwaith RIBA, sy'n cefnogi datblygwyr i friffio, dylunio, adeiladu a gweithredu adeiladau. Mae Cynllun Gwaith RIBA yn nodi wyth Cam penodol yn natblygiad prosiectau adeiladu. Mae hyn yn cwmpasu oes prosiect, o'r diffiniad strategol i 'r defnydd o'r adeilad, ac mae wedi'i gynllunio yn y fath fodd fel bod y gwersi a ddysgir yng nghamau olaf datblygiad adeilad yn bwydo i mewn i Gamau cynnar datblygiadau newydd.

**Y ddau gam cyntaf (Camau 0 ac 1) yw lle bo uchelgeisiau'r prosiect yn cael eu pennu, a lle bo gofynion y cleient a briff y prosiect yn cael eu sefydlu.**

**0** Yng Ngham 0 'Diffiniad Strategol', datblygir achos busnes sy'n ymgorffori'r opsiynau sy'n cyflawni dyheadau'r cleient/rhanddeiliaid orau

**1** Mae hyn yn bwydo i Gam 1 'Paratoi a Briffio', lle bo briff y prosiect yn cael ei baratoi, gan amlinellu canlyniadau ar gyfer cynaliadwyedd, gofynion gofodol, cyllideb y prosiect a chynllun gweithredu.

Mae craffter Rhanddeiliaid y Prosiect yn agwedd hanfodol ar y broses o ddatblygu diffiniad strategol a briff y prosiect, a hynny am y gall defnyddio gwersi a ddysgwyd trwy brofiad helpu i wella safon y dylunio a pherfformiad cyffredinol yr adeilad.

Mae sicrhau bod strategaeth y prosiect wedi'i diffinio'n dda ac yn cyflawni gofynion y cleient yn rhan hanfodol o ddatblygu achos busnes cadarn. Fel y disgrifir uchod, mae hyn yn bwydo i mewn i friff y prosiect yng Ngham 1 Cynllun Gwaith RIBA, lle cynhelir astudiaethau dichonoldeb a ddefnyddir i ddangos a ellir bodloni gofynion gofodol.

## Achos Busnes Strategol

Bydd angen i'r tîm cleientiaid ysgrifennu'r diffiniad strategol cychwynnol a'r briff ar gyfer unrhyw brosiect. Yna gall yr elfennau hyn gael eu datblygu ar y cyd â'r tîm dylunio ehangach gan fod gweithwyr adeiladu proffesiynol, yn draddodiadol, yn dod yn rhan o'r broses yn ystod y cam Dylunio Cysyniad (Cam 2 RIBA). Mae mewnbwn rhanddeiliaid prosiect yn rhan hanfodol o ddatblygu diffiniad strategol, a dylai rhanddeiliaid ffurfio rhan o'r tîm cleientiaid sy'n datblygu'r achos busnes. Wedi i achos busnes gael ei ddatblygu, gall briff y prosiect ddechrau ffurfio, briff sy'n amlinellu dyheadau'r prosiect. Nid yw'r tîm cleientiaid yn gyfrifol am wneud y gwaith dylunio.

Yn dibynnu ar faint a math y prosiect, bydd y tîm cleientiaid yn cynnwys:

- y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu'r lleoedd i ddisgyblion ac ystad yr ysgol, sef yr Awdurdod Lleol (ALl) neu'r esgobaeth fel arfer;
- deiliad/deiliaid y gronfa, y mae angen iddo/iddynt fod yn siŵr bod y briff yn gyflawnadwy o fewn y gyllideb, ac yn addas ar gyfer newidiadau yn y dyfodol (er enghraifft o ran staff a threfniadaeth) a defnydd cymunedol;
- uwch-staff yr ysgol, e.e. y pennaeth, a'r llywodraethwyr, y bydd yn ofynnol iddynt sicrhau bod y dyluniad yn addas ar gyfer anghenion penodol yr ysgol;
- rhanddeiliaid eraill, e.e. grwpiau cymunedol a allai ddymuno defnyddio'r cyfleusterau, neu randdeiliaid a allai ddarparu cyllid pellach trwy integreiddio darpariaeth amlasiantaeth ar safle'r ysgol, megis gwasanaethau iechyd neu gymdeithasol.

0

**Cam 0 Diffiniad Strategol:**

Cam 0 yw'r cam lle pennir y ffordd orau o gyflawni gofynion y cleient. Yn y cam hwn caiff yr achos busnes a gofynion y cleient eu diffinio gan y tîm cleientiaid, a gallai arbenigedd ymgynghorwyr rheoli, dadansoddiad oes gyfan, canllawiau cynaliadwyedd, modelu ariannol neu feddylfryd dylunio fod yn ofynnol. Ystyrir risgiau'r prosiect a'r gyllideb ar gyfer ystod o opsiynau a gellir cynnal arolygon o'r safle i bennu'r ffordd orau o gyflawni gofynion y cleient. Nodir gofynion gofodol lefel uchel ochr yn ochr â phob opsiwn i ddarparu cymorth i amcangyfrif costau prosiect.

1

**Cam 1 Briff Prosiect:**

Bydd Cam 1 yn cychwyn os cytunwyd yng Ngham 0 ar y ffordd orau o gyflawni gofynion y cleient. Yna caiff gofynion y cleient eu hystyried yn fanylach i gefnogi datblygiad briff y prosiect, briff sy'n rhoi cyfrif am ganllawiau ar ganlyniadau'r prosiect, canlyniadau cynaliadwyedd a dyheadau ansawdd. Gallai astudiaethau dichonoldeb fod yn ofynnol yn y cam hwn i ddangos ei bod yn bosibl darparu ar gyfer y gofynion arbennig ar y safle arfaethedig, gofynion a ddylai, os yw hynny'n ymarferol, gael eu profi yn unol â chyllideb y prosiect.

Dylai defnyddwyr y prosiect, gan gynnwys y disgyblion, hefyd gael eu cynrychioli neu eu cynnwys wrth lunio'r briff.

Y dull gorau o ysgrifennu briff yw diffinio mewn modd mor eglur â phosibl y canlyniadau a ddymunir ar gyfer y prosiect, yn hytrach na cheisio manylu ar atebion dylunio i gyflawni'r canlyniadau. Bydd hyn yn sicrhau'r gwerth gorau o allu dylunio dyfeisgar y tîm dylunio a'r contractwr.

Dylai'r briff roi ystyriaeth i'r ffaith y bydd anghenion y dyfodol yn seiliedig ar:

- y capasiti amcanestynedig (nifer y lleoedd disgyblion), yng nghyd-destun strategaethau a pholisïau'r ALl;
- arwynebedd argymelledig yr adeilad a'r safle, net a gros fel ei gilydd, ar gyfer yr ystod oedran a'r capasiti gofynnol, a hynny'n seiliedig ar y fformiwlâu yn Rhannau 1 a 2;
- dadansoddiad o'r cwricwlwm yn seiliedig ar anghenion unigol cwricwlwm cynlluniedig yr ysgol;
- defnydd cymunedol bwriadedig (mae hon yn ystyriaeth allweddol ar gyfer y canllawiau maint).

Yn dibynnu ar y twf amcanestynedig posibl neu newid yn y gofynion o ran capasiti'r ysgol, gall y data uchod hefyd amlygu'r amserlen gyffredinol ofynnol.

## Datblygu'r Rhestr Ystafelloedd gychwynnol (SoA)

Yn seiliedig ar y canllawiau, dylai tîm y prosiect ddatblygu'r Rhestr Ystafelloedd gan nodi'r ddarpariaeth sylfaenol ar gyfer y math a maint o ysgol sydd i'w chyflenwi, ynghyd ag unrhyw ardaloedd ychwanegol ar gyfer ADY, y gymuned neu ddefnydd arbenigol, e.e. Ysgol Gynradd 210 gyda 30 FTE Meithrin neu Ysgol Uwchradd 900 heb Chweched Dosbarth.

Dylai'r Rhestr Ystafelloedd ddarparu dadansoddiad o'r ardaloedd a ddarperir yn seiliedig ar y canllawiau arwynebedd lleiaf, ac yna naratif clir o'r modd y mae'r prosiect yn dyrannu'r fflôt sydd ar gael i gyflawni brîff y prosiect, yn cynnwys y modd y mae'r dull gweithredu o ran yr arwynebedd a neilltuir ar gyfer parwydydd a chylchrediad yn effeithio ar faint cyffredinol yr adeilad.

### Newidiadau arfaethedig i'r arwynebedd net

Ar sail yr adolygiad o bolisïau cyfredol Cymru, mae'r tabl yn nodi'r newid arfaethedig yn y maint net o'r Bwletinau Adeiladu blaenorol.

| | Maint Net Lleiaf | Maint Net Mwyaf | Fflôt |
|---|---|---|---|
| Cynradd | Cynnydd | Cynnydd | Dim newid |
| Uwchradd | Gostyngiad | Dim newid | Cynnydd |

**Tabl**
Newidiadau Arfaethedig i'r Arwynebedd Net

### Enghreifftiau o oblygiadau newidiadau arfaethedig ac addasu'r arwynebedd net

Mae'r tablau'n nodi y byddai'r addasiad mewn arwynebedd net ar gyfer ysgolion cynradd Cymru yn gweld cynnydd ym maint ysgolion ar y sail bod yr ysgolion yn darparu'r cynnydd argymelledig i ardaloedd penodol, ynghyd â gofodau ychwanegol

| Ysgol | Maint (disgyblion) | Arwynebedd | BB Lleiaf | BB Mwyaf | Argymhelliad | Sylw (gwahaniaethau allweddol) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol A | 420 | 2,257 | 2,200 | 2,251 | 2,289 | Mae ystafell cyfarpar yr ysgol ~30m² yn llai na'r argymhelliad |
| Ysgol B | 210 + 30 FTE Meithrin | 1,549 | 1,427 | 1,442 | 1,480 | Mae gan yr ysgol y canlynol yn ychwanegol:<br>• Pared 89m²<br>• Cylchrediad 73m²<br>Gallai'r Feithrinfa roi cyfrif am y cylchrediad ychwanegol a'r pared mwy |
| Ysgol C | 210 + 30 FTE Meithrin | 2,844 | 2,785 | 2,791 | 2,886 | Cylchrediad ychwanegol = 74m²<br>Pared ychwanegol = 12m² |
| Ysgol D | 240 + 30 FTE Meithrin | 1,549 | 1,611 | 1,577 | 1,673 | Darperir cylchrediad llai na'r hyn a argymhellir = 33m²<br>Arwynebedd y pared mwy = 12m²<br>Mae'r ystafell cyfarpar ~ 40m² yn llai na'r argymhelliad |
| Ysgol E | 310 + 45 FTE Meithrin | 2,062 | 1,927 | 1,960 | 1,997 | Rhagor o gylchrediad = 67m²<br>Pared mwy = 47m² |

**Tabl 1**
Cynradd: Enghreifftiau o Newidiadau

## Enghreifftiau o oblygiadau newidiadau arfaethedig ac addasu'r arwynebedd net

Mae'r tablau'n nodi y byddai'r addasiad mewn arwynebedd net ar gyfer ysgolion Uwchradd Cymru yn arwain at leihau'r arwynebedd craidd ar y sail bod mwy o hyblygrwydd yn cael ei ddarparu yn y canllawiau i gyflenwi Cwricwlwm i Gymru.

| Ysgol | Maint (disgyblion) | Arwynebedd | BB Lleiaf | BB Mwyaf | Argymhelliad | Sylw (gwahaniaethau allweddol) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol A | 1500 + 250 6ed Dosbarth | 15,662 | 14,519 | 14,610 | 14,381 | Mae gan yr ysgol neuadd chwaraeon 8 cwrt yn hytrach na'r 4 cwrt yn enghraifft y Bwletin Adeiladu |
| Ysgol B | 1175 + 177 6ed Dosbarth | 11,138 | 11,664 | 11,792 | 11,520 | Cyfanswm arwynebedd gros y llawr mewnol (yn cynnwys ASC) = 11,936m² |
| Ysgol C | 1240 | 11,417 | 11,104 | 11,136 | 10,952 | Tybir bod i arwynebedd yr ysgol 2,476m² yn ychwanegol gan nad yw'r Rhestr Ystafelloedd yn cynnwys cylchrediad, cyfarpar na pharwydydd. Mae gan yr ysgol glwstwr ADY arbenigol = 799m² Mae'r gegin ~40m² yn fwy na'r argymhelliad. Mae'r brif neuadd 100m² yn fwy na'r argymhelliad. |
| Ysgol D | 1200 + 250 6ed Dosbarth | 13,108 | 12,487 | 12,565 | 12,330 | Amh. |

**Tabl 2**
Mae'r tablau'n nodi y byddai'r addasiad mewn arwynebedd net ar gyfer ysgolion Uwchradd Cymru yn arwain at leihau'r arwynebedd craidd ar y sail bod mwy o hyblygrwydd yn cael ei ddarparu yn y canllawiau i gyflenwi Cwricwlwm i Gymru.

# Egwyddorion Dylunio

**Erys yn bwysig nodi ac ystyried yr ystod o egwyddorion dylunio allweddol a ddylai gael eu hadlewyrchu yn y briff, a hynny er mwyn sicrhau bod prosiectau'n darparu cyfleusterau priodol o safon i ddiwallu anghenion yr ysgolion a'r disgyblion 'nawr ac yn y dyfodol.**

Dylai'r canlynol fod yn ystyriaethau allweddol hollbwysig i ddylunio unrhyw brosiect ysgol yn llwyddiannus:

**Addasolrwydd a hyblygrwydd**

**Addasolrwydd a hyblygrwydd**

**Diogelwch personol a diogelwch eiddo**

**Cynaliadwyedd a dylunio amgylcheddol**

**Perfformiad amgylcheddol**


e.e. acwsteg, awyru a golau dydd

## Gweledigaeth ar gyfer yr Ysgol

Yn unol â bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ffyrdd o Weithio i ddangos y gweithredir yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, dylai unrhyw uwchgynllun sicrhau bod yr amgylchedd cynlluniedig yn gweddu i hunaniaeth, ethos a diwylliant yr ysgol.

Ymhlith dyheadau cyffredinol eraill, rhaid i'r briff gyfleu i'r tîm dylunio y dylai'r adeiladau ysbrydoli a gwella:

- Perfformiad addysgol: cyfleoedd i godi safonau i bawb trwy gynnig amgylchedd dysgu priodol, addasadwy ac ysgogol;
- Boddhad staff: yn hanfodol i recriwtio a chadw adnodd pwysicaf yr ysgol, daw dan ddylanwad agweddau amrywiol ar yr amgylchedd gwaith, yn ogystal â gofod priodol i staff orffwys a chymdeithasu ynddo;
- Boddhad disgyblion: mae'n effeithio ar ymddygiad a hunan-barch, ac, yn y pen draw, ar y parodrwydd a'r gallu i ddysgu;
- Gweithredu cymunedol: ffordd bwysig o ehangu integreiddiad yr ysgol a chynyddu mynediad effeithiol i gyfleusterau.




Ffigur 1

## Cyfleusterau Ysgol Estynedig a Defnydd Cymunedol a Rennir

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i hyrwyddo a datblygu ysgolion bro.

Dylid asesu lefel, amlder ac amseriad tebygol defnydd cymunedol yn fuan yn ystod y broses friffio, a hynny ar y cyd â strategaeth yr Awdurdod Lleol ar gyfer amwynderau chwaraeon a hamdden.

Gall unrhyw ysgol brif ffrwd ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau ysgol estynedig, y tu allan i'r diwrnod ysgol, i helpu i ddiwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Efallai y bydd rhai mathau o ysgolion yn fwy addas i gyflenwi darpariaeth ehangach yn ystod y diwrnod ysgol ar gyfer defnydd nad yw'n ymwneud â'r ysgol.

Yn gyffredinol, bydd darparu cyfleusterau ysgol estynedig yn perthyn i un o dair lefel o ddarpariaeth:

- dylai mynediad i'r gymuned leol ehangach i gyfleusterau ysgol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol fod ar gael mewn unrhyw ysgol, a dylid mynd i'r afael â hynny trwy ddylunio a rheoli'r adeilad a'r ddarpariaeth a restrir uchod;
- gallai ardaloedd amlddefnydd hyblyg at ddefnydd pobl eraill yn yr ysgol yn ystod y diwrnod ysgol, megis ystafell rhieni/gymunedol neu gyfleusterau ADY y gellir eu defnyddio hefyd ar gyfer gofal iechyd cymunedol, gael eu cynnwys yn yr ardal 'fflôt' neu mewn 'ardal atodol' a ariennir gan yr ALl;
- byddai gofyn i brif ardaloedd ar gyfer gwasanaethau anaddysgol penodedig fod ag arwynebeddau atodol (gweler tudalen 49), arwynebeddau a gâi eu cyllido trwy gyfuno ffrydiau ariannu eraill, megis y rhaglen Dechrau'n Deg neu Ofal Plant.

Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i leoliad unrhyw gyfleusterau a ddefnyddir gan y gymuned, gan gadw mynediad, diogelwch eiddo, diogelu a lefel y parcio gofynnol mewn cof.

Mae gofodau a rennir yn debygol o gynnwys y brif neuadd neu ofod perfformio a'i gyfleusterau ategol, a chyfleusterau chwaraeon dan do ac yn yr awyr agored.

Gallai cysylltiadau â darpariaeth dysgu oedolion ac ysgolion lleol eraill hefyd arwain at rannu rhai gofodau dysgu arbenigol, megis ystafelloedd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) neu gyfleusterau celf a drama. Dylai'r dyluniad ganiatáu i'r rhannau hyn o'r ysgol fod yn agored ac wedi'u gwresogi tra bo rhannau eraill ynghau a than glo.

Mae'r cyfleusterau a fydd yn annog defnydd cymunedol y tu allan i'r diwrnod ysgol, ac a ganiateir o fewn yr arwynebedd gros argymelledig, yn cynnwys:

- cyfleusterau 'derbyn' amgen a mynediad ar gyfer defnydd y tu allan i oriau;
- neuadd chwaraeon, stiwdio gweithgareddau a chyfleusterau newid sy'n addas at ddefnydd y cyhoedd;
- toiledau a chypyrddau clo hygyrch at ddefnydd oedolion sy'n ymweld;
- swyddfa gymunedol a gofodau storio sydd ar wahân i'r rhai a ddefnyddir gan yr ysgol;
- ardaloedd dysgu amgylcheddol sydd ar gael i'w rheoli mewn partneriaeth â grwpiau arbenigol a'r gymuned leol.

### Darpariaeth Gysylltiedig

Efallai y gellir cyrchu rhai cyfleusterau gerllaw, megis pwll nofio neu adnoddau galwedigaethol arbenigol. Dylai'r briff nodi goblygiadau unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig o'r fath.

Yn draddodiadol, mae ysgolion cyfrwng cymraeg wedi cael eu lleoli yn ymyl ysgol cyfrwng saesneg a chanddi eisoes ddarpariaethau neu adnoddau arbenigol.

## Cyfleoedd o ran y Cwricwlwm

Un o nodweddion diffiniol y Fframwaith yw ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu eu hunain. Ar ei phen ei hun, nid yw'n rhaglen 'barod' i'w chyflawni.

Nid yw'r Fframwaith yn rhagnodi rhestr lawn o bynciau na gweithgareddau penodol. Nid yw hynny'n golygu bod y pynciau neu'r gweithgareddau penodol yn ddibwys.

Yn hytrach, mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn nodi hanfod y dysgu a ddylai fod yn sail iddynt.

Mater i ysgolion ac ymarferwyr, gan dynnu ar ganllawiau ac adnoddau, yw penderfynu pa brofiadau, gwybodaeth a sgiliau penodol a fydd yn cefnogi eu dysgwyr penodol i wireddu'r pedwar diben. Gosodir hyn o fewn y cysondeb a ddarperir gan y fframwaith cenedlaethol.

Dylai'r briff amlygu'r angen i ddylunwyr a'r ysgol fanteisio ar y cyfle hwn, ac mae'r canllawiau maint wedi'u haddasu i adlewyrchu'r angen am fwy o hyblygrwydd i bennu'r ddarpariaeth orau o ran gofod ac ardaloedd.

## Gofynion Dylunio Allweddol

Dylai'r materion canlynol gael eu nodi'n rhai hanfodol ym mriff unrhyw brosiect.

### Hyblygrwydd ac Addasolrwydd

Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i ddatblygu amgylcheddau dysgu sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac yn darparu mynediad y tu allan i oriau ysgol traddodiadol. Mae hyn yn sail i'r angen i ddylunio ysgolion i gynnwys gofodau hyblyg a all letya lliaws o swyddogaethau a darparu gofodau y gall staff, disgyblion a'r gymuned eu defnyddio. Wrth ddylunio gofodau dysgu, dylid bod yn ymwybodol o feintiau grwpiau gwahanol, y mathau o ddysgu a'r defnydd o dechnoleg er mwyn gwella eu haddasolrwydd.

Rhaid i hyblygrwydd er mwyn darparu ar gyfer newid fod yn ofyniad dylunio allweddol. Pa osodiad neu ddull bynnag a ffefrir, rhaid iddo fod yn addasadwy i ddarparu ar gyfer newidiadau yn y dyfodol, er enghraifft i fabwysiadu strwythur dosbarth neu drefniadau addysgu gwahanol.

Mae angen hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer newid mewn defnydd o ddydd i ddydd, megis cyflenwi dodrefn symudol a TGCh cludadwy fel y gellir cael trefniadau addysgu gwahanol mewn ystafell ddosbarth, yn hytrach na rhagnodi gofodau sefydlog penodol.

Mae addasolrwydd yn ofynnol i ddarparu ar gyfer newidiadau hirdymor, megis datblygiadau i'r cwricwlwm 14 i 19 neu oblygiadau esblygu TGCh. Dylai staff a disgyblion allu gweithio'n ystwyth ar draws yr ysgol, a dylai sicrhau mynediad at Wi-Fi ledled y safle a hwyluso'r defnydd o ddyfeisiau cludadwy personol ym mhob gofod gweithio gael eu hystyried yn elfennau ar arfer da.

Mae osgoi dodrefn sefydlog cymaint â phosibl, a chyfyngu ar yr ystod, yn sicrhau hyblygrwydd. Gall dodrefn hefyd ddarparu hyblygrwydd trwy fod yn addas ar gyfer nifer o swyddogaethau, er bod yn rhaid gwrthbwyso hyn â'r angen am gynhyrchion syml nad ydynt yn anodd eu hatgyweirio na'u hamnewid.

Mae'n bwysig bod yn eglur ynghylch yr hyn y mae'n ofynnol ei addasu (er enghraifft y gallu i symud ac ailadeiladu waliau mewnol heb effeithio ar yr adeiladwaith na'r prif wasanaethau) a beth a ddylai fod yn hyblyg ar gyfer ei newid yn amlach.

Er enghraifft, yn aml gall y defnydd o ddrysau llithro/plygu fod yn annigonol a gallant fod yn aneffeithiol, ond medr fod yn ddefnyddiol caniatáu i ystafelloedd newid eu maint i gyd-fynd â meintiau grwpiau anrhagweladwy, megis y chweched dosbarth, neu i ddarparu gofod arholiad.

**Argymhellion i ymgynghori arnynt**

- Dylunio gofodau y gellir eu haddasu yn y dyfodol
- Safoni a chynyddu maint dosbarthiadau
- Rhoi ystyriaeth i newid y drefn o ran prydau ysgol am ddim
- Gridiau safonol
- Helpu i hwyluso newidiadau yn anghenion ysgolion yn y dyfodol

## Mynediad a Chynhwysiant

Rhaid darparu ar gyfer mynediad a chynhwysiant yn y dyluniad, gan adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cynhwysiant i ddisgyblion ag ADY ac anableddau mewn ysgolion prif ffrwd. Mae hyn yn golygu y dylai disgyblion o'r fath allu cael mynediad i'r cwricwlwm cyfan a chymryd rhan ym mywyd yr ysgol. Dylid rhoi sylw arbennig i:

- ofod priodol i gynorthwyo disgyblion, boed yn addysgol (er enghraifft trwy ystafelloedd grŵp bach), therapiwtig, cymdeithasol neu feddygol;
- cynllun hawdd ei ddeall a defnydd addas o liw ac arwyddion da;
- acwsteg a goleuo o safon dda (ac efallai manyleb uwch mewn ardaloedd arbenigol);
- mynediad at wybodaeth, y cwricwlwm a'r amgylchedd ffisegol (er enghraifft cynnwys ramp a grisiau lle mae yna newid bach mewn lefel) wedi'i gynllunio ar gyfer pawb.

Mae'r canllawiau'n cynnwys cynyddu'r meintiau lleiaf ar gyfer gofodau addysgu a gofodau cynorthwyo i ddarparu ar gyfer disgyblion ag ADY ac anableddau a'u cynorthwywyr. Mae'r ystod o gyfleusterau a ganiateir o fewn yr arwynebedd gros argymelledig i sicrhau ysgol gynhwysol hefyd yn cynnwys y canlynol:

- lleoliad ar gyfer adnoddau ADY;
- ystafelloedd grŵp bach amlbwrpas ar gyfer addysgu arbenigol a chynorthwyo disgyblion;
- gofod swyddfa, ac ystafelloedd meddygol a therapi ar gyfer staff peripatetig a gweithwyr iechyd proffesiynol;
- ystafelloedd cyfarfod i rieni a gofalwyr;
- gofod storio ar gyfer cyfarpar addysgol a symudedd;
- toiledau hygyrch a chyfleusterau hylendid ar gyfer defnydd â chymorth;
- coridorau llydan addas.

Mewn rhai ysgolion, bydd niferoedd uchel iawn o ddisgyblion ag ADY ac anableddau, neu gynnydd yn eu hanghenion, yn gofyn am ddarpariaeth ychwanegol o ran adnoddau ADY arbenigol. Fel arall, efallai y bydd yna ysgol arbennig wedi'i chyd-leoli ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth, a bydd i hynny oblygiadau i'r ysgol brif ffrwd hefyd.

**Argymhellion i ymgynghori arnynt**

- Gwella'r ddarpariaeth ADY trwy ddarparu gofodau cymorth sy'n seiliedig ar gynnydd disgwyliedig yn nifer y disgyblion ag ADY.
- Lleoliad adnoddau arbenigol sy'n anelu at gefnogi disgyblion ag awtistiaeth neu anghenion iechyd a llesiant emosiynol.
- Dull cynhwysol mewn perthynas â gofodau personol sy'n darparu preifatrwydd digonol.
- Pob gofod y mae disgyblion yn mynd iddo i gael ei ystyried yn fan dysgu.
- Dyluniad 'clwstwr' ar gyfer gwaith trawsgwricwlaidd. Canolfannau dysgu pwnc cyflenwol. Mae dysgu trawsgwricwlaidd yn awgrymu bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i:
  - ddatblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu
  - defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn
  - bod yn hyderus yn eu defnydd o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd
- Dylai pob grŵp defnyddwyr posibl fod mewn cof wrth ddylunio gofodau dysgu.

## Diogelwch Personol a Diogelwch Eiddo

Mae diogelwch personol a diogelwch eiddo yn faterion cyffredinol y dylid eu hystyried ochr yn ochr â gofynion am fwy o fynediad i'r gymuned. Mae diogelwch eiddo yn golygu creu ymdeimlad o amgylchedd diogel, trefnus a sicr lawn gymaint ag y mae'n ymwneud â manylion penodol gwyliadwriaeth a goruchwylio mynediad. Mae angen rhoi sylw arbennig i:

- reoli mynediad, er enghraifft i sicrhau y gellir hebrwng ymwelwyr i ystafell gyf-weld o'r dderbynfa, ond na allant fynd i mewn i'r ysgol heb ganiatâd;
- diogelu 'amlen' yr adeilad: waliau a thoeau, ond yn enwedig ffenestri a drysau;
- sicrhau ffiniau eglur i'r safle, a hynny gan ddefnyddio ffensys a/neu blanhigion priodol;
- mesurau electronig, megis larymau tresmaswyr;
- archwiliad iechyd a diogelwch o'r cynllun i sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer oedolion a disgyblion ag anghenion arbennig neu anableddau.

### Argymhellion

Dylai timau prosiectau ymgysylltu â'r Swyddogion Cynllunio i Atal Troseddu (DOCO) lleol yng Ngham 2 RIBA i ddeall y cyd-destun diogelwch eiddo lleol a gweithio i sicrhau yr ymgorfforir yr argymhellion yn y dyluniad (lle bo hynny'n briodol).

## Perfformiad Amgylcheddol

Bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion newydd gyflawni gradd Ragorol BREEAM, cyflawni Carbon Sero Net wrth Weithredu, a bodloni targedau Carbon Ymgorfforedig fel gofyniad ariannu.

Er mwyn sicrhau lefel resymol o gynaliadwyedd, mae BREEAM yn ystyried ystod eang o ffactorau, gan gynnwys diogelwch eiddo, defnydd cymunedol ac ystyriaethau gwella safle, ochr yn ochr â materion amgylcheddol mwy hysbys megis effeithlonrwydd ynni, lleihau gwastraff a nodi cyfleoedd i leihau effeithiau amgylcheddol.

Dylai'r briff nodi dyluniad cynaliadwy ac amgylcheddol fel bod gradd Ragorol BREEAM neu well yn cael ei chyflawni.

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i waith adnewyddu ac estyniadau lle nad oes gofyniad ffurfiol ar hyn o bryd i gyflawni sgôr Ragorol BREEAM. Bydd yna oblygiadau o ran cost i'r dewis, yn y byrdymor a'r hirdymor fel ei gilydd, felly dylai'r sgôr a bennir yn y briff gael ei hystyried yn ofalus gan dîm y prosiect.

Mae meini prawf perfformiad amgylcheddol hefyd yn hanfodol, yn enwedig ar gyfer acwsteg, gwresogi, awyru a golau dydd. Mae nifer o'r rhain bellach yn statudol, ac maent yn hanfodol i sicrhau gofod addysgu cyfforddus ac addas. Dylid darparu cyfrifiadau acwstig ac ynni ar gyfer pob dyluniad, gan eu cysoni â'r gofynion cynaliadwyedd a pherfformiad gweithredol cyffredinol.

Dylai gofynion polisi sy'n gysylltiedig â Charbon Sero Net, Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS) a Budd Net Bioamrywiaeth (BNB) gefnogi'r broses o gyflawni sgôr Ragorol BREEAM, ond bydd gofyn i dimau prosiectau ystyried y costau sy'n gysylltiedig â lleoliadau unigol a'r effaith ar ofynion safleoedd.

# Rhan 1 - Canllawiau ar Arwynebeddau Adeiladau

**Mae'r rhan hon yn nodi sut i sefydlu'r gofynion o ran arwynebedd lloriau ar gyfer gofod mewn ysgolion yng Nghymru. Yn unol â'r canllawiau maint blaenorol, bydd y ddogfen yn parhau i ystyried:**

## Arwynebedd net

sef yr arwynebedd y gellir ei ddefnyddio ac sy'n cynnwys ardal addysgu sylfaenol; neuaddau, gofodau bwyta ac addysg gorfforol; Ardaloedd Adnoddau Dysgu; staff a gweinyddu; a storfeydd;

## Arwynebedd nad yw'n net

sy'n cefnogi gweithrediad yr adeilad, ac yn cynnwys toiledau a gofal personol, cyfleusterau cegin, cylchrediad, cyfarpar a waliau mewnol;

## Arwynebedd atodol

(gan gynnwys net a heb fod yn net) a ddefnyddir ar gyfer swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â'r ysgol neu sy'n ymwneud â chymorth megis cyfleusterau anghenion arbennig ag adnoddau penodol.

### Arwynebedd net

- Ystafelloedd Dosbarth
- TGCh
- Gofod Addysgu Arbenigol/ Ymarferol
- Gofodau ADY
- Neuaddau, gofodau bwyta ac addysg gorfforol/ perfformio
- Ardaloedd Adnoddau Dysgu (gan gynnwys llyfrgelloedd)
- Gweinyddu a staff
- Storfeydd

### Arwynebedd nad yw'n Net

- Toiledau a gofodau newid
- Ardaloedd cegin
- Cylchrediad, cyfarpar ac offer, a waliau mewnol
- Arall, gan gynnwys Cyfleusterau Golchi Dillad

### Arwynebedd Atodol

- Gofynion ADY penodol
- Gofynion cymorth cymunedol

## Newidiadau Allweddol

Wrth ddatblygu'r canllawiau arwynebedd anstatudol syml, realistig ar gyfer holl adeiladau a thiroedd ysgolion Cymru, mae'r newidiadau allweddol canlynol mewn perthynas â'r Bwletinau Adeiladu blaenorol wedi cael eu cynnwys ar sail yr adolygiad polisi a'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

Cynigir y newidiadau hyn i gefnogi'r polisi cenedlaethol a sicrhau bod ysgolion yn gallu cyflawni'n unol â Cwricwlwm i Gymru a gofynion polisi yn llwyddiannus.

Mae'r tablau isod yn amlinellu'r newid ym maint arwynebeddau o gymharu â'r priod Fwletinau Adeiladu ar gyfer arwynebeddau Ysgolion Cynradd ac Uwchradd, yn ogystal â'r rhesymeg dros yr addasiad hwn.

### Cynradd: Newidiadau Allweddol

| Arwynebedd (Ystafell) | Newid Cyffredinol | Polisi/argymhelliad |
|---|---|---|
| Arwynebedd nad yw'n net (Cyfleusterau cegin) | Cynnydd | Prydau ysgol am ddim i bawb. Mae gostwng y trothwy yn golygu y bydd cyfran uwch o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim |
| Adnodd dysgu (Adnoddau llyfrgell) | Cynnydd | Addasu'r defnydd i gynnwys ADY |
| Gwasanaethau adeiladau | Cynnydd | Cefnogi'r polisi Sero Net |

**Tabl 3**
Cynradd: Newidiadau allweddol

### Uwchradd: Newidiadau allweddol

| Arwynebedd (Ystafell) | Newid Cyffredinol | Polisi/argymhelliad |
|---|---|---|
| Ardal addysgu sylfaenol (labordai Gwyddoniaeth) | Gostyngiad | Lleihau nifer y labordai Gwyddoniaeth pwrpasol i 1 fesul ~230 o ddisgyblion, gan ddarparu ar gyfer nifer uwch o ardaloedd addysgu cyffredinol ac iddynt swyddogaeth hyblyg |
| Ardal addysgu sylfaenol (Dylunio a Thechnoleg) | Gostyngiad | Yr amrediad a ddarperir ym Mwletin Adeiladu 98 heb ei ddefnyddio hyd yr eithaf. Mae gostyngiad yn darparu hyblygrwydd ychwanegol |
| Adnodd dysgu (Adnodd llyfrgell) | Gostyngiad | Yr arwynebedd mwyaf heb fod yn ofynnol – gostyngiad yn y gofyniad am lyfrau oherwydd cynnydd mewn mynediad i TGCh. Addasu'r defnydd i gynnwys ADY |
| Adnodd dysgu (lleoliad ADY) | Cynnydd | Nifer uwch o ddisgyblion yn ymgyflwyno ag ADY, gan olygu bod mwy o ddarpariaeth yn ofynnol ar eu cyfer |
| Gwasanaethau adeiladau | Cynnydd | Cefnogi'r polisi Sero Net |
| Fflôt | Cynnydd | Hyblygrwydd |

**Tabl 4**
Uwchradd: Newidiadau Allweddol

**Noder:** *tra bo'r uchod yn dynodi y byddai'r arwynebedd cyffredinol yn arwain at ostyngiad yn yr arwynebedd nad yw'n net, y canlyniad cyffredinol fydd darparu ardal niwtral wedi'i chydbwyso â chynnydd yn y fflôt i ddarparu hyblygrwydd ychwanegol.*

## Arwynebedd Gros yr Adeiladau

Mesurir yr arwynebedd mewnol gros hyd at wyneb mewnol waliau allanol ym mhob rhan o'r holl adeiladau ar safle(oedd) yr ysgol y bwriedir iddynt fod yn ddiogel ac yn ddiddos rhag y tywydd.

Mae'r argymhellion ar gyfer arwynebeddau adeiladau yn cael eu rhannu'n ddau gategori:

- Yr arwynebedd net, neu'r arwynebedd defnyddiadwy, y gellir ei gyfrifo'n gywir o'r fformiwlâu yn atodiad 1 a'r ffigurau sy'n nodi arwynebedd net a gros; ynghyd ag unrhyw arwynebedd net atodol cytunedig; a'r
- Arwynebedd nad yw'n net, megis cylchrediad, y bydd iddo fwy o amrywiaeth yn dibynnu ar y dyluniad, cyfluniad adeiladau cyfredol a chyfyngiadau'r safle, ond a fydd, yn gyffredinol, yn cynyddu'n gymesur â'r arwynebedd net.

Mae cyfanswm y categorïau hyn yn rhoi arwynebedd gros yr adeiladau.

Bydd yr arwynebedd gros gofynnol yn dibynnu ar ddyluniad a chynllun yr adeiladau. Yn gyffredinol, gall arwynebedd gros adeiladau newydd amrywio rhwng 140% a 145% o'r arwynebedd net (fel bod y net yn 69% i 71.5% o'r gros), yn dibynnu ar y cynllun a'r math o safle.

- Mewn adeiladau cyfredol, gallai hyn godi i gymaint â 150%.
- Mewn adeiladau newydd, bydd angen i'r arwynebedd gros fod yn ddim llai na 140% o'r arwynebedd net, oni bai y bydd yna gyfaddawdu yn y ddarpariaeth ar gyfer gofod cylchredeg.

Fel arfer, ni ddylai fod angen i gyfanswm yr arwynebedd net gofynnol ar gyfer ysgol gymunedol fod yn fwy na'r arwynebedd net argymelledig ar gyfer nifer y lleoedd disgyblion ac ystod oedran yr ysgol.

Efallai y bydd gofyn am arwynebedd net atodol pellach, a chynnydd cymesurol mewn arwynebedd nad yw'n net, os oes yna swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â'r ysgol neu swyddogaethau cymorth ac iddynt adnoddau arbennig yn digwydd ar safle'r ysgol (gweler yr adran Arwynebeddau Atodol).

Bydd penderfyniadau am unrhyw gyfleusterau i'w darparu o fewn arwynebedd net atodol yn amrywio'n fawr oherwydd anghenion lleol penodol, a dylid rhoi ystyriaeth iddynt wrth ddefnyddio ffrydiau ariannu ychwanegol.

## Arwynebedd Net Adeiladau

Mae'r arwynebedd net yn cynnwys yr holl ofodau yn arwynebedd gros yr adeiladau, ac eithrio toiledau, ystafelloedd ymolchi a chawodydd (a chynteddau iddynt, gan gynnwys ystafelloedd newid), ardaloedd gwasanaethau adeiladau, megis ystafelloedd cyfarpar, gofod cylchredeg, ceginau'r ysgol, a'r arwynebedd y mae'r waliau mewnol yn ei lenwi.

Mae arwynebedd net yr ysgolion yn cynnwys ystafelloedd yn y pum categori o ofod a restrir isod, ynghyd ag unrhyw arwynebedd net atodol ar gyfer swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â'r ysgol neu swyddogaethau cymorth, fel y trafodwyd uchod.


### Arwynebedd Net a Gros

Mae ffigurau 2 a 3 yn dangos yr arwynebeddau net a gros argymelledig ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn y drefn honno. Mae'n werth nodi bod graddfa'r arwynebedd ar gyfer y graffiau arwynebedd net a gros cyfun yn fwy na'r graffiau arwynebedd net yn unig.


### Chweched ychwanegol ar gyfer arwynebeddau net a gros

Mae ffigurau 6 a 7 yn dangos yr arwynebedd ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd. Mae'r arwynebedd a gyfrifir i fod yn ychwanegol at yr hyn a bennir ar gyfer ysgolion uwchradd.


**Ffigur 2:** Arwynebeddau Net a Gros Cynradd





**Ffigur 3:** Arwynebeddau Net a Gros Uwchradd




**Ffigur 4:** Arwynebeddau Net Cynradd





**Ffigur 5:** Arwynebeddau Net Uwchradd



**Ffigur 6:** Arwynebeddau chweched dosbarth Net a Gros ychwanegol




**Ffigur 7:** Arwynebeddau chweched dosbarth Net ychwanegol



Mae gwaelod pob parth, y gellir ei gyfrifo gan ddefnyddio'r fformiwlâu a ddangosir yn Atodiad 1, yn cynrychioli'r arwynebedd lleiaf argymelledig ar gyfer y categori gofod hwnnw.

Dylai cyfanswm arwynebedd pob un o'r categorïau hyn o leiaf gyfateb i'r arwynebedd lleiaf argymelledig yn y canllaw hwn (h.y. gwaelod y parth). Os yw unrhyw un o'r categorïau unigol yn annigonol ar gyfer y safle (hyd yn oed os yw cyfanswm yr arwynebedd net yn ddigon), mae hyn yn debygol o beryglu'r defnydd gorau o'r adeiladau.

Fel arfer bydd gofyn am arwynebedd mwy na'r arwynebedd lleiaf, ond o fewn y parth, ar gyfer pob categori. Trwy ddarparu rhywfaint o 'fflôt', bydd yr arwynebedd net a gros cyffredinol argymelledig yn sicrhau bod arwynebedd pob categori o ofod, ar gyfartaledd, yn agos at ganol pob parth. Yn ymarferol, gellir defnyddio'r fflôt i ddarparu ystafelloedd

ychwanegol lle bo eu hangen fwyaf ar bob ysgol: er enghraifft, gellid ei ddefnyddio ar gyfer darpariaeth arbenigol ychwanegol, e.e. stiwdio ddawns, rhagor o ystafelloedd staff neu ofodau addysgu ychwanegol.

## Beth yw'r fflôt?

O adio'r arwynebedd lleiaf argymelledig ar gyfer pob categori o ofod, bydd yr arwynebedd sy'n weddill tua 8 i 11% o'r arwynebedd mwyaf argymelledig ar gyfer cyfanswm yr arwynebedd net. Mae'r gwahaniaeth hwn yn darparu'r 'fflôt', y gellir ei ddefnyddio i gyfoethogi rhai ardaloedd, yn dibynnu ar flaenoriaethau'r ysgol.

Bydd cyllid rhaglenni ar gyfer prosiectau ysgolion yn seiliedig ar yr arwynebedd mewnol gros argymelledig (ynghyd ag unrhyw arwynebeddau atodol y cytunwyd arnynt), ac mae'n amlwg na fydd hyn yn ddigon i bob categori o ofod fod ar frig pob dyraniad parth – felly, rhaid gwneud penderfyniadau yn unol â blaenoriaethau penodol yr ysgol a'r modd y gellir rheoli'r gofodau orau i'w defnyddio i gyflwyno'r cwricwlwm a defnyddiau cysylltiedig.

## Rhestr Ystafelloedd

Rhan greiddiol o'r canllawiau yw datblygu Rhestr Ystafelloedd sydd i'w darparu'n rhan o'r cais am gyllid.

Darperir canllawiau a gofynion eglur mewn gwybodaeth Achos Busnes wedi'i diweddaru sydd i'w chyhoeddi gan SCfL

Bydd rhestr ar gyfer yr ysgol gyfan yn cynnwys gofodau ym mhob un o'r pum categori o ofod.

Mae'r canllawiau'n cefnogi datblygiad Rhestr Ystafelloedd a ddefnyddir i gyfrifo ac amlinellu'r nifer a'r mathau o ofodau a argymhellir ar gyfer ysgol benodol, a hynny ar sail ei niferoedd disgyblion arfaethedig, eu hystod oedran a'r cwricwlwm.

Yn achos ysgolion uwchradd, dylid defnyddio dadansoddiad o'r cwricwlwm i wirio nifer yr ystafelloedd a'r math o ystafelloedd sy'n gweddu i gwricwlwm yr ysgol unigol.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys dwy set o atodlenni enghreifftiol yn seiliedig ar y Cynradd 210 ac Uwchradd 900 (gweler Atodiad 2) a ddefnyddiwyd yn sail ar gyfer yr ymgynghoriad a'r adolygiadau a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r canllawiau.

Nid yw'r atodlenni, sydd yng nghefn y canllawiau hyn, wedi'u bwriadu i fod yn rhagnodol, ond yn hytrach i nodi un o nifer o setiau posibl o ofodau, a hynny'n seiliedig ar gwricwlwm a threfniadaeth nodweddiadol. Gellir defnyddio'r rhain fel man cychwyn ar gyfer datblygu amserlen unigol i'r ysgol, ac i fod yn rhan o'r cais am gyllid.

## Canllawiau ar arwynebeddau

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi rhywfaint o arweiniad ar y gofodau gwag sy'n ofynnol ym mhob categori. Yn achos pob categori:

- rhaid iddo gynnwys gofodau sy'n ofynnol dan reoliad;
- rhaid iddo gynnwys gofodau neu ardaloedd yn unol ag arfer gorau a chanllawiau anstatudol;
- gallai gynnwys gofodau eraill lle bo hynny'n briodol i flaenoriaethau neu ddewisiadau'r ysgol.

Bydd nifer a math y gofodau addysgu ar yr amserlen, o fewn yr ardal addysgu sylfaenol ac ardal y neuaddau, yn dibynnu ar ofynion dull pob ysgol neu ALl o ddarparu'r cwricwlwm. Bydd y rhain yn eu tro yn pennu'r math o storfeydd addysgu sy'n ofynnol, a rhai Ardaloedd Adnoddau Dysgu.

Fel arfer, bydd nifer pob math o ofod addysgu yn amrywio plws neu minws un fel arfer o gymharu â'r rhai a ddefnyddir yn yr atodlenni enghreifftiol (gweler Atodiad 2), ond dylai'r briff terfynol fod yn seiliedig ar 'ddadansoddiad o'r cwricwlwm' sy'n benodol i ofynion yr ysgol unigol.

## Ardal Addysgu Sylfaenol

Mae'r ardal addysgu sylfaenol yn cynnwys yr holl ofodau addysgu (ac eithrio neuaddau a gofodau addysg gorfforol) ar gyfer yr ystod lawn o bynciau yn y cwricwlwm. Mae hyn yn wir am leoliadau dosbarthiadau cynradd a gofodau uwchradd a amserlennir.

Mae'r graff(iau) isod ar dudalennau 36 a 37 yn rhoi canllawiau ar arwynebeddau ar gyfer gofodau addysgu unigol o fewn yr ardal addysgu sylfaenol, yn dibynnu ar faint y grŵp mwyaf. Brig pob parth yw'r arwynebedd mwyaf argymelledig ar gyfer y categori, a gallai fod yn ofynnol:

- Lle bo mwy o ddodrefn, gosodiadau a chyfarpar (FF&E) i ddarparu ar gyfer ystod ehangach o weithgareddau;
- Lle bo mwy nag un defnyddiwr cadair olwyn a chynorthwyydd yn debygol.

Mewn ysgolion newydd, dylai'r rhain i gyd fod o leiaf yn ystafelloedd dosbarth safonol; mae'r maint lleiaf ar gyfer pob gofod (gweler yr arwynebedd gofynnol yn y tabl fformiwlâu yn Atodiad 1) yn gyffredinol yn darparu ar gyfer un defnyddiwr cadair olwyn, cynorthwywyr, a swm cynyddol o gyfarpar TGCh cludadwy (yn cynnwys taflunyddion).

Fodd bynnag, nid yw'n darparu unrhyw le storio o bwys o ran dodrefn neu raciau cotiau a bagiau gan y darperir ar gyfer y rhain dan y categori storfeydd. Nid argymhellir yr arwynebedd lleiaf gan y byddai hyn yn cyfyngu ar addasolrwydd a hyblygrwydd yn y dyfodol mewn perthynas â swyddogaeth y gofod, a gallai gyfyngu ar allu'r gofod i ddarparu ar gyfer gofynion mynediad priodol.

Mewn adeiladau cyfredol, gallai rhai fod yn ystafelloedd dosbarth bach, ond dylai fod o leiaf un ystafell ddosbarth safonol ym mhob adran, ynghyd â chyfleusterau amgen ar gyfer mynediad heb ei amserlennu at TGCh.

Gall rhai ystafelloedd dosbarth mawr fod yn ddefnyddiol i ddarparu gweithgareddau ychwanegol, megis gwaith map neu chwarae rôl.


## Meintiau dosbarthiadau cynradd

Mae'r graff isod yn dangos maint yr ystafelloedd dosbarth cynradd a argymhellir yn yr ardal addysgu sylfaenol. Mae gwaelod pob parth yn cynrychioli'r maint lleiaf argymelledig ar gyfer maint y grŵp. Mae fformiwlâu i gyfrifo'r arwynebeddau hyn i'w gweld yn yr atodiadau.


## Meintiau dosbarthiadau uwchradd

Mae'r graff isod yn dangos maint yr ystafelloedd dosbarth uwchradd a argymhellir yn yr ardal addysgu sylfaenol. Mae gwaelod pob parth yn cynrychioli'r maint lleiaf argymelledig ar gyfer maint y grŵp. Mae fformiwlâu i gyfrifo'r arwynebeddau hyn i'w gweld yn yr atodiadau.

**Ffigur 8:** Meintiau Dosbarthiadau Cynradd





**Ffigur 9:** Meintiau Ystafelloedd Dosbarth Uwchradd




- Addysgu sylfaenol
- Ystafell waith y staff
- Ystafell grŵp bach
- Storfa


**Chwe ystafell ddosbarth $60m^2$.**





**Chwe ystafell ddosbarth $56m^2$.**




**Pedair ystafell ddosbarth $56m^2$ a dwy ystafell ddosbarth $68m^2$.**




**Mae opsiwn tymor hwy yn defnyddio'r un hyblygrwydd i greu ystafelloedd ymarferol $90m^2$ neu ardal fawr ar gyfer addysgu tîm, ynghyd ag ystafelloedd grŵp bach cyfagos. Gallai hyn olygu goblygiadau i gapasiti'r ysgol.**




**Noder:** *dangosir y coridor yn 2.1 m o led ar gyfer y diagramau ond efallai y ffefrir ffurfweddau eraill.*

**Ffigur 10**
Enghreifftiau o gynlluniau ystafelloedd dosbarth

Dylai gofodau addysgu sylfaenol cynradd gynnwys:

- Ystafelloedd dosbarth (gofod addysgu caeedig) neu leoliadau dosbarthiadau (gofodau lled-gaeedig sy'n agor i ardal addysgu a rennir), gyda ~30 o ddisgyblion ym mhob un.

Gallant hefyd gynnwys:

- Gofodau addysgu a rennir sy'n cael eu rhannu rhwng grwpiau o ddau neu dri lleoliad dosbarth cyfagos (ac y gall yr athro o bob lleoliad dosbarth fel arfer eu goruchwylio'n rhannol) fel y gall rhai cyfleusterau, fel arfer ar gyfer gwaith ymarferol, gael eu rhannu yn hytrach na'u bod yn cael eu darparu ym mhob ystafell ddosbarth. Mewn perthynas â darparu popty, gallai hyn gynnwys o leiaf fae bwyd 4m$^2$ lle gellir lleoli popty ar gyfer grwpiau bach
- Gofodau ymarferol arbenigol: ystafelloedd caeedig gyda chyfarpar arbenigol wedi'u gosod ynddynt ac sy'n cael eu rhannu gan nifer o ddosbarthiadau. Gallai fod yn ystafell benodol, yn ddelfrydol ar gyfer hyd at 15 o ddisgyblion neu hyd at 30 o ddisgyblion, ar gyfer gweithgareddau celf, dylunio a thechnoleg, neu wyddoniaeth
- Ystafell/lleoliad TGCh: os yw'n well gan yr ysgol ofod ar wahân lle mae'r dosbarth cyfan neu hanner dosbarth yn gallu defnyddio cyfrifiaduron
- Ystafell grŵp mawr: fel arfer ar gyfer hyd at 15 o ddisgyblion, os yw'n well gan yr ysgol ofod ar wahân, er mwyn galluogi, er enghraifft, i grŵp blwyddyn gael ei rannu'n fwy o grwpiau ar gyfer pwnc

Rhaid i'r arwynebedd addysgu sylfaenol roi cyfrif am bob math o weithgareddau a fydd yn digwydd yn yr ardal, ynghyd â'r dodrefn, gosodiadau a chyfarpar gofynnol. Mae'r tabl cyfagos yn y dangos gweithgareddau nodweddiadol, ynghyd â'r dodrefn, gosodiadau a chyfarpar gofynnol, y mae pob grŵp blwyddyn yn cymryd rhan ynddynt. Gellir ystyried cyfarpar ychwanegol os yw'n gysylltiedig â chyflwyno'r cwricwlwm.

| Gweithgaredd | Dodrefn, gosodiadau a chyfarpar |
|---|---|
| Trafodaethau grŵp, addysgu dosbarth cyfan | Bwrdd gwyn, sgrin ryngweithiol neu debyg |
| Gwaith dosbarth ar fyrddau | Digon o ofod ar gyfer byrddau, a drefnir mewn grwpiau yn gyffredinol |
| Gwaith unigol, grŵp neu ddosbarth cyfan yn seiliedig ar TGCh | Ardal barcio ar gyfer troli gliniaduron, pwyntiau data a di-wifr |
| Gwyddoniaeth a chelf sy'n defnyddio dŵr, paent a glud | Sinc, arwynebedd llawr golchadwy ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau ymarferol 'gwlyb' syml, gan ddefnyddio'r dodrefn sydd ar gael |
| Dylunio a Thechnoleg, lle gweithir gydag ystod o ddeunyddiau megis cerdyn neu bren, neu gitiau adeiladu | Byrddau eraill neu feinciau ochr sefydlog, ac adnoddau ar gyfer gwaith gwlyb a blêr; opsiwn o fyrddau 'gwaith trwm' ar gyfer gwaith ag offer llaw mewn gofod arbenigol |
| Pob un o'r gweithgareddau uchod | Bwrdd addasadwy a chyfarpar arbenigol ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, gyda gofod ar gyfer cynorthwyydd |

**Tabl 5**
Y gweithgareddau i'w lletya yn yr ardal addysgu sylfaenol ar gyfer pob grŵp blwyddyn

| Gweithgareddau a chyfleusterau | Meithrin, Derbyn | Blynyddoedd 1 a 2 | Blynyddoedd 3 a 4 | Blynyddoedd 5 a 6 |
|---|---|---|---|---|
| Gofod llawr rhydd, fel arfer ar ardal o garped, i gasglu'r dosbarth cyfan at ei gilydd i eistedd ar y llawr ar gyfer hyfforddiant dan arweiniad yr athro, trafodaeth grŵp, gwaith llythrennedd, gwaith rhifedd, i adrodd stori | Yn ofynnol fel arfer | Un ardal yn cael ei defnyddio ar gyfer y ddau | Un ardal yn cael ei defnyddio ar gyfer y ddau | Ddim yn ofynnol fel arfer |
| Citiau adeiladu graddfa fawr, peth gwaith TGCh sy'n defnyddio robotiaid neu debyg ac sy'n gofyn am lawer o ofod | Dewisol | | | Yn ofynnol fel arfer |
| Cornel lyfrau neu ardal dawel ac ynddi le i bori, a chlustogau (gyda'r opsiwn i orgyffwrdd â'r arwynebedd llawr rhydd os yw lleoliad y dosbarth bach ym mharth B) ar gyfer darllen/ymchwil unigol neu grŵp | Yn ofynnol fel arfer | Yn cael ei ffafrio | Dewisol | Nid yw hwn yn ofynnol |
| Adnoddau clyweledol cerddoriaeth neu iaith (potensial i rannu'r gofod â'r gornel lyfrau) | Yn cael ei ffafrio | Yn cael ei ffafrio | Dewisol | Nid yw hwn yn ofynnol |
| Gofod ar gyfer chwarae creadigol a chwarae rôl | Yn ofynnol fel arfer | Yn cael ei ffafrio | Nid yw hwn yn ofynnol | Nid yw hwn yn ofynnol |

**Tabl 6**
Gweithgareddau dewisol i'w lletya yn yr ardal addysgu sylfaenol

## Uwchradd

Bydd nifer y gofodau sydd wedi'u hamserlennu yn ardal addysgu sylfaenol ysgol uwchradd yn dibynnu ar y cwricwlwm a maint y grwpiau.

Mae bron hanner y pynciau a addysgir mewn ysgolion uwchradd yn rhai a elwir yn 'addysgu cyffredinol', ac maent fel arfer yn gofyn am ystafelloedd dosbarth safonol. Maent yn cynnwys y pynciau craidd: cymraeg, saesneg, mathemateg, ieithoedd tramor modern, hanes, daearyddiaeth, addysg grefyddol, astudiaethau cyffredinol ac astudiaethau personol, iechyd a gofal cymdeithasol.

## Gofodau addysgu cyffredinol:

Mewn ysgolion newydd dylai'r gofodau hyn fod yn ystafelloedd dosbarth cyffredinol neu, yn achos grwpiau chweched dosbarth llai, yn ystafelloedd seminar i sicrhau bod gan bob un ddigon o le ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn a chynorthwywyr. Gellir ystyried y gofodau hyn yn hyblyg i letya pynciau gwahanol a gweithgarwch allgyrsiol. Yn gyffredinol, bydd y rhain yn bwnc-benodol, er enghraifft ar gyfer mathemateg, saesneg, y dyniaethau neu ieithoedd tramor modern, ond gallant yn bennaf fod ar gyfer grŵp blwyddyn sy'n dysgu ystod o bynciau.

Gyda'r defnydd cynyddol o liniaduron a chyfrifiaduron llechen, mae'r angen am ystafelloedd TGCh heb eu hamserlennu fel adnodd y gellir ei archebu wedi lleihau.

Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yna angen o hyd am ychydig o ystafelloedd dosbarth sy'n gyfoethog mewn TGCh, lle bo yna gyfrifiaduron bwrdd gwaith sefydlog ar gyfer pob gweithfan, i addysgu Cyfrifiadureg fel pwnc ar wahân neu i letya labordy iaith. Gallai ystafelloedd dosbarth cyfoethog mewn TGCh, a chanddynt gyfrifiaduron bwrdd gwaith sefydlog ar gyfer hanner y gweithfannau, hefyd fod yn briodol ar gyfer Astudiaethau Busnes neu ddysgu galwedigaethol.

### Gofodau addysgu ymarferol ysgafn

Yn gyffredinol, bydd ganddynt ddŵr, system ddraenio ac weithiau wasanaethau nwy a gorffeniadau gwrth-gemegion, a byddant yn aml yn gyfoethog mewn TGCh. Dylai pob labordy, heblaw labordai gwyddoniaeth, a ddylai gael eu gwasanaethu o ystafell baratoi ganolog, feddu ar un, neu'n well fyth ddwy, storfa fewngamadwy hygyrch yr eir iddynt o'r ystafell ar gyfer adnoddau a gwaith ar y gweill. Maent yn cynnwys:

- Gwyddoniaeth: labordai gwyddoniaeth cyffredinol ac, yn enwedig lle mae yna leoedd ôl-16, labordai gwyddoniaeth arbenigol (ar gyfer arbrofion uwch). Mae'n bosibl paru'r rhain â stiwdios gwyddoniaeth y gellir eu defnyddio ar gyfer arbrofion ysgafn, ond byddent yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer gwaith dosbarth, trafodaethau ac arddangosiadau;
- Celf: ystafelloedd celf cyffredinol ac ystafelloedd celf 3D ar gyfer clai neu decstilau gwlyb, megis sgrin-brintio;
- Dylunio a Thechnoleg: mae gofodau ymarferol ysgafn yn debygol o gynnwys cynhyrchion graffeg a thecstilau adeiladu, a gallant, lle bo galw, gynnwys ystafell ar gyfer electroneg a systemau rheoli;
- Cyrsiau galwedigaethol ymarferol: gall gofodau ymarferol ysgafn gynnwys salon iechyd a harddwch, a all ymgorffori ardal 'derbynfa' y gall ymwelwyr fynd iddi.

### Gofodau addysgu ymarferol trwm

Bydd gan ofodau addysgu ymarferol trwm gyfarpar sefydlog (megis turniau neu boptai), gorffeniadau gwrthiannol iawn a llwythi trydanol trwm, a ddefnyddir yn aml ar gyfer gwaith echdynnu arbenigol. Mae cyfluniad y dodrefn, gosodiadau a chyfarpar fel arfer yn gofyn am ystafell ac iddi ddyfnder nad yw'n llai na 7.8m, ond dylid adolygu hyn ar sail y strategaeth awyru benodol.

Maent yn cynnwys:

- ystafelloedd bwyd ar gyfer gweithgareddau coginio ymarferol, lle bo yna bopty a sinc ar gyfer pob pâr o ddisgyblion. Gall ystafell fwyd gyfyngol ddarparu popty ar gyfer grwpiau o dri disgybl. Efallai y bydd gofod gyda dodrefn, gosodiadau a chyfarpar arbenigol yn ofynnol ar gyfer cyrsiau arlwyo galwedigaethol;
- gweithdai ar gyfer Dylunio a Thechnoleg a chyrsiau galwedigaethol, megis peirianneg neu adeiladu;
- stiwdio ffitrwydd/ymarfer corff ar gyfer addysg gorfforol.

**Argymhellion**

Cynyddu maint yr holl ystafelloedd dosbarth safonol i ddarparu hyblygrwydd i gyflwyno'r cwricwlwm ac i'w paratoi ar gyfer eu haddasu yn y dyfodol.

## Gofodau Addysgu Perfformio

Bydd cerddoriaeth, drama ac astudiaethau'r cyfryngau yn gofyn am ofodau a chanddynt briodweddau acwstig priodol, a chyfleusterau blacowt lle bo angen, ynghyd â mynediad i neuadd ar gyfer perfformiadau i gynulleidfaoedd mwy na'r grŵp dosbarth. Byddai dawns yn cael ei addysgu mewn gofodau yn y categori neuaddau.

Mae'r gofodau addysgu sylfaenol ar gyfer y pynciau hyn yn cynnwys:

- ystafelloedd dosbarth cerddoriaeth a/neu ystafell ddosbarth gerddoriaeth helaeth, os ffefrir bod pob disgybl yn cael bysellfwrdd;
- stiwdio ddrama a/neu ofod datganiadau cerddoriaeth, neu ofod a rennir ar gyfer y ddau;
- stiwdio glyweledol ar gyfer astudiaethau'r cyfryngau.

Gallai'r gofodau hyn hefyd fod yn addas a phoblogaidd ar gyfer defnydd cymunedol, a dylid ystyried hyn wrth nodi eu lleoliad a gofynion eraill.


### Neuaddau a mannau bwyta

Mae neuaddau'n ofodau mawr ac iddynt feini prawf penodol o ran eu huchder, eu gorffeniad a'u hacwsteg, yn dibynnu ar y defnydd a wneir ohonynt.


Dylai fod gan bob ysgol uwchradd brif neuadd, yn bennaf i gefnogi'r cwricwlwm, ond gellir ei defnyddio hefyd ar gyfer gwasanaethau (yn rhai i'r ysgol gyfan mewn ysgolion cynradd bach ond ar gyfer un neu ddau grŵp blwyddyn mewn ysgolion uwchradd mwy), arholiadau, perfformiadau cyhoeddus, nosweithiau rhieni a digwyddiadau cymunedol.



**Ffigur 11:** Neuaddau Uwchradd a Gwasanaethau



**Ffigur 12:** Neuaddau Cynradd a Gwasanaethau



**Argymhellion**

Size halls in line with the guidance but design Mesurwch hyd a lled neuaddau yn unol â'r canllawiau, ond dylai'r dyluniad leoli mwy nag un neuadd gyda'i gilydd i gefnogi'r cyfluniadau arlwyo a bwyta a ffefrir. Darparwch storfeydd priodol yn ymyl y neuaddau ar gyfer y cyfarpar bwyta.

### Polisi Bwyta a Rheoli Amser

Bydd goblygiadau amserlennu a defnyddiau amgen yn effeithio ar ddyluniad a lleoliad yr ardal fwyta.

Gall y modd y caiff y diwrnod ysgol ei amserlennu effeithio'n sylweddol ar ddyluniad a maint y neuadd(au). Gall amserlenni am yn ail leihau'r galw am ardal – er enghraifft gall hanner yr ysgol ddefnyddio'r cyfleusterau bwyta tra bo'r hanner arall mewn gwersi, a gall grwpiau blwyddyn gyfan, megis y chweched dosbarth, gael eu haddysgu ar adegau gwahanol o'r dydd, gan leihau'r galw am ofodau addysgu wedi'u hamserlennu.

- Os yw'r opsiwn hwn i fod ar gael, dylid gosod y cyfleusterau bwyta a chymdeithasol fel na all y defnydd ohonynt darfu ar ddisgyblion sy'n astudio neu sydd mewn gwersi tawel.
- Os defnyddir system o rannu amser cinio, gallai fod yn haws cael lleiafrif o ddisgyblion yn bwyta cinio ar adeg benodol: gall hyn wneud y gweithgarwch pennaf yn yr ysgol yn waith tawel bob amser, yn hytrach na gweithgareddau cymdeithasol swnllyd, yn ogystal â lleihau ciwiau.

Dylid darparu storfeydd ac adnoddau priodol ar gyfer clirio a storio cadeiriau a byrddau. Yn ogystal â neuadd fwyta draddodiadol, mae yna gyfleoedd i greu ystod llawer ehangach o ofodau bwyta, caffis, ardaloedd bwffe neu 'seibr-gaffis' sy'n cynnig bwyd maethlon. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio'r cyfleuster hwn i ddarparu brecwast a phrydau eraill i ddisgyblion a staff, a gall ddatblygu i fod yn galon fywiog i gymuned yr ysgol.



**Argymhellion**

Dylid cynnal trafodaeth neu ymgynghoriad cynnar â thîm/darparwr arlwyo yr ysgol i ddeall nifer yr eisteddiadau ar gyfer ysgolion uwchradd. Er y bydd maint y neuaddau'n cefnogi'r gwaith o ddosbarthu'r bwyd amser cinio, caiff hyn ei ystyried yn eitem reoli, a gellir ei hatgyfnerthu ymhellach trwy ddeall y dulliau o ddarparu'r anghenion arlwyo angenrheidiol ar gyfer yr ysgol(ion) penodol.

### Stiwdios a neuaddau ysgolion cynradd

Bydd angen neuadd fach ychwanegol a/neu stiwdios (un ar gyfer bron pob dosbarth mynediad ychwanegol) ar ysgolion cynradd a chanddynt fwy nag un dosbarth mynediad. Mewn ysgol gynradd, dylai cyfanswm arwynebedd y categori hwn o ofod gynnwys:

- prif neuadd nad yw'n llai na 140m$^2$ ar gyfer plant iau, ac sy'n ddigonol ar gyfer addysg gorfforol a dawns, gwasanaethau, perfformiadau, nosweithiau rhieni, ac arlwyo cinio;
- stiwdio nad yw'n llai na 45m$^2$ mewn ysgolion a chanddynt fwy na 300 o leoedd disgyblion, a hynny i ddarparu rhagor o ofod ar gyfer cerddoriaeth, drama ac 'amser cylch', os oes gofyn;
- neuadd fechan ychwanegol nad yw'n llai nag 80m$^2$ mewn ysgolion a chanddynt fwy na 600 o leoedd disgyblion, a hynny ar gyfer addysg gorfforol heb gyfarpar.

Fel arfer, defnyddir y brif neuadd i fwyta cinio, a hynny mewn dau neu dri eisteddiad (neu drefniant cyfatebol os oes yna lif parhaus) dros amser cinio. Bydd i'r neuadd gownter arlwyo cyfagos, sydd fel arfer o fewn gofod a all hefyd gynnwys storfa cadeiriau ar gyfer dodrefn bwyta.

Mewn ysgolion cynradd mawr, lle mae tri neu ragor o ofodau yn y categori hwn, gellir gosod un gofod yn barhaol fel gofod bwyta, yn dibynnu ar y dull o reoli'r arlwyo, a nodir uchod.

### Neuaddau a stiwdios ysgolion uwchradd

Bydd gan bob ysgol uwchradd brif neuadd. Mewn ysgolion uwchradd newydd dylai'r ardal ar gyfer y categori hwn o ofod gynnwys:

- neuadd chwaraeon yr ysgol, y dylid ei dylunio i'r dimensiynau lleiaf hanfodol ac ar gyfer tri neu bedwar cwrt badminton mewn ysgolion a chanddynt fwy na 600 o leoedd (gweler isod). Yn nodweddiadol, bydd y neuadd hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer arholiadau;
- un, neu mewn ysgolion a chanddynt dros 1500 o leoedd, ddwy stiwdio gweithgarwch neu ddawns nad ydynt yn llai na 120m$^2$, ac iddynt led mewnol sydd o leiaf yn 10m ac uchder nad yw'n llai na 3.5m, ynghyd â llawr sbring ar gyfer gweithgareddau gymnasteg, dawns, ac arholiadau (os yw'n ofynnol neu os nodir hynny yn y briff);
- ardaloedd bwyta sy'n ddigonol ac yn briodol ar gyfer y disgyblion hynny sy'n dymuno bwyta prydau, ac sy'n seiliedig ar nifer yr 'eisteddiadau', fel y trafodir isod;
- gofodau cymdeithasol y chweched dosbarth, lle bo hynny'n berthnasol, a ddylai fod yn gyfanswm nad yw'n llai na 40m$^2$ plws 0.3m$^2$ ar gyfer pob lle disgybl chweched dosbarth.

Gall neuadd chwaraeon mewn ysgol uwchradd fod yn:

- neuadd chwaraeon yr ysgol, sy'n darparu gofod amlbwrpas ar gyfer addysg gorfforol a hefyd arholiadau, ynghyd â defnydd hamdden cymunedol anffurfiol y tu allan i oriau ysgol; mae fel arfer yn 18m x 28m neu 33m (ar gyfer tri neu bedwar cwrt, yn y drefn honno) x 7.5m o uchder os yw'n newydd; neu
- neuadd chwaraeon gymunedol, os bydd cyllid yn caniatáu, at ddefnydd yr ysgol a defnydd ffurfiol clybiau y tu allan i oriau ysgol, ac wedi'i dylunio'n unol ag arfer da o ran dimensiynau mwy, sef 20m x 34.5m (gyda phedwar cwrt) x 7.5m o uchder fel arfer os yw'n newydd.

Lle bo cyfleusterau presennol i gael eu defnyddio, yna gellir hepgor y dimensiynau uchod.

Fel arfer, cynhelir arholiadau yn y neuadd chwaraeon, felly dylai'r fanyleb ddarparu amgylchedd addas ar gyfer hyn.

### Ardal fwyta

Dylai cyfanswm arwynebedd y gofodau a ddefnyddir ar gyfer cinio ddarparu 0.9m$^2$ fesul lle bwyta. Dylai nifer y lleoedd fod yn seiliedig ar y nifer rhagfynegol o ddisgyblion a fydd yn bwyta cinio ar y safle (gan gynnwys pecynnau bwyd), wedi'i rannu â nifer yr 'eisteddiadau' neu elfen gyfatebol (os oes yna lif parhaus) yn ystod yr egwyl ginio. Yn hollbwysig, bydd nifer yr eisteddiadau yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael ar gyfer cinio. Dylai cyfanswm arwynebedd y gofodau a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer bwyta a chymdeithasu gynnwys ardaloedd digonol a phriodol ar gyfer y disgyblion hynny sy'n dymuno bwyta prydau, a hynny'n seiliedig ar nifer yr eisteddiadau.

Gallai hefyd gynnwys:

- rhagor o ddarpariaeth ar gyfer prydau oer neu fyrbrydau, er enghraifft o beiriannau gwerthu;
- ardaloedd cymdeithasol ar gyfer grwpiau blwyddyn neu grwpiau 'tŷ' eraill.


Mae'r prif gownter arlwyo yn rhan o'r dyraniad ar gyfer ardal y gegin, a dylai fod gerllaw'r ardal fwyta a ddefnyddir ar gyfer cinio poeth. Mewn ysgol uwchradd, bydd yr ardal fwyta'n cynnwys:

- byrddau a chadeiriau ar gyfer lleoedd bwyta a gofod i fynd atynt;
- lle rhesymol i ddisgyblion giwio hyd at ac o flaen y prif gownter arlwyo a heibio'r cyfleusterau talu;
- ardaloedd clirio a gwaredu gwastraff;
- lle bo gofyn, ardaloedd gweini ategol neu dros dro.


## Ardaloedd Adnoddau Dysgu cynradd ac uwchradd

Mae'r graffiau isod yn dangos yr Ardaloedd Adnoddau Dysgu argymelledig ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r arwynebedd lleiaf argymelledig ar gyfer ardal adnoddau llyfrgell hefyd wedi'i gynnwys.

**Ffigur 13:** Ardaloedd Adnoddau Dysgu cynradd




**Ffigur 14:** Ardaloedd Adnoddau Dysgu uwchradd



## Ardaloedd Adnoddau Dysgu

Mae Ardaloedd Adnoddau Dysgu yn ofodau a ddefnyddir ar gyfer dysgu ond nad ydynt wedi'u hamserlennu ar gyfer gwersi. Dylai cyfanswm arwynebedd y categori hwn o ofod gynnwys:

- canolfan adnoddau'r llyfrgell sy'n rhoi cyfanswm nad yw'n llai na 15m$^2$ plws 0.08m$^2$ ar gyfer pob lle disgybl cynradd a 40m$^2$ plws 0.08m$^2$ ar gyfer pob lle disgybl uwchradd;
- ystafelloedd grŵp bach ar draws yr ysgol: o leiaf un ar gyfer pob 150 o leoedd disgyblion, yn ddelfrydol wedi'u gwasgaru o amgylch yr ysgol, gyda rhai'n uniongyrchol hygyrch o ofodau addysgu cyfagos, i ddarparu gofodau tawel ar wahân ar gyfer cymorth dysgu, er enghraifft rheoli ymddygiad neu gwnsela preifat;
- Lleoliad adnoddau ADY ar gyfer dysgu, ymddygiad, cymorth therapi a chynadleddau achos.

### Ysgolion cynradd

Mewn ysgolion cynradd neu bob oed, gallai cyfanswm arwynebedd y categori hwn o ofod hefyd gynnwys:

- ystafell grŵp bach arall ar gyfer y feithrinfa, os yw'n berthnasol, ar gyfer gweithgareddau tawel megis adrodd stori;
- ystafell(oedd) newid heb gawodydd ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2, er bod hyn yn anarferol ac y gallai gofodau eraill ddyblu ar gyfer y swyddogaeth hon os oes gofyn.

Mewn ysgolion uwchradd, dylai cyfanswm arwynebedd y categori hwn o ofod hefyd gynnwys:

- ystafelloedd grwpiau cerdd/ymarfer: hyd at bedair ar gyfer pob ystafell gerdd ar yr amserlen, gan gynnwys un ystafell grŵp/ ymarfer helaeth ar gyfer drymiau a grwpiau hyd at saith;
- ardal(oedd) penodol ar gyfer astudiaethau chweched dosbarth lle bo hynny'n berthnasol, gyda'r cyfanswm yn ddim llai nag 20m$^2$ plws 0.2m$^2$ am bob lle disgybl chweched dosbarth.

A gallai hefyd gynnwys, yn amodol ar angen:

- ystafell rheoli goleuo a sain yng nghefn y brif neuadd;
- ardaloedd adnoddau wrth law mewn adrannau megis dylunio a thechnoleg;
- stiwdio recordio neu reoli fach;
- ystafell odyn os oes yna ystafell gelf 3D hefyd;
- ystafell dywyll neu ardaloedd atodol eraill.

## Staff a Gweinyddu

Ac eithrio storfeydd, mae cyfanswm yr arwynebedd ar gyfer staff a gweinyddu yn cynnwys mwyafswm yr ardaloedd yn yr arwynebedd net nad ydynt yn rhai addysgu. Dylai cyfanswm yr arwynebedd gynnwys yr ystod ganlynol o ofodau ar gyfer pob ysgol:

- swyddfa gyffredinol ar gyfer staff gweinyddol, gyda storfa ar gyfer cofnodion cyfrinachol mewn dodrefn, gosodiadau a chyfarpar;
- desg yn y dderbynfa, a'r opsiwn o ail ddesg derbynfa mewn rhan o'r ysgol sy'n agored i ddisgyblion;
- derbynfa ddiogel i ymwelwyr, gyda mynediad i weddill yr ysgol yn cael ei reoli gan staff y swyddfa (mae'r arwynebedd net hwn ar gyfer seddi ac arddangosfeydd, ac yn ychwanegol at y gofod cylchredeg trwy'r fynedfa/dderbynfa);

- ystafell cyf-weld, y gellir ei chyrraedd yn ddelfrydol o'r cyntedd neu'r dderbynfa, ynghyd â thoiled hygyrch i ymwelwyr fel y gallant ei ddefnyddio heb fynd i mewn i'r brif ysgol;
- swyddfa pennaeth (ystafell gyfarfod) sydd tua 12m$^2$ i15m$^2$;
- clafdy neu ystafell y claf, sy'n ofynnol gan Reoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol): i ofalu am ddisgyblion sâl ac anafedig yn y byrdymor. Dylid ystyried yr ystafell hon yn un wahanol i'r ystafell cyf-weld ysgogiadol (MI)/therapi a ddisgrifir dan Ardaloedd Adnoddau Dysgu, a dylai fod yn agos at y brif swyddfa a thoiled, a chynnwys cyfleuster golchi;

### Ysgolion cynradd

Mewn ysgolion cynradd, dylai cyfanswm yr arwynebedd ar gyfer staff a gweinyddu hefyd gynnwys:

- gofod paratoi a chymdeithasol ar gyfer staff addysgu, fel arfer ar ffurf ystafell staff ganolog at ddefnydd gwaith a chymdeithasol sy'n cynnwys cegin fach.

A gallai hefyd gynnwys:

- ystafell waith ar wahân i staff;
- swyddfeydd ar gyfer uwch-staff addysgu eraill, megis y dirprwy benaethiaid neu'r penaethiaid cynorthwyol, y gallai fod yn ofynnol iddynt gael preifatrwydd ar gyfer cyfweliadau a chymorth bugeiliol;
- cyfleusterau reprograffeg ar wahân, os nad ydynt yn y swyddfa gyffredinol;
- swyddfa ar gyfer rheolwr cyfleusterau neu ofalwr mewn ysgolion â thros 400 o leoedd disgyblion.

Mewn ysgolion uwchradd a phob oed, dylai cyfanswm yr arwynebedd ar gyfer staff a gweinyddu gynnwys:

- cyfleusterau reprograffeg, y gallai ysgolion ddewis eu darparu ar ffurf cyfres o faeau neu ystafell arbenigol ar wahân ac ynddi system awyru briodol;
- ardal gymdeithasol i staff neu ystafell staff ac ynddi gegin fach, sydd fel arfer wedi'i lleoli'n ganolog;
- ardal waith i staff, naill ai wedi'i lleoli'n ganolog (wedi'i chyfuno â'r ardal gymdeithasol i staff neu'n ei hymyl) i annog rhyngweithio, neu mewn ystafelloedd gwaith llai gerllaw i staff, sydd fel arfer wedi'u lleoli mewn adrannau – byddai darparu'r ddau opsiwn yn arwain at ddiffyg defnydd digonol o ofod;
- swyddfeydd ar gyfer uwch-staff addysgu eraill, yn enwedig penaethiaid blwyddyn, y bydd arnynt angen preifatrwydd ar gyfer cyfweliadau a chymorth bugeiliol;
- ystafell gyfarfod neu ystafell gynadledda, sydd fel arfer yn agos at swyddfa'r pennaeth;
- swyddfa/ystafell gyfarfod ar gyfer y tîm ADY.

A gallai hefyd gynnwys:

- ystafell ychwanegol ar gyfer y bwrsar a staff gweinyddol eraill;
- swyddfa/gweithdy ar gyfer y rheolwr cyfleusterau neu'r gofalwr;
- swyddfa/gweithdy ar gyfer y technegydd TGCh.

## Storfeydd

Mae cyfanswm yr arwynebedd storio ar gyfer pob ysgol yn cynnwys storfa addysgu ar gyfer adnoddau addysgu, megis deunyddiau a chyfarpar, a gwaith disgyblion. Mae hefyd yn cynnwys storfa nad yw'n un addysgu ar gyfer eiddo disgyblion, adnoddau gweinyddol, a chyfarpar glanhau a chynnal a chadw.

### Storfeydd addysgu ysgolion cynradd

Lle bo yna leoedd cynradd, dylai cyfanswm yr arwynebedd storio gynnwys y storfeydd addysgu a ganlyn:

- storfa uchder llawn, gloadwy ar gyfer adnoddau megis eitemau gwerthfawr neu beryglus, a hynny i bob ystafell ddosbarth; rhaid i'r storfa fod yn ddim llai nag 1m$^2$ ac yn gwbl hygyrch i staff (ond nid y disgyblion);
- storfeydd mewngamadwy arbenigol ar gyfer adnoddau addysgu: o leiaf un storfa hygyrch 5m$^2$ yn cael ei chyrraedd yn ddelfrydol o goridor neu ardal addysgu a rennir, ac yn cynnwys adnoddau a rennir ar gyfer pynciau ymarferol megis gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg a chelf;
- storfeydd cyfarpar addysg gorfforol dan do, sy'n agor ar un ochr i'r brif neuadd ac yn rhoi cyfanswm nad yw'n llai na 10% o arwynebedd y neuadd. Mae'n bwysig darparu storfeydd addysgu diffiniedig er mwyn osgoi cyfaddawdu o ran yr ardal y gellir ei defnyddio a hyblygrwydd y gofodau addysgu.

Lle ceir y lleoedd uwchradd canlynol, dylai cyfanswm yr arwynebedd storio gynnwys:

- storfeydd addysgu cyffredinol/TGCh: o leiaf un sy'n 5m$^2$ ar gyfer pob adran addysgu gyffredinol i gadw llyfrau a deunyddiau ar gyfer pynciau addysgu cyffredinol: i'w chyrchu'n ddelfrydol o ardal gylchredol neu efallai ystafell waith y staff a rennir;
- storfeydd/gofod paratoi gwyddoniaeth: ystafell baratoi ganolog ar gyfer labordai gwyddoniaeth sy'n rhoi cyfanswm o 0.35m$^2$ i 0.5m$^2$ ar gyfer pob gweithle mewn labordai gwyddoniaeth, yn dibynnu ar yr ystod oedran a'r lle storio sydd ar gael yn y labordai, gan gynnwys cwpwrdd ar gyfer deunyddiau ymbelydrol: nododd canllawiau blaenorol fod un gofod yn cael ei ddarparu ar gyfer yr holl ofodau gwyddoniaeth ond nad yw ystafell baratoi ganolog sengl bob amser yn ymarferol ac y gellid darparu gofod ar gyfer ystafelloedd dosbarth neu labordai cyfagos; mae'n bosibl y byddai angen i hyn fod yn fwy, er enghraifft os cyflwynir gwyddoniaeth ar ddau lawr;
- storfa cemegion: storfa ar wahân ar gyfer cemegion oddi ar yr ystafell baratoi, neu'n ei hymyl;
- storfeydd ymarferol: storfeydd mewngamadwy penodol ar gyfer deunyddiau, cyfarpar a gwaith disgyblion ar y gweill mewn pynciau ymarferol: dau 5m$^2$ ar gyfer pob ystafell gelf ac o leiaf un o 5m$^2$ ar gyfer pob ystafell addysgu ymarferol ysgafn arall, ac eithrio gofodau gwyddoniaeth;
- storfeydd/gofod paratoi dylunio a thechnoleg: ystafell ar gyfer gweithdai deunyddiau gwrthiannol nad yw'n llai na 30m$^2$, ac y mae iddi siâp addas ar gyfer peiriannau (megis llif gron) yn ddiogel yn y canol a'r storfa o amgylch yr ymyl;

- storfa fwyd/ystafell baratoi: ystafell baratoi/storio neu storfeydd llai ar gyfer ystafelloedd bwyd ac iddynt gyfanswm arwynebedd o ddim llai na 10m$^2$;
- storfa cerddoriaeth: o leiaf un storfa offerynnau cerdd a rennir ac iddi arwynebedd nad yw'n llai na 5m$^2$;
- storfa ddrama: lle bo hynny'n berthnasol, storfa ar gyfer gwisgoedd a phropiau oddi ar un stiwdio ddrama, ac nad yw'n llai na 10m$^2$;
- storfa cyfarpar addysg gorfforol dan do nad yw'n llai na 10% o faint y gofod addysgu, ac sy'n agor ar ochr y neuadd chwaraeon a'r stiwdio gweithgareddau;
- storfa addysg gorfforol yn yr awyr agored, y ceir mynediad iddi o'r tu allan, ac sydd, yn ddelfrydol, yn agos at y cyfleusterau addysg gorfforol awyr agored.

### Storfeydd nad ydynt yn rhai addysgu

Dylai storfeydd nad ydynt yn rhai addysgu gynnwys:

- ar gyfer disgyblion cynradd: storfa cotiau a bagiau ar gyfer eiddo personol, sy'n cyfateb i ddim llai na 3m$^2$ fesul dosbarth (yr arwynebedd net heb gynnwys y cylchrediad heibio i'r cotiau), wedi'i lleoli mewn ystafelloedd cotiau ar wahân, ar goridorau neu'n uniongyrchol oddi ar yr ystafelloedd dosbarth, yn dibynnu ar y llwybrau a ddefnyddir i gael mynediad i ystafelloedd dosbarth o'r maes chwarae. Mae rhai modelau newydd o ysgolion yn darparu ystafelloedd dosbarth mwy sy'n cynnwys storfa gotiau;
- ar gyfer disgyblion uwchradd: mae cypyrddau clo oddi ar y gofod cylchredol a'r ardal o'u blaenau i agor drysau, sy'n rhan o ardal y cypyrddau clo (ac yn nodweddiadol yn 0.75m o ddyfnder), yn gallu gwella lled y coridorau pan nad yw'r cypyrddau clo mewn defnydd;
- storfeydd diogel ar gyfer eitemau gwerthfawr megis cofnodion ysgol a phersonol, archifau neu bapurau arholiad, wedi'u lleoli i weddu i ofynion y bwrdd arholi perthnasol;
- baeau storio addas o amgylch yr ysgol ar gyfer cyfarpar symudedd;
- storfa ganolog i swmpstorio eitemau megis pennau ysgrifennu neu bapur;
- storfa ar gyfer cyfarpar cynnal a chadw a chyfarpar glanhawyr a gofalwyr;
- storfa ddodrefn ar gyfer seddi, cadeiriau, byrddau, dodrefn arholiad a llwyfannau, ac ar gyfer dodrefn bwyta pan ddefnyddir y neuadd ar gyfer bwyta. Gellir lleoli hon yn union gerllaw'r prif gownter arlwyo yn y gegin fel y gall hefyd ychwanegu at yr ardal giwio o flaen y cownter arlwyo pan fydd y dodrefn mewn defnydd.

## Arwynebedd Adeiladau Nad yw'n Net

Mae'r arwynebedd nad yw'n net yn cynnwys arwynebeddau amrywiol nad ydynt wedi'u cynnwys yn arwynebedd net yr ysgol. Mae'n cynnwys y pum categori o ofod a restrir isod, ynghyd â'r arwynebeddau nad ydynt yn net sy'n cefnogi

unrhyw arwynebeddau net atodol sy'n bodoli ar gyfer swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â'r ysgol neu sy'n swyddogaethau cymorth (gweler Adran 6: Manylion yr Ysgol).

- Toiledau a gofal personol;
- Cyfleusterau cegin;
- Cylchrediad (25% i 30% o'r arwynebedd net);
- Gwasanaethau adeiladau, megis ffynhonnell wresogi carbon isel (2% i 4% o'r arwynebedd net);
- Arwynebedd y waliau mewnol (3% i 6% o'r arwynebedd net).

Bydd y ddau gategori cyntaf o ofod yn dibynnu ar nifer y disgyblion, defnydd cymunedol ac, ar gyfer ceginau, y math o drefniadau arlwyo yn yr ysgol. Yn gyffredinol, bydd y tri chategori olaf mewn cyfrannedd union â'r arwynebedd net, felly mae'n bwysig cynnwys unrhyw arwynebedd net atodol yng nghyfanswm yr arwynebedd net cyn cyfrifo'r gofyniad ar gyfer yr arwynebeddau hyn.

### Toiledau a Gofal Personol

Dylai'r dyluniad gyd-fynd â Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) hwyrach o ran darparu toiledau, y math o doiledau a'u lleoliadau.

Polisi lleoli toiledau: gall maint, lleoliad a dyluniad toiledau gael effaith ar y potensial ar gyfer bwlio, goruchwylio a chynhwysiant: gall hyn amrywio o un neu ddau 'floc' toiledau canolog i gyfleusterau llai ym mhob adran, efallai gyda chiwbiclau cwbl hygyrch ym mhob toiled.

Rhaid i gyfanswm arwynebedd y cyfleusterau toiled a gofal personol gynnwys:

- toiledau i ddisgyblion: o leiaf un ar gyfer pob 20 disgybl, ond rhaid cael un ar gyfer pob deg disgybl cyfwerth ag amser llawn rhwng dwy a phedair oed, sy'n cynnwys lleoedd derbyn a meithrin;
- toiledau ar wahân i staff: o leiaf un toiled gyda basn golchi dwylo, yn ogystal ag un ar gyfer pob 25 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn (heb gynnwys staff arlwyo, gyda'r ffigur wedi'i dalgrynnu;
- toiledau hygyrch i ddisgyblion, staff neu ymwelwyr anabl (a all hefyd gyfrif tuag at nifer y toiledau staff uchod);
- mewn ysgolion a chanddynt ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 a blynyddoedd uwch, ystafelloedd newid gyda chawodydd, a hynny'n agos at y ddarpariaeth chwaraeon dan do ac yn yr awyr agored.

A dylai'r cyfleusterau hefyd gynnwys:

- cyfleusterau newid i staff, a all hefyd gynnig cyfleusterau newid hygyrch;
- ystafell hylendid arbenigol a chanddi declyn codi sefydlog neu symudol a gofod i gynorthwywyr newid disgybl.

    Mewn ysgol gynradd, dylai'r cyfleusterau hyn gynnwys gwely newid a thoiled hygyrch, oni bai ei fod wedi'i gynnwys mewn toiled hygyrch cyfagos ($9m^2$).
    Mewn ysgol uwchradd, dylai hyn gynnwys cawod hygyrch, toiled golchi a throli newid ($12m^2$).

Gallai rhai o'r gofodau a restrir uchod gael eu dylunio i ddarparu cyfleusterau priodol ar gyfer:

- defnydd cymunedol oedolion, fel arfer y tu allan i'r diwrnod ysgol;
- gofynion crefyddol, gan gynnwys cyfeiriadedd a golchiadau.

Dylai lleoliad a chynllun toiledau ac ystafelloedd newid gydbwyso'r galw am breifatrwydd a goruchwyliaeth ddigonol, fel ei gilydd.

Fel arfer mewn ysgolion uwchradd, mae'n ddigonol darparu cyfleusterau newid ar gyfer hanner grŵp blwyddyn, gyda chyfleusterau cyfartal ac ar wahân i fechgyn a merched mewn ysgolion cydaddysgol. Yn gyffredinol, dylai cawodydd fod ar ffurf ciwbiclau ar wahân, gyda thua un ar gyfer pob saith disgybl sy'n newid. Dylid darparu o leiaf un ardal newid hygyrch (gyda ffitiad ar gyfer nwyddau mislif, basn ymolchi a chawod), er y gallai staff ei ddefnyddio hefyd.



## Cyfleusterau Cegin

Yn aml, mae ardal y gegin yn hanner arwynebedd y cyfleusterau bwyta yn fras, yn dibynnu ar y math o arlwyo. Rhaid iddi gynnwys:

- cyfleusterau ar gyfer paratoi bwyd a diod, a golchi llestri wedyn, lle bo angen.
- storfeydd bwyd;
- cyfleusterau ar gyfer staff arlwyo, gan gynnwys ardaloedd newid, toiledau a gweithfan ar gyfer gweinyddu;
- prif gownter arlwyo sy'n gweini bwyd poeth ac eitemau eraill.

Bydd maint yr ardal baratoi graidd yn dibynnu ar y cyfarpar gofynnol, elfen a fydd yn ei thro yn dibynnu ar y math o system baratoi sydd i'w defnyddio, system sy'n amrywio o'r traddodiadol, i goginio-oeri, i 'fwyd cyflym' wedi'i baratoi ymlaen llaw.

Bydd yr arwynebedd lleiaf argymelledig yn addas ar gyfer cegin coginio-oeri, neu gegin debyg, tra bo'r maint gofynnol ar gyfer cegin gwasanaeth llawn yn $30m^2 + 0.08m^2$ ar gyfer pob disgybl sy'n bwyta ar y safle.

Dylai fod yna fynediad hawdd ar gyfer nwyddau a safle diogel ar gyfer biniau.

## Cylchrediad

Dylai'r cylchrediad fod yn ddim llai na 22.5% o gyfanswm arwynebedd net ysgolion cynradd (neu'n 20% mewn ysgolion unllawr) ac yn 25% o gyfanswm yr arwynebedd net mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r arwynebedd atodol. O fewn yr ardal hon:

- dylid cael mynediad i bob ystafell o lwybr cylchredol, ac eithrio i storfeydd y ceir mynediad uniongyrchol iddynt o ofodau dysgu;
- dylai coridorau sy'n arwain at fwy nag un neu ddwy ystafell addysgu fod â lled clir nad yw'n llai nag 1.8m o wal i wal (2.55m o wal i wal lle bo yna gypyrddau clo);
- dylai coridorau byrrach sy'n arwain at un neu ddau ofod bach fod â lled clir nad yw'n llai nag 1.2m;
- lle mae yna lwybr mynediad trwy ofod, megis ystafell fwyta neu lyfrgell, i ystafell arall, dylid diystyru 'llain' gylchredol nad yw'n llai nag 1.2m o led o'r arwynebedd net defnyddiadwy.


## Gwasanaethau adeiladau

Dylai'r ddarpariaeth gyd-fynd â'r gofynion i ddarparu carbon sero net wrth weithredu, a dylai'r tîm dylunio ystyried manteision darpariaeth gwasanaethau adeiladau ganolog yn erbyn un ddatganoledig.


Bydd angen arwynebedd sy'n cyfateb i ddim llai na 2-4% o gyfanswm yr arwynebedd net i letya gwasanaethau adeiladau, ystafelloedd cyfarpar ac unrhyw ystafell(oedd) gweinyddion. Dylid darparu gofod allanol ar gyfer pympiau gwres o'r aer (ASHP).

Yn gyffredinol, bydd angen rhagor o arwynebedd os bydd yn ofynnol cynnwys offer awyru, simneiau neu danciau chwistrellu yn arwynebedd gros yr adeilad.

**Ffigur 15:** Yr ardal fwyta a'r gegin gynradd




**Ffigur 16:** Ardaloedd bwyta a chymdeithasol uwchradd



## Waliau Mewnol

Bydd arwynebedd y waliau mewnol yn gorchuddio arwynebedd sy'n cyfateb i ddim llai na 4% o'r arwynebedd net, a hyd at 6% os yw'r waliau'n fwy trwchus oherwydd ffurfiau cyfredol neu wahanol ar adeiladu. Dylid rhoi ystyriaeth i ofynion acwstig, yn arbennig os byddir yn darparu gofodau ADY neu ofodau eraill, e.e. cymunedol.

## Arwynebeddau Atodol

Defnyddir arwynebeddau atodol ar gyfer swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â'r ysgol neu swyddogaethau cymorth na ddarperir fel arfer mewn ysgolion prif ffrwd sy'n darparu ar gyfer plant 3 i 18 oed. Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth ag adnoddau arbennig ar gyfer angen arbennig penodol, megis uned ddynodedig, ond nid cyfleusterau nodweddiadol ar gyfer disgyblion ag ADY.

Dylai'r tîm briffio asesu a yw unrhyw arwynebedd net atodol yn ofynnol yn y prosiect. Mae'n bwysig nodi bod ffrwd ariannu ychwanegol, bwrpasol yn ofynnol ar gyfer unrhyw arwynebedd atodol, gan gynnwys yr arwynebedd nad yw'n net cysylltiedig, oni bai fod yr arwynebedd hwnnw eisoes yn bodoli mewn ystafell briodol.

Ceir tri math o arwynebedd nad yw'n ymwneud â'r ysgol ac arwynebedd cymorth sy'n dod o fewn y categori arwynebedd atodol a restrir ar dudalen 49 ac sy'n cyfateb i'r rhai yn y dull asesu capasiti net.

| Categori | Mathau o gyfleusterau |
|---|---|
| Blynyddoedd cynnar a gofal plant | • Crèche<br>• Darpariaeth feithrin ar gyfer plant 0 i 3 oed<br>• Darpariaeth gofal plant y tu allan i oriau ysgol |
| Dysgu oedolion a sgiliau | • Cyfleusterau dysgu oedolion a sgiliau nad ydynt ar gael i'r ysgol yn ystod y diwrnod ysgol<br>• Canolfannau ar gyfer Gwasanaethau ALl, megis hyfforddiant staff |
| Cyfleusterau ag adnoddau ychwanegol | • Cyfleusterau ychwanegol ar gyfer disgyblion ag ADY neu anableddau, megis darpariaeth ag adnoddau arbennig neu uned ddynodedig<br>• Cyfleusterau nad ydynt yn ymwneud â'r ysgol, a ariennir o ffynonellau eraill ac nad ydynt ar gael i'r ysgol yn ystod y diwrnod ysgol arferol, megis cyfleusterau llyfrgell gymunedol neu ganolfannau ieuenctid<br>• Ystafell ar gyfer gwasanaethau cymorth dynodedig yr ALl, gan gynnwys staff peripatetig a staff cymorth |
| Ystafelloedd rhieni/ cymunedol a chapeli | • Ystafell rhieni neu gymunedol nad yw ar gael i'r ysgol<br>• Capel neu addoldy tebyg nad yw ar gael i'r ysgol ac eithrio i'r diben hwnnw |


**Tabl 7**
Ardaloedd Atodol

Cyfleusterau ag adnoddau ychwanegol yw'r rhai lle bo'r costau perthynol o gynnal a chadw'r adeilad yn cael eu talu o gyllid arbenigol gan yr ALI neu ffynonellau eraill.

Gallai rhai ardaloedd bach nad ydynt yn ymwneud â'r ysgol fod mewn ardal atodol, ond gellir hefyd eu cynnwys yn yr arwynebedd net argymelledig ar gyfer yr ysgol, gan gynnwys:

- ardal i letya cyfleusterau cymorth ychwanegol: bydd hyn yn cynnwys gofodau ar wahân sydd ar gael i'r ysgol at ddefnyddiau penodol, megis adnoddau arbenigol ADY;
- gofod ar wahân nad yw ar gael fel arfer i'r ysgol yn ystod y diwrnod ysgol, megis ystafell rhieni, swyddfa ar gyfer staff cymunedol sy'n rhedeg cyfleusterau y tu allan i oriau ysgol, neu gwpwrdd clo neu storfa cyfarpar ar wahân at ddefnydd defnyddwyr ar wahân, megis clybiau ar ôl ysgol/clybiau gwyliau;
- darpariaeth nad yw'n ymwneud â'r ysgol: mae hwn yn ofod ar wahân nad yw ar gael fel arfer i'r ysgol, er enghraifft cyfleusterau ar gyfer addysg oedolion neu ddefnydd cymunedol yn ystod y dydd.
- ardal i wella cyfleusterau'r ysgol at ddefnydd cymunedol: bydd hyn yn cynnwys gofodau a helaethwyd y tu hwnt i'r 'safon' argymelledig, er enghraifft i ddarparu gofod i wylwyr yn y neuadd chwaraeon;
- capel neu ystafell fyfyrio a ddefnyddir gan yr ysgol yn ogystal at ddibenion eraill.

Nid yw'r ddogfen ganllaw yn cynnwys safonau argymelledig ar gyfer yr arwynebedd net atodol; mae'n hynod bwysig cynnwys y lwfans a ddymunir ar gyfer arwynebedd net atodol yng nghyfanswm yr arwynebedd net a'r Rhestr Ystafelloedd. Bydd hyn yn sicrhau bod y lwfans ar gyfer arwynebedd nad yw'n net yn ddigonol i ddarparu ar gyfer cylchrediad, gwasanaethau adeiladau a waliau mewnol sy'n gysylltiedig â'r ardal atodol.



# Canllawiau Penodol

**Mae'r canlynol yn nodi'r disgwyliadau sydd i'w darparu mewn mathau penodol o ysgolion.**

## Manylion cynradd

### Cyffredinol

Dyluniad hyblyg – mae yma gyfle (lle bo hynny'n briodol a'r gost yn bosibl) i ddefnyddio parwydydd plygu i newid gofodau ar gyfer anghenion megis meithrinfeydd a darpariaeth ar ôl ysgol.

### Meithrinfa

Bydd unrhyw leoedd meithrin cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn gofyn am yr un arwynebedd fesul lle disgybl ar gyfer pob categori ac eithrio'r canlynol:

- adnoddau dysgu – argymhellir bod hwn o leiaf yn 0.45m$^2$ fesul lle meithrin FTE;
- neuaddau – nid oes angen cynyddu arwynebedd neuaddau i ddarparu lleoedd meithrin FTE.

Dylai meithrinfa gynnwys y canlynol: – ystafell ddosbarth, swyddfa athrawon, toiledau (3-4), gan gynnwys cyfleusterau golchi dwylo, yn ogystal â storfa. Gellir darparu ystafell grŵp bach ar gyfer y feithrinfa hefyd.

Gellid darparu mynediad ar wahân i'r feithrinfa i fod o gymorth gyda'r ddarpariaeth gofal plant ac yn ystod adegau gollwng a chasglu y bore a'r prynhawn.

### Arwynebedd cegin mwy

Cynyddu'r cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Dylid rhoi ystyriaeth i'r gofynion storio gan y gallai cyfran uwch o brydau ysgol am ddim awgrymu mwy o ofyn am ddodrefn bwyta.

### Arwynebedd derbynfa mwy

Gallai derbynfeydd mwy eu maint roi mwy o hyblygrwydd os yw defnydd cymunedol ychwanegol dan ystyriaeth – 4m$^2$ i 12m$^2$ i'w ddarparu ar gyfer derbynfa ac iddi fwy o hyblygrwydd.

### Cynyddu arwynebedd y llyfrgell

Gellid ei ddefnyddio ar gyfer canolfan adnoddau dysgu, gofod ADY, llesiant, storfa TGCh.

### Gofodau addysgu a rennir

Defnyddio'r un gofod addysgu i fod yn lleoliad ar gyfer dosbarthiadau ar wahân, e.e. celf a dylunio a thechnoleg. Mae hyn yn dosbarthu'r ardal mewn modd mwy effeithlon gan ei fod yn galluogi i rai cyfleusterau gael eu rhannu yn hytrach na'u bod mewn gofod pwrpasol.

### ADY

Dylai ystafell technoleg/sgiliau bwyd fod yn 30m$^2$ i 50m$^2$ mewn ysgolion cynradd.

## Manylion uwchradd

### Chweched Dosbarth

Nid yw'r canllawiau'n gwneud addasiadau i'r arwynebedd sy'n gysylltiedig â darpariaeth Chweched Dosbarth. Bydd y cyfrifiad yn cynyddu'r lwfans yn seiliedig ar faint o arwynebedd fesul disgybl llawn-amser.

Yn hytrach na thrin y carfanau 11 i 16 a chweched dosbarth ar wahân, yn ymarferol byddai ysgolion 11 i 18 yn cael y cyfle i fod yn fwy hyblyg o fewn yr arwynebedd cyffredinol argymelledig ar gyfer pob categori o ofod.

- Gofodau bwyta
- Labordai gwyddoniaeth
- Ardaloedd astudio
- Ardaloedd cymdeithasol
- Ystafelloedd seminar
- Ystafelloedd TG
- Ystafelloedd grŵp

### Labordai gwyddoniaeth

Cadarnhaodd yr ymgynghoriad fod darparu llai o labordai gwyddoniaeth pwrpasol yn darparu mwy o hyblygrwydd i'r arwynebedd a ddarperir. Mae gostwng lleiafswm y gofodau labordy yn golygu bod yna fwy o le ar gyfer gofodau addysgu cyffredinol ac ystafelloedd seminar; mae i'r rhain ddefnydd mwy hyblyg na labordai gwyddoniaeth, a gallai hefyd olygu gostyngiad yn y costau a'r FFE cysylltiedig.

Byddai gofyn cael un labordy gwyddoniaeth fesul ~230 o ddisgyblion, pob un ag ystafell baratoi 20m$^2$.

### Y dderbynfa

Nid yw derbynfeydd, o reidrwydd, yn ofod penodedig mwyach, a chânt eu huno bellach â swyddfeydd cyffredinol neu weinyddol.

### ADY

Dylai'r ddarpariaeth ADY fod yn o leiaf 40m$^2$. Gellid darparu cymorth mewn ystafelloedd amlbwrpas, a rhannu ystafelloedd mwy (hyblyg):

- o leiaf un ystafell grŵp bach ar gyfer pob tair ystafell ddosbarth
- o leiaf un gofod therapi i therapyddion sy'n ymweld â disgyblion ac i gyflawni tasgau gweinyddol; 12m$^2$ ar gyfer disgyblion sy'n gallu cerdded, 15m$^2$ ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded.

ystafelloedd dosbarth technoleg/sgiliau bywyd – dylid ystyried yr ystod 50m$^2$ i 90m$^2$ mewn ysgolion uwchradd neu bob oed, ond dylai'r maint fod yn seiliedig ar y defnydd ohonynt.

### Llyfrgell/adnodd dysgu

Gyda'r cynnydd yn y defnydd o TGCh cludadwy, yr adborth o'r gweithdai yw nad yw ysgolion yn storio cymaint o lyfrau ffisegol ac nad oes arnynt eu hangen. Mae yna gyfleoedd i ddefnyddio llyfrgelloedd a/neu wasanaethau lleol.

### Gofodau hyblyg

Rhowch ystyriaeth i'r modd y gellir defnyddio gofodau amlswyddogaeth i fod yn:

- Ofodau ymgysylltu â theuluoedd
- Gofodau personol
- Gofodau dysgu/profiad annibynnol
- Gofodau grŵp bach
- Gofodau ymneilltuo ac ymyrraeth i reoleiddio ymddygiad mewn ysgolion prif ffrwd.

### Gofodau ar gyfer addysg gyfoethog mewn TGCh

Mae'r angen am ystafelloedd TGCh heb eu hamserlennu fel adnodd y gellir ei archebu wedi lleihau gyda'r cynnydd yn y defnydd o liniaduron a chyfrifiaduron llechen.

## Elfennau penodol ADY ac ystyriaeth o'r arwynebedd

### Darpariaeth ADY ychwanegol

Mae gofyn i ysgolion arbennig, darpariaethau amgen, darpariaethau ag adnoddau arbenigol (SRP) ac unedau gael mwy o arwynebedd fesul lle disgybl nag ysgolion prif ffrwd, a hynny oherwydd y canlynol:

- addysgir disgyblion mewn grwpiau llai, sef tua 8 i 12 ar gyfartaledd, a chyn lleied â 4 i 6 lle bo cymorth helaeth yn ofynnol ar y disgyblion;
- mae'r cymarebau staff i ddisgyblion yn uwch, yn enwedig mewn ysgol arbennig lle bo 2 neu 3 gynorthwyydd addysgu neu staff cymorth yn gweithio ochr yn ochr â'r athro, neu'n rhoi cymorth mewn gofod ar wahân;
- Mae cyfarfodydd amlasiantaeth, sy'n gyffredin yn ystod y diwrnod ysgol, yn gofyn am ystafelloedd cyfarfod cyfrinachol (gall y rhain gynnwys nifer o bobl mewn ysgolion arbennig). Gellir defnyddio'r ardaloedd hyn hefyd i ddarparu sesiynau ymyrraeth a therapi unigol.

### Argymhelliad

- Un ystafell grŵp bach i bob dosbarth $10m^2$ i $13m^2$
- Hyd at dair ystafell dawelu ($7m^2$ yr un), hyd at ddwy ystafell anogaeth (~$25m^2$ yr un)
- Ystafelloedd llesiant (tawelu, anogaeth, adnoddau ADY) i fod rhwng $0.4m^2$ a $0.6m^2$ fesul disgybl
- Yn achos ysgolion lle bo'r disgyblion yn gallu cerdded ac ysgolion darpariaeth amgen, dwy neu dair ystafell hylendid/gofal personol $12m^2$ yr un
- Ystafelloedd synhwyraidd: $12m^2$ i $30m^2$ (yn gallu cerdded), a $20m^2$ i $35m^2$ (ddim yn gallu cerdded). Y Bwletin Adeiladu i sôn am ddarparu ystafell drochi
- Y gofod ar gyfer golchdy i fod rhwng $4m^2$ a $6m^2$ fesul cyfnod allweddol
- Cyfarpar storio symudol i fod yn $0.1Nm^2$ i $0.2Nm^2$ ym mhob ysgol

### Bwyta

Dylai cyfanswm arwynebedd y gofodau bwyta a ddefnyddir ar gyfer cinio ddarparu $1.3m^2$ fesul lle ar gyfer disgyblion sy'n gallu cerdded a $3m^2$ i $4m^2$ fesul lle ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded.



# Canllawiau Penodol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

**Mae yna sbectrwm eang o ADY ac mae gan lawer o ddisgyblion anghenion cydgysylltiedig. Mae Cod ADY Cymru yn disgrifio pedwar maes angen eang, fel y gwelir isod.**

Mae'r testun mewn teip italig yn cyfeirio at oblygiadau amgylcheddol posibl yr anghenion hyn.

## Cyfathrebu a rhyngweithio

Gall rhai plant a phobl ifanc brofi anhawster mewn un agwedd, rhai agweddau neu bob agwedd ar leferydd, iaith a chyfathrebu. Gall y maes angen hwn gynnwys plant a phobl ifanc sydd ag oediad, namau neu anhwylderau lleferydd ac iaith, anawsterau dysgu penodol, megis dyslecsia a dyspracsia, nam ar y clyw a'r rheini sy'n dangos nodweddion o fewn y sbectrwm awtistig; gall hefyd gwmpasu rhai plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu cymedrol, difrifol neu ddwys. Bydd ystod yr angen yn cynnwys y rhai y mae anawsterau iaith a chyfathrebu yn deillio o nam synhwyraidd neu gorfforol parhaol.

I leihau pryder neu drallod, mae ar rai disgyblion ag awtistiaeth angen amgylchedd hawdd ei ddeall ac iddo lefel isel o ran elfennau tynnu sylw ac ysgogiad synhwyraidd. Efallai y bydd arnynt angen lle diogel i ymdawelu, a gallent elwa o gael mynediad i ofod diogel, cysgodol yn yr awyr agored.

## Gwybyddiaeth a dysgu

Gall rhai plant a phobl ifanc sy'n dangos nodweddion o anawsterau dysgu cymedrol, difrifol neu ddwys, neu anawsterau dysgu penodol, megis dyslecsia a dyspracsia fod angen rhaglenni penodol i gynorthwyo eu cynnydd mewn gwybyddiaeth a dysgu. Efallai y bydd gan rai o'r plant a'r bobl ifanc hyn anawsterau synhwyraidd, corfforol ac ymddygiadol sy'n gysylltiedig.

Efallai y bydd ar ddisgyblion â'r anghenion hyn angen cymorth ychwanegol yn yr ystafell ddosbarth neu mewn lle tawel llai. Mae'n bosibl y byddant yn defnyddio cyfarpar arbenigol.

## Ymddygiad, a datblygiad emosiynol a chymdeithasol

Bydd rhai plant a phobl ifanc yn dangos nodweddion anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Efallai y byddant wedi mynd i'w cragen neu ymbellhau; gallant fod yn aflonyddgar ac yn annifyr, yn orfywiog neu gael trafferth canolbwyntio; efallai na fydd eu sgiliau cymdeithasol wedi datblygu'n llawn; neu efallai y byddant yn ymddwyn yn heriol.

Efallai y bydd angen gofod ychwanegol ar ddisgyblion â'r anghenion hyn iddynt allu symud o gwmpas ac i sicrhau pellter cyfforddus rhyngddynt ac eraill. Gallai fod yn ofynnol iddynt allu tynnu'n ôl o'u grŵp, o bosibl i ardal awyr agored gysgodol. Gallai rhai gymryd risgiau eithafol neu golli arnynt eu hunain, a bydd yn ofynnol cael lle diogel iddynt ymdawelu ynddo. Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ymddygiad neu gwnsela ar rai, a dylai hyn ddigwydd mewn amgylchedd tawel a chefnogol.

## Synhwyraidd a/neu gorfforol

Mae'r maes angen hwn yn cynnwys yr ystod eang o anawsterau synhwyraidd, amlsynhwyraidd a chorfforol. Mae'r ystod synhwyraidd yn ymestyn o fyddardod neu nam ar y golwg dwys a pharhaol drwodd i lefelau llai o golled, a all fod yn rhai dros dro yn unig. Gall namau corfforol ddeillio o achosion corfforol, niwrolegol neu fetabolig sy'n gofyn am fynediad priodol at gyfleusterau ac offer addysgol yn unig; gall eraill arwain at anghenion dysgu a chymdeithasol mwy cymhleth; bydd gan rai plant a phobl ifanc anawsterau aml-synhwyraidd, rhai ohonynt ag anawsterau corfforol cysylltiedig.

Mae'n bosibl y bydd angen gofod ychwanegol ar rai disgyblion ag amhariad ar y synhwyrau, ynghyd â 'chliwiau' ychwanegol i'w helpu i fynd o gwmpas eu hamgylchedd yn annibynnol.

Mae'n bosibl y bydd disgyblion ag anableddau corfforol yn defnyddio cymhorthion symudedd, gan gynnwys cadeiriau olwyn, fframiau sefyll neu orsafoedd dysgu llorweddol, a gall pob un ohonynt fod yn swmpus a rhaid iddynt gael eu storio. Pa un a ydynt yn gallu symud o gwmpas yn annibynnol neu fod cymorth yn ofynnol ar eu cyfer, dylai fod yna ddigon o ofod iddynt allu teithio ochr yn ochr â'u ffrindiau. Dylai cyfleusterau gofal personol hygyrch gael eu lleoli mewn man cyfleus. Bydd angen cymorth arbenigol ar lawer ohonynt (er enghraifft hyfforddiant ar symudedd neu ffisiotherapi).

## Mathau o leoliadau addysgol

Mae mwyafrif y disgyblion ag ADY ac anableddau yn gallu mynychu ysgolion prif ffrwd gyda chymorth yn yr ysgol (er enghraifft disgyblion â dyslecsia neu anableddau corfforol). Mae rhai disgyblion yn cael cymorth arbenigol ychwanegol ar safle eu hysgol brif ffrwd (gweler darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau isod) ac mae rhai yn mynychu ysgolion arbennig. Mae rhai disgyblion yn mynychu darpariaeth amgen oherwydd bod ganddynt naw anhawster iechyd neu ymddygiadol na ellir eu diwallu mewn ysgol brif ffrwd. Mae gan rai o'r disgyblion hyn ADY hefyd. Disgrifir y lleoliadau hyn ymhellach isod.

## Ysgolion arbennig

Mae gan bob disgybl mewn ysgol arbennig Cynllun Datblygu Unigol (CDU) neu ddatganiad ADY. Mae nifer y lleoedd mewn ysgol arbennig fel arfer yn amrywio o tua 50 (sy'n aml yn darparu ar gyfer ystod eang o anghenion, gan gynnwys disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog i dros 250 (sy'n aml ar gyfer disgyblion y mae ganddynt anawsterau dysgu cymedrol ac y gallant gerdded); mae gan y mwyafrif o ysgolion tua 100 o ddisgyblion.

Mae ysgolion arbennig (yn enwedig ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded) yn aml yn darparu ar gyfer pob oedran. Mae ysgolion cynradd ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiadol yn anarferol, ac maent fel arfer yn darparu ar gyfer cyfnod allweddol 2 yn unig. Mae cwricwla a rhaglenni astudio ysgolion arbennig yn amrywio'n fawr; mewn rhai mae'r cwricwlwm yn un prif ffrwd, tra gall fod yn dra gwahanol mewn ysgolion eraill. Mae sgiliau bywyd a datblygu annibyniaeth bersonol yn chwarae rhan fawr.

Er bod ysgolion arbennig yn darparu ar gyfer anghenion amrywiol a all newid dros amser, gellir eu rhannu'n fras i'r ysgolion y mae eu darpariaeth yn un ar gyfer disgyblion sy'n gallu cerdded yn bennaf, ac i'r ysgolion a sefydlwyd yn benodol i ddarparu ar gyfer disgyblion ag anableddau corfforol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog (yn ogystal ag anghenion eraill). I gadw pethau'n syml, mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at y rhai cyntaf fel ysgolion arbennig 'yn gallu cerdded' a'r ail rai fel ysgolion arbennig 'nad ydynt yn gallu cerdded'.

Mae ysgolion arbennig 'yn gallu cerdded' fel arfer yn darparu ar gyfer un o'r canlynol:

- ystod o anghenion sy'n ymwneud yn bennaf â gallu cerdded (anawsterau dysgu cymedrol, anawsterau dysgu difrifol ac awtistiaeth), ac addysgir y disgyblion gyda'i gilydd mewn grwpiau o 8 i 12; yn aml, mae ychydig o leoedd ar gael ar gyfer disgyblion ag anghenion mwy, megis y rhai sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth ddifrifol neu anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl, ac fe'u haddysgir mewn grwpiau llai lle bo'r gymhareb staff i ddisgyblion yn uwch;
- anawsterau iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol difrifol, lle mae ar ddisgyblion angen mwy o ofod personol i osgoi gwrthdaro a'u galluogi i ddilyn cwricwlwm tebyg i un y brif ffrwd; addysgir y disgyblion mewn grwpiau o 6 i 8;
- anawsterau sylweddol sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth, lle mae ar ddisgyblion angen mwy o ofod personol a lefelau uchel o oruchwyliaeth gan oedolion; addysgir y disgyblion mewn grwpiau o 6 i 8.

Mae ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded fel arfer yn darparu ar gyfer un o'r canlynol:

- ystod eang o anghenion, gyda 10% i 60% o'r disgyblion heb fod yn gallu cerdded (a lle bo cyfarpar a chyfleusterau arbenigol yn ofynnol arnynt); addysgir disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol, anawsterau dysgu difrifol neu awtistiaeth mewn grwpiau o 8 i 10, a disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog neu awtistiaeth ddifrifol mewn grwpiau o 4 i 6;
- ystod eang o anghenion, gyda 60% i 90% o'r disgyblion heb fod yn gallu cerdded (a lle bo cyfarpar a chyfleusterau arbenigol yn ofynnol arnynt); addysgir pob disgybl mewn grwpiau o 4 i 6.

## Darpariaeth amgen

Mae darpariaeth amgen yn un ar gyfer disgyblion na allant fynychu ysgol brif ffrwd am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys gwaharddiad neu anawsterau iechyd meddwl neu gorfforol. Mae darpariaeth amgen yn darparu addysg amgen, sy'n aml yn un dros dro hyd nes y gall y disgybl ddychwelyd i addysg brif ffrwd neu symud i ysgol arbennig, er y gallai fod yn ateb tymor hwy yn achos rhai disgyblion. Weithiau bydd disgyblion yn mynychu darpariaeth amgen yn rhan-amser hefyd, gan dreulio gweddill eu hamser mewn ysgol gyfagos, coleg addysg bellach neu ddarpariaeth arall i ddefnyddio cyfleusterau arbenigol, er enghraifft ar gyfer cyrsiau galwedigaethol.

Er bod ystod yr anghenion y darperir ar eu cyfer mewn darpariaeth amgen yn amrywio'n fawr, maent yn aml yn perthyn i un o'r mathau canlynol:

- disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl a chorfforol, yn cynnwys anorecsia, gordewdra neu ffobia ysgol;
- disgyblion ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol neu gymdeithasol a allai fod wedi'u gwahardd o'u hysgol brif ffrwd (gellir ymdrin ag anawsterau difrifol o'r fath mewn ysgol arbennig).

Gallai darpariaeth amgen hefyd ddarparu ar gyfer disgyblion beichiog.

I fod yn syml, mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at ddarpariaeth amgen a sefydlwyd yn bennaf ar gyfer disgyblion ag anawsterau iechyd fel darpariaeth amgen (iechyd), a darpariaeth amgen sy'n darparu'n bennaf ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol neu gymdeithasol fel darpariaeth amgen (ymddygiad).

## Darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau dynodedig (unedau)

Mae darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau yn darparu cyfleusterau arbenigol ychwanegol ar safle ysgol brif ffrwd ar gyfer nifer bach o ddisgyblion, yn nodweddiadol llai na 30. Fel arfer, mae gan y disgyblion hyn CDU neu ddatganiadau o angen arbennig. Mae darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau yn tueddu i ddarparu ar gyfer angen penodol megis anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, amhariad ar y clyw neu'r golwg, neu awtistiaeth. Yn llai cyffredin, gallant ddarparu ar gyfer disgyblion ag anabledd corfforol, neu anhawster ymddygiadol. Mae darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau yn amrywio'n fawr, gan yn aml adlewyrchu'r dull lleol o ymdrin â chynhwysiant.

Mae yna wahaniaeth rhwng darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau. Mewn darpariaeth ag adnoddau arbenigol mae'r disgyblion yn treulio rhan fwyaf o'u hamser (ymhell dros 50% o'u hamserlen fel arfer) mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Dim ond ar gyfer cymorth unigol, i ddysgu sgìl penodol (er enghraifft braille yn achos disgyblion ag amhariad ar y golwg), i gael cymorth meddygol neu therapiwtig, neu i ddefnyddio cyfarpar arbenigol y maent yn mynychu cyfleusterau'r ddarpariaeth ag adnoddau arbenigol.

Gall y cyfleusterau fod yn gyfres o ystafelloedd neu'n ystafelloedd ar wasgar ledled yr ysgol. Mae'r disgyblion mewn uned yn treulio mwyafswm eu hamser yno, gan fynychu'r dosbarthiadau prif ffrwd ar gyfer ambell wers, megis addysg gorfforol, gwasanaethau neu i gael cinio. Mae disgyblion yn y ddau leoliad ar gofrestr yr ysgol brif ffrwd.

Yn ymarferol mae'r gwahaniaeth rhwng darpariaeth ag adnoddau arbenigol ac uned yn aml yn llai diffiniedig, ac felly mae briffio gofalus yn y cyfnod cynharaf yn hanfodol i sicrhau bod ystod addas o ofodau yn cael eu darparu. Mewn darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau, mae'r cyfleusterau yn ychwanegol at y rhai a ddarperir fel arfer mewn ysgol brif ffrwd i gefnogi anghenion arbennig, megis ystafell adnoddau ADY.

## Y modd y mae ADY yn effeithio ar arwynebedd

Mae gofyn i ysgolion arbennig, darpariaethau amgen, darpariaethau ag adnoddau arbenigol (SRP) ac unedau gael mwy o arwynebedd fesul lle disgybl nag ysgolion prif ffrwd, a hynny oherwydd y canlynol:

- addysgir disgyblion mewn grwpiau llai, sef tua 8 i 12 ar gyfartaledd, a chyn lleied â 4 i 6 lle bo cymorth helaeth yn ofynnol ar y disgyblion;
- mae'r cymarebau staff i ddisgyblion yn uwch, yn enwedig mewn ysgol arbennig lle bo 2 neu 3 gynorthwyydd addysgu neu staff cymorth yn gweithio ochr yn ochr â'r athro, neu'n rhoi cymorth mewn gofod ar wahân;
- mae cyfarfodydd amlasiantaeth, sy'n gyffredin yn ystod y diwrnod ysgol, yn gofyn am ystafelloedd cyfarfod cyfrinachol (gall y rhain gynnwys nifer o bobl mewn ysgolion arbennig). Gellir defnyddio'r ardaloedd hyn hefyd i ddarparu sesiynau ymyrraeth a therapi unigol.

Mae'r canlynol yn berthnasol mewn rhai lleoliadau:

- mae angen mwy o ofod symud ar ddisgyblion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu gymhorthion symudedd eraill, ynghyd â gofod i storio eu cyfarpar pan na fydd mewn defnydd (mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion, am resymau meddygol a gweithredol, yn defnyddio hyd at dri darn gwahanol o gyfarpar symudedd yn ystod y diwrnod ysgol);
- mae ar ddisgyblion anabl angen cyfleusterau ffisiotherapi (a all olygu bod cyfarpar arbenigol, megis teclyn codi, yn ofynnol), yn ogystal â chyfleusterau newid arbenigol;
- yn aml, mae ar ddisgyblion sy'n cynhyrfu'n hawdd angen mwy o ofod personol o'u cwmpas;
- mae'n ofynnol cael sesiynau addysgu, cwnsela a therapi unigol i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig a darpariaeth amgen, sy'n golygu bod yn rhaid cael amrediad o ofodau bach;
- yn ogystal â'r ardaloedd addysgu, mae ar weithwyr proffesiynol sy'n ymweld, megis therapyddion lleferydd ac iaith, angen desg a storfa.

## Cymhwyso'r fformiwlâu i leoliadau gwahanol

I fod yn syml, rhennir y fformiwlâu ar gyfer ysgolion arbennig, darpariaethau amgen, darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau yn fathau bras, sy'n adlewyrchu anghenion o ran eu harwynebedd. Rhoddir ystod o fformiwlâu ar gyfer pob math i adlewyrchu'r amrywiaeth mewn ysgolion. Esbonnir hyn isod a cheir crynodeb ar dudalen 58.

Ysgolion arbennig. Mae'r fformiwlâu ar gyfer 'yn gallu cerdded' yn berthnasol i unrhyw ysgol arbennig lle nad oes fawr ddim angen, os o gwbl, am gyfleusterau ffisiotherapi, meddygol neu ofal personol arbenigol (er y gallai fod yno nifer bach o ddisgyblion yn defnyddio cymhorthion symudedd). Mae'r fformiwlâu ar gyfer 'nad ydynt yn gallu cerdded' yn berthnasol i ysgol arbennig a chanddi ystod o gyfleusterau o'r fath i ddiwallu anghenion disgyblion ag anabledd corfforol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog.

Darpariaeth amgen. Mae'r fformiwlâu ar gyfer darpariaeth amgen (iechyd) yn berthnasol pan fo gan ddisgyblion anawsterau iechyd meddwl neu gorfforol. Mae'r fformiwlâu ar gyfer darpariaeth amgen (ymddygiad) yn berthnasol pan fo gan ddisgyblion anawsterau ymddygiadol. Os yw'r ddarpariaeth amgen yn cynnwys disgyblion ag ystod eang o anawsterau, yn cynnwys ymddygiad, bydd y fformiwlâu ar gyfer darpariaeth amgen (ymddygiad) yn berthnasol.

Darpariaeth ag adnoddau arbenigol. Mae'r fformiwlâu ar gyfer darpariaeth ag adnoddau arbenigol (yn gallu cerdded) yn berthnasol i unrhyw ddarpariaeth ag adnoddau arbenigol ac eithrio lle mae'r ddarpariaeth wedi'i bwriadu'n benodol ar gyfer disgyblion ag anabledd corfforol. Mae darpariaeth ag adnoddau arbenigol (anabledd corfforol) yn cyfeirio at ddarpariaeth lle mae'r disgyblion yn dysgu ochr yn ochr â'u cyfoedion prif ffrwd, a dim ond yn mynychu'r ddarpariaeth ag adnoddau arbenigol i ddefnyddio cyfleusterau therapi neu feddygol. Tybir bod cyfleusterau helaethach na'r hyn a fyddai'n cael ei ddarparu mewn darpariaeth ag adnoddau arbenigol yn ofynnol ar ddisgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog.

Unedau. Mae'r fformiwlâu ar gyfer uned (yn gallu cerdded) yn berthnasol i unrhyw uned ac eithrio un sydd wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth sy'n gallu cerdded, lle bo fformiwlâu uned (yn gallu cerdded – anhwylderau'r sbectrwm awtistig (ASA)) yn berthnasol. Mae unedau ar gyfer iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol yn brin, ond lle maent yn bodoli gellir defnyddio'r fformiwlâu ar gyfer uned (yn gallu cerdded – anhwylderau'r sbectrwm awtistig). Er bod unedau ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog/ anabledd corfforol yn brin iawn, cyfeiriwch at Atodiad 1 am fformiwlâu ar gyfer uned (ddim yn gallu cerdded). Mae'r fformiwlâu ar gyfer darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau yn cynrychioli'r arwynebedd sy'n ychwanegol at yr hyn a ddarperir yn y brif ysgol oherwydd bod y disgyblion yn treulio peth amser yn y ddau le.

| Lleoliad | Anghenion nodweddiadol y disgyblion | Fformiwlâu i'w defnyddio |
|---|---|---|
| Ysgolion Arbennig | Ystod sy'n cynnwys MLD, SLD ac awtistiaeth | Ysgol arbennig (yn gallu cerdded) |
| | Anawsterau SEMH difrifol | |
| | Awtistiaeth ddifrifol | |
| | Ystod eang sy'n cynnwys MLD, SLD, awtistiaeth a PMLD, a lle bo 10% i 60% ddim yn gallu cerdded | Ysgol arbennig (ddim yn gallu cerdded) |
| | Ystod eang sy'n cynnwys , MLD, SLD, awtistiaeth a PMLD, a lle bo 50% i 90% ddim yn gallu cerdded | |
| Darpariaeth amgen | Anawsterau iechyd meddwl a chorfforol | Darpariaeth amgen (iechyd) |
| | Anawsterau ymddygiadol, emosiynol neu gymdeithasol | Darpariaeth amgen (ymddygiad) |
| | Ystod eang o anawsterau, yn cynnwys ymddygiadol | Darpariaeth amgen (ymddygiad) |
| Darpariaeth ag adnoddau arbenigol | HI, SLCN | SRP (yn gallu cerdded) |
| | VI | |
| | Anabledd corfforol | SRP (anabledd corfforol) |
| Uned | HI, SLCN | Uned (yn gallu cerdded) |
| | VI | |
| | Awtistiaeth | Uned (yn gallu cerdded – anhwylderau'r sbectrwm awtistig) |
| | Ystod eang sy'n cynnwys , MLD, SLD, awtistiaeth a PMLD, a lle bo 10% i 60% ddim yn gallu cerdded | Uned (ddim yn gallu cerdded) |

**Tabl 8**
Tabl sy'n dangos sut y mae'r fformiwlâu'n berthnasol i leoliadau addysgol nodweddiadol

## Adeiladau mewn bodolaeth

Ysgrifennwyd y canllawiau hyn yn gyffredinol ar gyfer adeiladau newydd i ysgolion arbennig, darpariaethau amgen, darpariaethau ag adnoddau arbenigol, ac unedau. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r mwyafrif o'r manylion wrth ystyried adeiladau mewn bod, pa un a ydynt i gael eu hailfodelu neu beidio. Mae'r ddarpariaeth amgen sy'n bodoli yn aml wedi cael ei hailfodelu o adeiladau ac iddynt ddefnydd arall yn y gorffennol.

Wrth gyfrifo cyfanswm yr arwynebedd lleiaf yn achos lleoliad sy'n cynnwys adeiladau mewn bod, mae'r canlynol yn berthnasol.

1. Wrth ychwanegu lleoedd disgyblion at ysgolion arbennig neu ddarpariaeth amgen mewn bod, mae'r arwynebedd 'sylfaenol' yn y fformiwlâu arwynebedd net a gros yn aml wedi'u darparu eisoes, er enghraifft ar ffurf y brif neuadd, swyddfa'r pennaeth, ystafell y staff a'r storfeydd canolog, felly dim ond yr arwynebedd fesul lle disgybl ar gyfer y lleoedd ychwanegol a fyddai'n ofynnol. Byddai hyn yn cynnwys nid yn unig ystafelloedd dosbarth ychwanegol ond hefyd y gofodau cymorth cysylltiedig, a restrir yn y canllawiau hyn, sy'n angenrheidiol i ddarparu ar gyfer y disgyblion ychwanegol.

2. Dylid cynnwys cyfanswm arwynebedd net yr holl adeiladau sydd ar gael i'r lleoliad, pa un a ydynt yn eiddo i'r awdurdod lleol, y corff llywodraethu neu'r ymddiriedolwyr, neu'n cael eu rheoli ganddynt. Dylid hefyd gynnwys adeiladau sy'n eiddo i eraill ac yn cael eu cynnal a'u cadw ganddynt ond sydd ar gael i ddisgyblion neu staff yn y lleoliad eu defnyddio am o leiaf 80% o unrhyw wythnos ysgol arferol (megis cyfleusterau chwaraeon dan do neu bwll hydrotherapi ac iddynt 'gytundeb defnydd ar y cyd').

3. Mae'n bosibl y byddai'n ofynnol i'r categorïau gwahanol o ofod yn yr arwynebedd net, a drafodir isod, feddu ar briodoleddau penodol na all dim ond rhai adeiladau eu darparu: er enghraifft byddai gofyn i gyfaint neuadd fod yn fawr.

4 Gallai ystafelloedd sy'n bodoli fod y tu allan i'r canllawiau maint argymelledig ar gyfer y math o ofod. Os yw ystafelloedd presennol yn llai na'r gofynion argymelledig, bydd ystod y gweithgareddau yn cael ei lleihau; mewn sawl achos, bydd gofod addysgu llai yn peri risg iechyd a diogelwch (er enghraifft mewn ystafell ymarferol). Yn yr achosion hyn, dylid lleihau maint grwpiau neu gyfuno gofodau i greu ystafelloedd mwy.

5 Os yw'r ystafelloedd mewn bod yn fwy na'r arwynebedd a argymhellir, rhaid darparu ar gyfer 'ffactor ffitio' fel bod yr arwynebeddau net a gros argymelledig yn cael eu cynyddu 10-15%. Lle bo'r arwynebeddau net a gros dros 15% yn fwy na'r ffigurau argymelledig, gallai ailfodelu fod yn fwy darbodus, er enghraifft rhannu gofodau rhy fawr yn feintiau mwy addas. Gallai fod yn anos ailfodelu i sicrhau gwell ffit mewn adeiladau rhestredig lle bo yna gyfyngiad ar addasiadau; yn yr achosion hyn, gallai cyfanswm yr arwynebedd fod yn llawer mwy na'r ystod argymelledig ar gyfer y lleoedd gofynnol, a gallai'r 'ffactor ffitio' fod cyn uched â 25%, neu efallai'n uwch.

6 Gallai arwynebedd nad yw'n net, megis cylchrediad mewn adeilad presennol, fod yn fwy na'r maint lleiaf y gellid ei gyflawni mewn adeilad newydd.

Gellir defnyddio'r fformiwla yn yr atodiad i gyfrifo maint y grŵp y gellir ei gynnwys mewn gofod sy'n bodoli eisoes, yn dibynnu ar faint a math y gofod a'r gweithgareddau.

## Sefyllfaoedd eraill

### Cydleoli

Mae ysgol arbennig sy'n rhannu safle ag ysgol brif ffrwd yn caniatáu i'r disgyblion ryngweithio, a gall hefyd olygu bod disgyblion ysgolion arbennig yn gallu defnyddio llawer mwy o gyfleusterau. Fodd bynnag, dylai arwynebedd addysgu'r ysgol arbennig barhau yr un fath i sicrhau bod gan y disgyblion fynediad gwarantedig at eu cwricwlwm. Gellid rhannu rhai gofodau nad ydynt yn rhai addysgu, megis y gegin fasnachol a swyddfa rheolwr y safle, a byddai hyn yn arwain at leihad o hyd at tua 75m$^2$ yn yr arwynebedd. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd cydleoli bob amser yn briodol ar gyfer darpariaeth amgen lle, er enghraifft, y gallai fod yn fwy effeithiol i ddisgyblion ag anawsterau ymddygiadol gael eu haddysgu mewn man i ffwrdd oddi wrth eu cyfoedion.

### Rhannu safleoedd

Mae ysgol arbennig neu ddarpariaeth amgen weithiau ar fwy nag un safle; er enghraifft lle bo gan ddarpariaeth amgen adran gynradd ac uwchradd, neu lle bo dwy ysgol arbennig wedi cyfuno i ffurfio un sefydliad. Lle darperir rhan sylweddol o ysgol neu ddarpariaeth amgen mewn adeiladau sydd ar fwy nag un safle, gallai arwynebedd ychwanegol fod yn ofynnol er mwyn dyblygu adnoddau allweddol. Mae hyn yn annhebygol o fod yn fwy na 75m$^2$ gros ar gyfer cyfleusterau gweinyddol a chegin, yn dibynnu ar y pellter rhwng y safleoedd a'r cyfleusterau ar bob safle. Mae pellter rhwng safleoedd yn debygol o fod yn fwy o broblem i ysgol arbennig nag i ysgol brif ffrwd.

### Cyfleusterau helaeth

Gallai arwynebedd ychwanegol fod yn ofynnol ar ysgol arbennig neu ddarpariaeth amgen sy'n cynnig dysgu galwedigaethol helaeth ar y safle a hwnnw'n cynnwys gweithgareddau ymarferol ar raddfa fawr, megis cynnal a chadw cerbydau modur. Mae cyfleusterau o'r fath ar eu mwyaf darbodus os ydynt ar gael i ysgolion neu ddarpariaethau amgen lleol eraill.

## Rhan A: Yr adeiladau

Gan ddilyn y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y ddarpariaeth gynradd ac uwchradd, mae rhan gyntaf yr adran hon yn pennu sut i sefydlu'r gofynion penodol o ran arwynebedd lloriau ar gyfer darpariaeth gynradd ac uwchradd mewn ysgolion arbennig, darpariaethau amgen, darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau. Mae wedi'i rhannu'n dair adran:

- Yr arwynebedd net, sef yr arwynebedd y gellir ei ddefnyddio ac sy'n cynnwys yr ardal addysgu sylfaenol; neuaddau, addysg gorfforol, gofodau bwyta a chymdeithasol; Ardaloedd Adnoddau Dysgu; staff a gweinyddu; a storfeydd;
- Arwynebedd nad yw'n net sy'n cefnogi gweithrediad yr adeilad, ac yn cynnwys toiledau a chyfleusterau gofal personol, ceginau masnachol, cylchrediad, peiriannau a waliau mewnol;
- Arwynebedd atodol (sy'n cynnwys arwynebedd net ac nad yw'n net), megis canolfan iechyd neu gwnsela gymunedol.

Nid yw pob categori o ofod yn berthnasol i bob lleoliad; dangosir hyn yn nhabl 9, tudalen 61.

Arwynebedd gros, neu arwynebedd llawr mewnol gros, yr adeilad(au) yw cyfanswm yr arwynebedd net ac nad yw'n net. Mae'n bwysig bod yr arwynebedd nad yw'n net yn cynyddu'n unol ag unrhyw gynnydd yn yr arwynebedd net. Yn gyffredinol, bydd arwynebedd gros adeiladau newydd fel a ganlyn, yn dibynnu ar ddarparu ardaloedd ar gyfer cylchrediad, ystafelloedd hylendid neu (mewn ysgolion arbennig a darpariaethau amgen) y gegin fasnachol:

- ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion sy'n gallu cerdded: 145% i 155% o'r arwynebedd net;
- ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded: 153% i 162% o'r arwynebedd net;
- darpariaethau amgen: 140% i 160% o'r arwynebedd net, yn dibynnu ar yr anghenion y darperir ar eu cyfer;
- darpariaethau ag adnoddau arbenigol: 139% i 143% o'r arwynebedd net, neu 155% i 170% ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded, a hynny am fod ystafell hylendid a choridorau ehangach yn ofynnol;
- Unedau: 130% i 140% o'r arwynebedd net, neu 138% i 145% ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth lle, er enghraifft, mae coridorau ehangach yn ofynnol.

Mewn adeiladau presennol gallai cyfran yr arwynebedd gros i net fod yn uwch – cymaint â 175% mewn ysgol arbennig neu ddarpariaeth amgen.

Mewn ysgol arbennig ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog (PMLD) nad ydynt yn gallu cerdded, bydd yr arwynebedd net gofynnol ar gyfer ystafelloedd meddygol a therapi, a'r arwynebedd nad yw'n net gofynnol ar gyfer cyfleusterau toiled a hylendid, yn sylweddol uwch nag mewn lleoliadau eraill, ond mae'r cyfleusterau hyn yn hanfodol i gefnogi addysgu a dysgu yn yr ysgol. Dylai fod yna ddigon o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer rhywfaint o gynnydd yn nifer y disgyblion â'r anghenion hyn.

## Arwynebedd Net

| Categorïau o ofodau | Ysgolion arbennig | Darpariaethau amgen | SRP | Unedau |
|---|---|---|---|---|
| Addysgu sylfaenol | 🟩 | 🟩 | 🟥 | 🟩 |
| Neuaddau ac addysg gorfforol | 🟩 | 🟩 | 🟥 | 🟥 |
| Bwyta a chymdeithasol | 🟩 | 🟩 | 🟩 | 🟩 |
| Ardaloedd Adnoddau Dysgu | 🟩 | 🟩 | 🟩 | 🟩 |
| Staff a gweinyddu | 🟩 | 🟩 | 🟩 | 🟩 |
| Storfeydd | 🟩 | 🟩 | 🟩 | 🟩 |

## Arwynebedd nad yw’n Net

| Categorïau o ofodau | Ysgolion arbennig | Darpariaethau amgen | SRP | Unedau |
|---|---|---|---|---|
| Toiledau a gofal personol | 🟩 | 🟩 | 🟩 | 🟩 |
| Cyfleusterau cegin fasnachol | 🟩 | 🟩 | 🟥 | 🟩 |
| Cylchrediad, peiriannau a waliau mewnol | 🟩 | 🟩 | 🟩 | 🟩 |

**Tabl 9**
Tabl yn dangos categorïau o ofod sy’n ffurfio’r arwynebedd gros a net mewn ysgolion arbennig, darpariaethau amgen, darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau



## Arwynebedd net

Yr arwynebedd net yw cyfanswm arwynebedd yr holl ofodau defnyddiadwy, yn ofodau addysgu ac yn ofodau nad ydynt yn rhai addysgu. Mae'n cynnwys popeth heblaw toiledau a chyfleusterau gofal personol, cylchrediad, ystafelloedd y boeler a pheiriannau, ceginau masnachol, a'r arwynebedd lle bo'r waliau mewnol.

Mae'r arwynebedd net yn cynnwys gofodau (ystafelloedd caeedig fel arfer) sy'n disgyn i bum categori o ofod:

- addysgu sylfaenol (amherthnasol i ddarpariaethau ag adnoddau arbenigol);
- neuaddau, addysg gorfforol, bwyta a chymdeithasol (nid yw neuaddau nac addysg gorfforol yn berthnasol i ddarpariaeth ag adnoddau arbenigol nac unedau);
- Ardaloedd Adnoddau Dysgu;
- staff a gweinyddu;
- storfeydd.

Lle nad yw categorïau'n ofynnol mewn darpariaethau ag adnoddau arbenigol nac unedau am fod y cyfleusterau'n cael eu darparu'n rhan o'r brif ysgol, mae'n bwysig bod yr ardal a geir yn y brif ysgol yn ei gwneud yn bosibl i ddisgyblion y darpariaethau a'r unedau hynny dreulio peth o'u hamser yno a'i bod yn darparu unrhyw gyfleusterau staff a rennir, megis ystafell staff ganolog. Bydd yna lai o wahaniaeth rhwng rhai categorïau mewn darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau oherwydd y gofyniad i allu defnyddio gofod mewn modd hyblyg. Mewn darpariaethau ag adnoddau arbenigol, er enghraifft, gallai ystafelloedd grŵp (yn y categori Ardaloedd Adnoddau Dysgu) gael eu defnyddio amser cinio gan y disgyblion hynny nad ydynt yn dymuno mynd i ystafell fwyta'r brif ysgol. Yn yr un modd, efallai y bydd gan swyddfa staff (yn y categori staff a gweinyddu) ddefnydd ychwanegol ar gyfer cymorth dysgu unigol (yn amodol ar ddiogelu deunydd cyfrinachol).

Mae'r fformiwlâu yn nodi cyfanswm yr arwynebedd net lleiaf a mwyaf argymelledig, a'r ystod debygol o arwynebedd gros y mae ei hangen, yn seiliedig ar y gyfran net i gros.

I gyflawni cyfanswm yr arwynebedd net lleiaf argymelledig, sy'n fwy na swm yr arwynebedd net lleiaf ar gyfer pob categori, dylai arwynebedd pob categori o ofod fod, ar gyfartaledd, o gwmpas canol yr ystod argymelledig. Lle mae mwy o le'n ofynnol ar gyfer rhai categorïau, fel bod yr arwynebedd yn hanner uchaf yr ystod, rhaid dyrannu llai i gategorïau eraill er mwyn cadw o fewn yr arwynebedd net cyffredinol lleiaf argymelledig. Gallai fod yn ofynnol cael arwynebedd net yn agos at frig yr ystod argymelledig, ond hyd yn oed os gellir darparu'r arwynebedd net argymelledig mwyaf, mae'n annhebygol y bydd pob categori o ofod yn gallu bod ar frig pob parth, felly bydd yn rhaid i ddarparwyr benderfynu ar eu blaenoriaethau bob amser.

Mae'n bwysig nodi y dylai:

- cyfanswm arwynebedd pob categori fod, fan leiaf, yn faint yr arwynebedd lleiaf argymelledig er mwyn darparu lle ar gyfer y swyddogaethau craidd y mae eu hangen i weddu i gapasiti'r lleoliad; byddai arwynebedd sy'n fwy na'r maint gofynnol ond o fewn y parth fel arfer yn un a ffefrir ar gyfer pob categori;
- gallai unrhyw beth sy'n llai na'r arwynebedd lleiaf argymelledig ar gyfer categori amharu ar y gofod a ddarperir ynddo;
- gallai cyfanswm arwynebedd net sy'n uwch na'r maint lleiaf fod yn angenrheidiol lle bo yna adeiladau mewn bod a chanddynt nifer o ystafelloedd sy'n fwy na'r maint lleiaf.

Pan gaiff yr arwynebeddau lleiaf argymelledig ar gyfer pob categori o ofod eu hadio at ei gilydd, bydd cyfanswm yr arwynebedd (swm y maint gofynnol) yn llai na'r arwynebedd net cyffredinol lleiaf argymelledig. Y gwahaniaeth hwn yw'r 'fflôt', y gellir ei ddefnyddio i wella rhai ardaloedd yn dibynnu ar flaenoriaethau'r lleoliad unigol; er enghraifft i ddarparu ystafelloedd dosbarth mwy neu ystafell therapi ychwanegol.

## Yr arwynebedd net mewn lleoliadau gwahanol

Mae ysgolion arbennig yn llawer mwy amrywiol nag ysgolion prif ffrwd. Gall y ddarpariaeth amrywio yn ôl lleoliad, er enghraifft efallai y bydd gan awdurdod lleol trefol sawl ysgol, pob un yn darparu ar gyfer anghenion gwahanol, tra bo gan awdurdod lleol gwledig ysgol neu ddwy yn darparu ar gyfer ystod eang o anghenion. Mae yna hefyd ddulliau gwahanol o addysgu disgyblion ag anghenion arbennig; mae hyn yn arbennig o wir yn achos awtistiaeth. Gallai fod yn ofynnol i gyfanswm yr arwynebedd net fod yn fwy na'r maint lleiaf (hyd at y maint mwyaf) mewn rhai achosion. Mae'n bwysig sefydlu dull yr ysgol yn gynnar, er enghraifft:

- bydd angen i gyfanswm yr arwynebedd net yn achos ysgolion arbennig lle bo'r disgyblion yn gallu cerdded fod yn agosach at y maint mwyaf os oes yno gyfran uchel iawn o ddisgyblion ag awtistiaeth ddifrifol, y mae'r cymorth mwyaf yn ofynnol arnynt;
- bydd angen i gyfanswm yr arwynebedd net yn achos ysgolion arbennig lle nad yw'r disgyblion yn gallu cerdded fod yn agos at y maint mwyaf os oes yno gyfran uchel (dros 75%, dyweder) o ddisgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, y mae arnynt angen gofodau arbenigol.

Mae anghenion disgyblion ysgolion arbennig hefyd yn tueddu i amrywio dros amser, ac mae'n bwysig sicrhau digon o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer newid posibl. Er enghraifft, yn gyffredinol argymhellir ystafelloedd digon mawr ar gyfer grwpiau o ddeuddeg, o leiaf, mewn ysgolion arbennig ar gyfer anawsterau dysgu cymedrol/difrifol, er y gallai maint cyfartalog y grŵp fod tua deg. Mae darpariaeth amgen hefyd yn amrywio ac mae'n bwysig sefydlu'r trefniadau lleol yn gynnar, er enghraifft:

- Efallai y bydd gofyn i gyfanswm yr arwynebedd net yn achos darpariaethau amgen a chanddynt drefniadau ar y cyd ag ysgolion lleol fod yn agosach at y maint lleiaf;
- Efallai y bydd gofyn i gyfanswm yr arwynebedd net yn achos darpariaethau amgen a chanddynt ddarpariaeth helaeth ar y safle fod yn agosach at y maint mwyaf.

Lle bo darpariaeth amgen yn cyflenwi cwricwlwm llawn i ddisgyblion sy'n treulio eu holl amser yno ac nad ydynt yn dychwelyd i'r ysgol, gallai fod yn ofynnol i'r arwynebeddau fod yn agosach at yr argymhellion ar gyfer ysgol arbennig i sicrhau ystafell ddigonol ac addas.

Mae darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau yn amrywio yn ôl anghenion y disgyblion a faint o amser y mae'r disgyblion yn ei dreulio ym mhrif ystafelloedd dosbarth yr ysgol; er enghraifft:

- mewn darpariaethau ag adnoddau arbenigol lle mae'r disgyblion yn treulio mwyafswm eu hamser mewn dosbarthiadau prif ffrwd, a lle mai ychydig iawn o gyfleusterau arbenigol y mae arnynt eu hangen, gallai fod yn ofynnol i gyfanswm yr arwynebedd net fod yn nes at y maint lleiaf;
- yn achos darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau sy'n darparu ar gyfer ystod eang o anghenion arbennig y mae angen cyfleusterau arbenigol arnynt, gallai fod yn ofynnol i gyfanswm yr arwynebedd net fod yn agosach at y maint mwyaf.

Pan fo nifer y lleoedd mewn uned yn cynyddu tuag at faint ysgol arbennig fach (h.y. 40 i 50 o leoedd), gallai fod yn ofynnol i'r arwynebeddau fod yn agosach at y rhai a argymhellir ar gyfer ysgol arbennig er mwyn sicrhau ystafelloedd digonol ac addas.

Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau ar y lleoedd gofynnol ar gyfer pob math o leoliad addysgol ym mhob un o'r pum categori o ofod yn yr ardal net. Yn achos pob gofod, nodir gweithgareddau eang y mae gofyn eu lletya, a dylai'r gofod, ynghyd â dodrefn, gosodiadau a chyfarpar priodol, gael eu cynllunio i weddu i'r rhain.

## Addysgu sylfaenol

Mae addysgu sylfaenol yn cynnwys yr holl ofodau addysgu (ac eithrio neuaddau a gofodau addysg gorfforol) gofynnol ar gyfer y cwricwlwm a gynigir. Nid yw'n cynnwys gofodau dysgu megis llyfrgelloedd ac ystafelloedd grŵp bach. Gellir mynd ati mewn nifer o ffyrdd gwahanol i rannu'r ystod argymelledig o ran yr arwynebedd ar gyfer cyfanswm yr ardal addysgu sylfaenol. Nid yw arwynebedd addysgu sylfaenol, megis yn achos darpariaeth brif ffrwd, yn ofynnol ar ddarpariaethau ag adnoddau arbenigol.

Mae Ffigur 17 yn dangos parthau gofodau addysgu sylfaenol ar gyfer unrhyw oedran ym mhob lleoliad addysgol

Mae Tablau 10 i 14 yn dangos y modd y mae parthau'r arwynebeddau argymelledig yn berthnasol i anghenion disgyblion. Mewn rhai achosion, dim ond hanner uchaf y parth sy'n berthnasol i ofod. Yn gyffredinol, mae'r arwynebedd lleiaf argymelledig ar waelod parth, ond lle nodir rhan uchaf parth bydd yr arwynebedd lleiaf yng nghanol y parth.

Mae Tablau 13 ac 14 yn dangos y mathau mwyaf ceffredin o ofod addysg sylfaenol a'u meintiau safonol argymelledig, yn seiliedig ar feintiau grwpiau nodweddiadol ar gyfer ysgolion gynradd ac uwchradd, yn y drefn hono. Bydd y maint safonol argymelledig yn rhoi'r hyblygrwydd i letya amrywiaeth o weithgareddau perthnasol, ac yn darparu ar gyfer amrywiadau yng nghynlluniau dodrefn, gosodiadau a chyfarpar. Mewn ystafell ddosbarth ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded, bydd y maint safonol yn darparu gofod i ddisgyblion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu gymhorthion symudedd mwy.

Bydd arwynebedd sy'n llai na'r maint safonol argymelledig yn cyfyngu ar yr amrywiaeth o weithgareddau y gellir eu cynnal ac ar yr amrywiadau posibl i gynllun yr ystafell. Bydd yna gyfyngiadau i arwynebedd sy'n fwy na'r maint lleiaf argymelledig ond yn llai na'r maint safonol argymelledig, er enghraifft:

- mewn ystafell ddosbarth bydd yn cyfyngu ar y gallu i greu lleoliadau gwahanol, megis cornel synhwyraidd ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog neu gornel seddi meddal ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol;
- mewn gofod ymarferol ni fydd yn darparu lle ar gyfer dodrefn neu gyfarpar arbenigol, megis bwrdd sgrin-brintio mewn ystafell gelf; mewn ystafell fwyd bydd yn cyfyngu ar nifer y poptai;
- mewn gofod cerdd bydd yn cyfyngu ar y nifer a'r mathau o offerynnau mawr y gellir eu cadw yn yr ystafell (megis cit drymiau neu biano);
- mewn unrhyw ofod addysgu sylfaenol, lle mae yna ddisgyblion nad ydynt yn gallu cerdded, bydd yn cyfyngu ar symudiad o fewn y gofod ac yn lleihau hyblygrwydd yr ysgol neu'r uned i gynyddu nifer y disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded yn y dyfodol.

Nid argymhellir arwynebedd sy'n llai na'r arwynebedd lleiaf argymelledig, a gallai achosi risg iechyd a diogelwch, yn enwedig mewn ystafell ymarferol. Lle bo yno ddisgyblion nad ydynt yn gallu cerdded, byddai'r gofod symud yn annigonol.

Mewn adeilad sy'n bodoli eisoes, mae'n bosibl na fydd gofod o'r maint safonol argymelledig yn bosibl. Byddai angen lleihau grŵp o'r maint mwyaf argymelledig er mwyn osgoi risg iechyd a diogelwch neu gyfyngiad ar symudiad disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded. Fel arall, gellid ailfodelu neu gyfuno ystafelloedd i greu gofod mwy. Os oes gan ofod presennol siâp afreolaidd neu aneffeithlon, bydd gofyn cael arwynebedd sy'n fwy na'r maint lleiaf argymelledig.

Mae pob parth yn darparu ar gyfer amrywiadau mewn maint yn dibynnu ar y cwricwlwm, yr ystod o anghenion arbennig neu anableddau y darperir ar eu cyfer, a'r gymhareb staff i ddisgyblion. Pa drefniant bynnag a ddewisir, dylai'r ardal addysgu sylfaenol gynnwys yr holl fathau o weithgareddau y mae angen eu cynnal yn yr ardal, ynghyd â'r dodrefn, gosodiadau a chyfarpar cysylltiedig

## Addysgu sylfaenol mewn ysgolion arbennig a darpariaethau amgen


Mae'r arwynebedd addysgu sylfaenol mewn ysgolion arbennig neu ddarpariaethau amgen yn cynnwys:

- ystafell ddosbarth;
- ystafelloedd ymarferol;
- gofodau perfformio.

Bydd maint y gofodau hyn yn dibynnu ar yr ystod o anghenion a ddarperir ac ar y gymhareb staff i ddisgyblion. Gallai fod ar un plentyn â chadair olwyn a/neu gymhorthion symudedd angen cymaint o ofod â thri disgybl sy'n gallu cerdded. Gallai fod ar un plentyn â chymhorthion addysgu a chynorthwyydd addysgu angen gofod yr un maint â dau ddisgybl nad ydynt yn anabl.



**Ffigur 17:** Parthau ar gyfer Gofodau Addysgu Sylfaenol



## Yr ystafelloedd dosbarth

Ar lefel ystafelloedd dosbarth ysgolion cynradd, dylid darparu dŵr a draeniad ar gyfer gwaith ymarferol ysgafn. Yr eithriad yw lle bo arwynebedd yr ystafell ar waelod yr ystod argymelledig ac y gellir cynnal gweithgareddau ymarferol mewn gofod arbenigol ar wahân. Ar lefel ysgolion uwchradd, bydd y ddarpariaeth yn dibynnu ar anghenion disgyblion; weithiau bydd ystafelloedd dosbarth yn cael eu defnyddio ar gyfer addysgu cyffredinol yn unig, a chynhelir y gweithgareddau ymarferol mewn gofodau arbenigol, ond yn achos rhai anghenion arbennig, yn enwedig mewn perthynas â disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog/difrifol, bydd mwyafswm y gweithgareddau'n cael eu cynnal mewn un gofod, lle bydd dŵr a draeniad yn ofynnol. Bydd angen dŵr yfed ar gyfer lleoliadau cynradd ac uwchradd os yw disgyblion yn cael lluniaeth yn yr ystafell ddosbarth.

O ran y ddarpariaeth gynradd, dylai'r ardal addysgu sylfaenol gynnwys un ystafell ddosbarth ar gyfer pob grŵp dosbarth. Yn achos darpariaeth uwchradd, bydd nifer yr ystafelloedd dosbarth yn dibynnu ar y cwricwlwm a meintiau'r grwpiau. Mewn darpariaethau amgen ac ysgolion arbennig mawr, dylai hyn gael ei bennu trwy ddefnyddio dadansoddiad syml o'r cwricwlwm. Mewn rhai ysgolion uwchradd arbennig, bydd yna un ystafell ddosbarth ar gyfer pob grŵp dosbarth, mewn modd tebyg i ysgolion cynradd.

Mae Tablau 10 i 12 yn dangos y berthynas rhwng anghenion disgyblion, y math o ystafell ddosbarth a pharth yr arwynebedd argymelledig; mae hefyd yn dangos gosodiadau nodweddiadol ar gyfer y gofodau hyn. Mae'r tabl yn berthnasol i ddarpariaeth gynradd ac uwchradd.

Lle bo ysgol arbennig yn darparu ar gyfer ystod eang o anghenion, gallai maint yr ystafelloedd dosbarth fod yn wahanol. Fodd bynnag, gall darparu gormod o amrywiaeth ym maint ystafelloedd gyfyngu ar hyblygrwydd yr ysgol i ddarparu ar gyfer anghenion newidiol.

Mae dosbarthiadau meithrin yn aml yn darparu ar gyfer ystod eang o anghenion.

Mewn unrhyw ysgol arbennig neu ddarpariaeth amgen, dylai'r ystafelloedd dosbarth fod ar ffurf cyfres, yn unol â gofynion y lleoliad; gallent gael eu trefnu yn ôl cyfnod allweddol neu fath o angen arbennig (er enghraifft, cyfres o ystafelloedd ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth ddifrifol mewn ysgol arbennig sy'n darparu ar gyfer ystod eang o anghenion). Dylai fod yna fynediad hawdd i ystafelloedd grŵp bach (sy'n cael eu cynnwys yn y categori Ardaloedd Adnoddau Dysgu) a mynediad hawdd ac weithiau uniongyrchol i storfa/storfeydd mewngamadwy).

## Ystafelloedd dosbarth cyfoethog mewn TGCh

O ganlyniad i'r defnydd cynyddol o liniaduron a chyfrifiaduron llechen, mae'r angen am ystafelloedd TGCh fel adnodd y gellir ei archebu wedi lleihau. Fodd bynnag, yn achos ysgolion arbennig a darpariaethau amgen lefel uwchradd, gallai fod yn ofynnol o hyd cael un neu ragor o ystafelloedd dosbarth cyfoethog mewn TGCh ac ynddynt gyfrifiaduron bwrdd gwaith sefydlog ar gyfer pob gweithfan. Gweler ffigur 17. Gellir cyfuno ystafell ddosbarth gyfoethog mewn TGCh â llyfrgell (gweler Ardaloedd Adnoddau Dysgu). Mewn rhai lleoliadau, bydd ar y disgyblion angen gofod gweithio pwrpasol am fod eu cyfarpar wedi'i addasu ar gyfer angen penodol, megis amhariad ar y golwg neu anabledd corfforol.

## Gofodau addysgu ymarferol

Yn gyffredinol, bydd gan ofodau addysgu ymarferol ddŵr a draeniad; yn aml bydd ganddynt TGCh. Yn achos gofodau uwchradd, gallai fod yno wasanaethau nwy a gorffeniadau gwrth-gemegion. Dylai fod gan bob gofod storfa/storfeydd mewngamadwy o'r ystafell, a hynny ar gyfer adnoddau a gwaith ar y gweill.

## Gofodau addysgu ymarferol cynradd

Dylai ysgol arbennig neu ddarpariaeth amgen ac ynddynt ddisgyblion oed cynradd yn unig fod â gofod ar gyfer popty, a hynny naill ai mewn cilfach fwyd neu mewn ystafell fwyd arbenigol. Bydd ystafell arbenigol yn ofod caeedig (ar gyfer grwpiau maint hanner dosbarth fel arfer) ac iddi orffeniadau priodol, sinc a phopty (yn aml o uchder addasadwy), ac oergell. Mewn ysgol arbennig neu ddarpariaeth amgen â gofodau oedran cynradd ac uwchradd, gall yr ystafell fwyd lefel uwchradd gael ei defnyddio gan ddisgyblion cynradd hŷn.

Gallai ysgol arbennig cynradd yn unig neu ddarpariaeth amgen hefyd gynnwys gofod ymarferol ar gyfer gwyddoniaeth, celf a dylunio; ystafell gaeedig (fel arfer ar gyfer grwpiau maint hanner dosbarth) ac iddi wasanaethau a gorffeniadau priodol. Dim ond mewn lleoliad cynradd y byddai gofod o'r fath yn ofynnol, lle bo'r ystafelloedd dosbarth yn hanner isaf parth yr arwynebedd argymelledig, ac felly'n methu darparu ystafell ar gyfer gweithgareddau ymarferol.

| Lleoliad nodweddiadol | Gweithgareddau ac anghenion disgyblion | Math o ystafell | Parth |
|---|---|---|---|
| Darpariaeth amgen | Mae disgyblion sy'n gallu cerdded yn cyflawni gweithgareddau ymarferol heb fawr ddim cymorth; e.e. disgyblion ag anawsterau iechyd a dim anawsterau dysgu cysylltiedig | Ystafell ymarferol gynradd (iechyd)<br>Ystafell fwyd gynradd (iechyd) | F |
| | Mae disgyblion sy'n gallu cerdded yn cyflawni gweithgareddau ymarferol heb fawr ddim cymorth, a gallai fod yn ofynnol iddynt gael mwy o ofod 'personol'; e.e. disgyblion ag anawsterau ymddygiadol | Ystafell ymarferol gynradd (ymddygiad)<br>Ystafell fwyd gynradd (ymddygiad) | G |
| Ysgol arbennig | Mae disgyblion sy'n gallu cerdded yn cyflawni gweithgareddau ymarferol gyda pheth cymorth; e.e. disgyblion ag MLD, SLD neu awtistiaeth | Ystafell ymarferol gynradd (disgyblion sy'n gallu cerdded) Ystafell fwyd gynradd (disgyblion sy'n gallu cerdded) | G Uchaf |
| | Mae disgyblion sy'n gallu cerdded yn cyflawni gweithgareddau ymarferol heb fawr ddim cymorth, ac mae'n ofynnol iddynt gael mwy o ofod 'personol' o'u cwmpas; e.e. disgyblion ag SEMH difrifol | Ystafell ymarferol gynradd (SEMH difrifol)<br>Ystafell fwyd gynradd (SEMH difrifol) | H |
| | Mae disgyblion sy'n gallu cerdded a'r rhai nad ydynt yn gallu cerdded yn cyflawni amrywiaeth o dasgau ymarferol; mae rhai'n defnyddio<br>cadeiriau olwyn; e.e. disgyblion ag MLD/ SLD ac anabledd corfforol | Ystafell ymarferol gynradd (ddim yn gallu cerdded)<br>Ystafell fwyd gynradd (ddim yn gallu cerdded) | H |

**Tabl 10**
Gofodau Addysgu Ymarferol Cynradd

## Gofodau addysgu ymarferol uwchradd

Bydd nifer y gofodau addysgu ymarferol uwchradd mewn ysgol arbennig neu ddarpariaeth amgen yn dibynnu ar y cwricwlwm ac anghenion y disgyblion. Bydd gan bob lleoliad o leiaf:

- ystafell fwyd (ar gyfer technoleg bwyd a/neu sgiliau bywyd, yn dibynnu ar anghenion y disgyblion);
- ystafell ar gyfer gweithgareddau gwyddoniaeth; mewn rhai ysgolion arbennig gall hon fod yn ofod ymarferol amlbwrpas.

Bydd gan fwyafrif yr ysgolion arbennig a'r darpariaethau amgen hefyd:

- o leiaf un gofod ymarferol ychwanegol, gyda'r nifer a'r math i ddiwallu'r niferoedd disgyblion ac anghenion y cwricwlwm; gallai fod yno ofodau ar gyfer celf, celf a dylunio, dylunio a thechnoleg, iechyd a harddwch, cynnal a chadw ceir neu adeiladu.

Gan fod nifer y gofodau ymarferol yn llai nag mewn ysgol brif ffrwd, cânt eu grwpio'n gyfres o ystafelloedd fel arfer a'u lleoli fel ei bod yn hawdd cael mynediad iddynt o ystafelloedd dosbarth.

Bydd maint gofod ymarferol uwchradd yn dibynnu ar nifer o ffactorau sy'n ymwneud ag anghenion disgyblion: y gymhareb staff i ddisgyblion, y gweithgareddau a gynhelir, yr ystod o gyfarpar sy'n ofynnol, a faint o ofod y mae ei angen o amgylch dodrefn a chyfarpar. Mae'n arbennig o bwysig bod yna ddigon o ofod i ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn) gylchredeg yn rhwydd a chymryd rhan yn yr holl weithgareddau priodol, gan gynnwys ymgynnull ar gyfer cyflwyniadau neu arddangosiadau a symud yn ddiogel o gwmpas cyfarpar a pheiriannau. Dylid darparu ar gyfer disgyblion y mae arnynt angen mwy o ofod 'personol' o'u cwmpas, neu ddisgyblion ag amhariad ar y clyw na fyddant, o bosibl, yn clywed cyfarwyddyd wrth ddefnyddio peiriant neu ddarn o gyfarpar. Mae cynllun ystafell sydd wedi'i ddylunio'n dda yn ffactor pwysig o ran sicrhau diogelwch ac ymarferoldeb.

Mae Ffigurau 18 a 19 yn rhoi parthau argymelledig ar gyfer disgyblion ag anghenion gwahanol. Mae gofodau ymarferol trwm (y rhai ac ynddynt beiriannau neu gyfarpar sefydlog mawr) neu ofodau sy'n darparu ar gyfer ystod eang o weithgareddau ymarferol, yn tueddu i fod mewn parth uwch na gofodau ymarferol ysgafn, megis y rhai ar gyfer gwyddoniaeth neu gelf.

Yn gyffredinol, mae'r canlynol yn berthnasol i ddisgyblion oed uwchradd sydd mewn ysgol arbennig neu ddarpariaeth amgen; mae'n annhebygol iawn y bydd gan leoliadau'r holl ofodau hyn.

Ceir dŵr a draeniad yn gwasanaethu gofodau addysgu ymarferol, ond nid oes peiriannau na chyfarpar sefydlog mawr ynddynt. Maent yn cynnwys:

- ar gyfer gwyddoniaeth: ystafell debyg i ystafell ddosbarth ac ynddi ddŵr a draeniad, neu ystafell ac ynddi sinciau a thapiau nwy labordy, yn debyg i ysgol brif ffrwd, yn dibynnu ar anghenion y disgyblion;
- ar gyfer celf: ystafell ac ynddi ddŵr a draeniad a lle mae'r disgyblion yn gweithio mewn ystod o gyfryngau yn ôl eu hanghenion, gyda gofod i storio ac arddangos gwaith gorffenedig gerllaw (gall ystafell gelf a dylunio gyfun ac ynddi ystod lai o beiriannau nag mewn gweithdy dylunio a thechnoleg pwrpasol fod yn ddefnydd mwy effeithiol o ofod);
- ar gyfer gwallt a harddwch: yn nodweddiadol, ystafell ac ynddi gyfleusterau ar gyfer golchi gwallt, triniaethau harddwch ac i chwarae rhan mewn derbynfa (gellir defnyddio'r parthau ar gyfer gwyddoniaeth fel canllaw).

Yn aml, bydd ysgol arbennig ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded yn meddu ar ofod ymarferol ysgafn amlbwrpas ar gyfer gweithgareddau celf, gwyddoniaeth a dylunio.

Bydd gan ofodau ymarferol trwm gyfarpar sefydlog (megis turn neu boptai), gorffeniadau gwrthiannol iawn, llwythi trydanol trwm ac, o bosibl, rhywfaint o echdynnu arbenigol. Maent yn cynnwys:

- ar gyfer technoleg bwyd: gofod i ddisgyblion gymryd rhan cymaint â phosibl yn y gwaith o baratoi a choginio bwyd a gwylio arddangosiadau coginio (gellir defnyddio'r un ystafell hefyd ar gyfer sgiliau bywyd, megis dysgu sut i baratoi lluniaeth a defnyddio peiriant golchi; fel arall gellir addysgu sgiliau bywyd mewn cegin ddomestig ei chynllun, sy'n cael ei chynnwys yn yr Ardaloedd Adnoddau Dysgu);
- ar gyfer dylunio a thechnoleg: gofod lle mae'r disgyblion yn gweithio gyda deunyddiau gwrthiannol, cynhyrchion graffeg ac, o bosibl, tecstilau; os oes yna beiriannau mawr wedi'u gosod ar y llawr byddai'r arwynebedd lleiaf yn y parth yn cyfyngu ar yr ystod o gyfarpar arbenigol;
- ar gyfer cynnal a chadw cerbydau: gellir defnyddio gweithdy dylunio a thechnoleg i ddisgyblion sy'n gallu cerdded weithio ar rannau o gerbydau (ond os byddir yn gweithio ar gerbydau cyfan, bydd gofyn cael gofod mawr iawn, a allai fod yn yr awyr agored mewn ardal dan do);
- ar gyfer adeiladu: gweithdy lle mae'r disgyblion sy'n gallu cerdded yn cymryd rhan mewn ystod gyfyngedig o weithgareddau, megis peintio, addurno a gwaith brics (ond ar gyfer gwaith helaeth, bydd gofod mawr iawn yn ofynnol, a gall peth ohono fod yn yr awyr agored mewn ardal dan do);
- ar gyfer ffitrwydd/ymarfer corff: ystafell gyda pheiriannau amrywiol eu mathau a'u meintiau i weddu i anghenion y disgyblion; bydd maint y gofod yn dibynnu ar yr ystod o gyfarpar a faint o ofod personol y mae ar ddisgyblion ei angen o'u cwmpas; mae'n debygol y bydd angen mwy o ofod i gyfarpar arbenigol ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded.

| Lleoliad nodweddiadol | Gweithgareddau ac anghenion disgyblion | Math o ystafell | Parth |
|---|---|---|---|
| Darpariaeth amgen | Mae'r disgyblion sy'n gallu cerdded yn gweithio ar gwricwlwm prif ffrwd heb fawr ddim cymorth; e.e. disgyblion ag anawsterau iechyd a dim anawsterau dysgu cysylltiedig | Ystafell gelf (iechyd)<br>Stiwdio wyddoniaeth (iechyd) | G Uchaf |
| | Mae'r disgyblion sy'n gallu cerdded yn gweithio ar gwricwlwm prif ffrwd heb fawr ddim cymorth ychwanegol; mae ar rai angen mwy o ofod 'personol'; e.e. disgyblion ag anawsterau ymddygiadol | Ystafell gelf (ymddygiad)<br>Stiwdio wyddoniaeth (ymddygiad) | H |
| Ysgol arbennig | Mae'r disgyblion sy'n gallu cerdded yn gwneud tasgau ymarferol syml gyda chymorth ychwanegol; e.e. disgyblion ag MLD, SLD neu awtistiaeth | Ystafell gelf (yn gallu cerdded)<br>Stiwdio wyddoniaeth<br>(yn gallu cerdded) | H |
| | Mae disgyblion sy'n gallu cerdded yn gweithio ar gwricwlwm prif ffrwd heb fawr ddim cymorth, ond mae arnynt angen mwy o ofod 'personol'; e.e. disgyblion ag SEMH difrifol | Ystafell gelf (SEMH difrifol)<br>Stiwdio wyddoniaeth (SEMH difrifol) | I |
| | Mae'r disgyblion sy'n gallu cerdded a'r rhai nad ydynt yn gallu cerdded yn cyflawni amrywiaeth o dasgau ymarferol; mae rhai'n defnyddio cadeiriau olwyn; e.e. disgyblion ag MLD/SLD ac anabledd corfforol | Ymarferol amlbwrpas<br>(ddim yn gallu cerdded) | J |

**Tabl 11**
Gofodau Addysgu Ymarferol Uwchradd

| Lleoliad nodweddiadol | Gweithgareddau ac anghenion disgyblion | Math o ystafell | Parth |
|---|---|---|---|
| Darpariaeth amgen | Mae'r disgyblion sy'n gallu cerdded yn gweithio ar gwricwlwm prif ffrwd heb fawr ddim cymorth; e.e. disgyblion ag anawsterau iechyd a dim anawsterau dysgu cysylltiedig | Gweithdy dylunio a thechnoleg (iechyd)<br>Ystafell celf a dylunio (iechyd) Ystafell fwyd uwchradd (iechyd) | H |
| | Mae'r disgyblion sy'n gallu cerdded yn gweithio ar gwricwlwm prif ffrwd heb fawr ddim cymorth ychwanegol; mae ar rai angen mwy o ofod 'personol'; e.e. disgyblion ag anawsterau ymddygiadol | Gweithdy dylunio a thechnoleg (ymddygiad)<br>Ystafell fwyd uwchradd (ymddygiad) | I |
| Ysgol arbennig | Mae'r disgyblion sy'n gallu cerdded yn cyflawni tasgau ymarferol syml gyda chymorth ychwanegol; e.e. disgyblion ag MLD, SLD neu awtistiaeth | Gweithdy dylunio a thechnoleg (yn gallu cerdded)<br>Ystafell celf a dylunio (yn gallu cerdded)<br>Ystafell fwyd uwchradd (yn gallu cerdded) | I Uchaf |
| | Mae'r disgyblion sy'n gallu cerdded yn gweithio ar gwricwlwm prif ffrwd heb fawr ddim cymorth, ond mae arnynt angen mwy o ofod 'personol'; e.e. disgyblion ag SEMH difrifol | Gweithdy dylunio a thechnoleg (SEMH difrifol)<br>Ystafell celf a dylunio (SEMH difrifol)<br>Ystafell fwyd uwchradd (SEMH difrifol) | J |
| | Mae'r disgyblion sy'n gallu cerdded a'r rhai nad ydynt yn gallu cerdded yn cyflawni amrywiaeth o dasgau ymarferol; mae rhai'n defnyddio cadeiriau olwyn; e.e. disgyblion ag MLD/SLD ac anabledd corfforol | Ystafell celf a dylunio (ddim yn gallu cerdded)<br>Ystafell fwyd uwchradd (ddim yn gallu cerdded). | J Uchaf |

**Tabl 12**
Gofodau ymarferol cynradd – parthau sy'n berthnasol i anghenion y disgyblion



## Gofodau addysgu perfformio

Gall cerddoriaeth a drama gael eu cynnal mewn ystafell ddosbarth, gofod cerdd neu ddrama arbenigol, neu mewn neuadd. Gellir defnyddio neuadd ar gyfer perfformiadau i gynulleidfaoedd mwy na'r grŵp dosbarth. Dylai fod gan bob ysgol arbennig neu ddarpariaeth amgen ystafell ac iddi amgylchedd acwstig addas i greu cerddoriaeth draddodiadol, cerddoriaeth electronig a, lle bo'n berthnasol, i gynnal therapi cerdd. Mewn rhai ysgolion arbennig bydd y gofod hwn hefyd yn cynnwys TGCh rhyngweithiol, pelydr sain neu fyrddau cyseiniant a ddefnyddir mewn therapi cerdd.

Yn gyffredinol, mae'r parthau ar gyfer ystafelloedd dosbarth yn berthnasol i ystafell gerddoriaeth arbenigol mewn ysgol arbennig neu ddarpariaeth amgen, er y bydd cynllun yr ystafell yn wahanol. Bydd ystafell gerddoriaeth/ddrama gyfun yn fwy er mwyn darparu gofod clir digonol ei faint. Bydd uchder clir o 2.7m-3.5m yn creu cyfaint rhesymol ar gyfer ansawdd sain da a dylai fod yn ddigonol ar gyfer goleuadau llwyfan syml a ffitiadau wedi'u gosod ar y nenfwd.

Gellid darparu ystafell recordio ac iddi ffenestr i'r ystafell gerddoriaeth mewn ysgol uwchradd arbennig neu ddarpariaeth amgen ($10m^2$ i $15m^2$ neu $15m^2$ i $20m^2$ ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn); gweler Ardaloedd Adnoddau Dysgu. Dylai storfa ddiogel ar gyfer offerynnau cerdd a chyfarpar arall fod yn hawdd mynd ati (gweler Storfeydd).

## Addysgu sylfaenol mewn unedau

Mewn uned, bydd yr arwynebedd addysgu sylfaenol yn amrywio yn ôl anghenion y disgyblion a faint o amser y mae'r disgyblion yn ei dreulio yn y brif ysgol, ond dylai pob uned gynnwys ystafelloedd dosbarth ar gyfer (yn nodweddiadol) 6 i 8 disgybl. Gall yr addysgu sylfaenol mewn uned hefyd gynnwys y canlynol:

- gofod ymarferol amlbwrpas ar gyfer gwyddoniaeth a/neu ddylunio a thechnoleg;
- gofod lle gellir addysgu sgiliau bywyd i'r disgyblion; gall hwn fod mewn ystafell fwyd ond mae'n fwy tebygol o fod mewn gofod amlbwrpas a ddefnyddir hefyd ar gyfer dysgu annibynnol, cyfarfodydd ac i fwyta cinio (gweler Ardaloedd Adnoddau Dysgu).

Bydd y parthau argymelledig ar gyfer gofodau addysgu sylfaenol mewn ysgolion arbennig yn berthnasol yn gyffredinol i'r gofodau cyfatebol mewn uned sy'n darparu ar gyfer yr un anghenion.

Dylai fod yna fynediad hawdd i ystafelloedd grŵp bach (sy'n cael eu cynnwys yn y categori Ardaloedd Adnoddau Dysgu) a storfeydd (gweler Storfeydd).

Ni fydd gan ddarpariaeth ag adnoddau arbenigol unrhyw ardal addysgu sylfaenol gan fod y disgyblion yn cael eu gwersi yn y brif ysgol a ddim ond yn dod i'r ddarpariaeth ag adnoddau arbenigol i ddefnyddio Ardaloedd Adnoddau Dysgu, megis ystafell grŵp neu gegin sgiliau bywyd (gweler Ardaloedd Adnoddau Dysgu).

| Parth | Math o ystafell | Lleoliad nodweddiadol | Ystod yr arwynebedd argymelledig ar gyfer grŵp nodweddiadol ei faint | Y maint safonol argymelledig o fewn yr ystod |
|---|---|---|---|---|
| H | Ystafell chwarae meithrin (yn gallu cerdded) | Ysgol arbennig, uned | $49m^2$-$59m^2$ ar gyfer 10 | $55m^2$ |
| J Uchaf | Ystafell chwarae meithrin (ddim yn gallu cerdded) | | $58m^2$-$66m^2$ ar gyfer 6 | $62m^2$ |
| H | Ystafell ddosbarth derbyn (yn gallu cerdded) | | $49m^2$-$59m^2$ ar gyfer 10 | $55m^2$ |
| J Uchaf | Ystafell ddosbarth derbyn (ddim yn gallu cerdded) | | $58m^2$-$66m^2$ ar gyfer 6 | $62m^2$ |
| G Uchaf | Ystafell ddosbarth gynradd (yn gallu cerdded) | | $49m^2$-$56m^2$ ar gyfer 12 | $55m^2$ |
| J Uchaf | Ystafell ddosbarth gynradd (ddim yn gallu cerdded) | | $58m^2$-$66m^2$ ar gyfer 6 | $62m^2$ |
| H | Ystafell ddosbarth gynradd (SEMH difrifol) | | $42m^2$-$52m^2$ ar gyfer 8 | $48m^2$ |
| I | Ystafell ddosbarth gynradd (awtistiaeth ddifrifol) | | $44m^2$-$53m^2$ ar gyfer 6 | $48m^2$ |
| | | | | |
| G | Ystafell ymarferol gynradd (yn gallu cerdded) | Ysgol arbennig (uned o bosibl) | $22m^2$-$29m^2$ ar gyfer 4 | $27m^2$ |
| H | Ystafell ymarferol gynradd ( ddim yn gallu cerdded) | | $23m^2$-$29m^2$ ar gyfer 2 | $27m^2$ |
| G | Ystafell fwyd gynradd (yn gallu cerdded) | | $22m^2$-$29m^2$ ar gyfer 4 | $27m^2$ |
| H | Ystafell fwyd gynradd (ddim yn gallu cerdded) | | $23m^2$-$29m^2$ ar gyfer 2 | $27m^2$ |
| G Uchaf | Ystafell gerddoriaeth gynradd (ddim yn gallu cerdded) | | $49m^2$-$56m^2$ ar gyfer 12 | $55m^2$ |
| J Uchaf | Ystafell gerddoriaeth gynradd (ddim yn gallu cerdded) | | $58m^2$-$66m^2$ ar gyfer 6 | $62m^2$ |
| | | | | |
| F Uchaf | Ystafell ddosbarth gynradd (iechyd) | Darpariaeth amgen | $28m^2$-$33m^2$ ar gyfer 8 | $32m^2$ |
| G Uchaf | Ystafell ddosbarth gynradd (ymddygiad) | | $37m^2$-$42m^2$ ar gyfer 8 | $41m^2$ |

**Tabl 13**
Gofodau addysgu cynradd nodweddiadol (yr ardal addysgu sylfaenol) a pharthau priodol.

| Parth | Math o ystafell | Lleoliad nodweddiadol | Ystod yr arwynebedd argymelledig ar gyfer grŵp nodweddiadol ei faint | Y maint safonol argymelledig o fewn yr ystod |
|---|---|---|---|---|
| G Uchaf | Ystafell ddosbarth uwchradd (yn gallu cerdded) | Ysgol arbennig, uned | 49m$^2$-56m$^2$ ar gyfer 12 | 55m$^2$ |
| J Uchaf | Ystafell ddosbarth uwchradd (ddim yn gallu cerdded) | | 58m$^2$-66m$^2$ ar gyfer 6 | 62m$^2$ |
| H | Ystafell ddosbarth uwchradd (SEMH difrifol) | | 42m$^2$-52m$^2$ ar gyfer 8 | 48m$^2$ |
| H | Ystafell ddosbarth uwchradd (awtistiaeth ddifrifol) | | 44m$^2$-53m$^2$ ar gyfer 6 | 48m$^2$ |
| H | Stiwdio wyddoniaeth (yn gallu cerdded) | Ysgol arbennig (uned o bosibl) | 56m$^2$-66m$^2$ ar gyfer 12 | 62m$^2$ |
| I | Stiwdio wyddoniaeth (SEMH difrifol) | | 52m$^2$-62m$^2$ ar gyfer 8 | 58m$^2$ |
| H | Ystafell gelf (yn gallu cerdded) | | 56m$^2$-66m$^2$ ar gyfer 12 | 62m$^2$ |
| I | Ystafell gelf (SEMH difrifol) | | 52m$^2$-62m$^2$ ar gyfer 8 | 58m$^2$ |
| I Uchaf | Ystafell fwyd uwchradd (yn gallu cerdded) | | 72m$^2$-78m$^2$ ar gyfer 12 | 76m$^2$ |
| J Uchaf | Ystafell fwyd uwchradd (ddim yn gallu cerdded) | | 58m$^2$-66m$^2$ ar gyfer 6 | 62m$^2$ |
| J | Ystafell fwyd uwchradd (SEMH difrifol) | | 62m$^2$-75m$^2$ ar gyfer 8 | 62m$^2$ |
| J Uchaf | Ystafell ymarferol amlbwrpas (ddim yn gallu cerdded) | | 58m$^2$-66m$^2$ ar gyfer 6 | 62m$^2$ |
| I Uchaf | Gweithdy dylunio a thechnoleg (yn gallu cerdded) | Ysgol arbennig | 72m$^2$-78m$^2$ ar gyfer 12 | 76m$^2$ |
| J Uchaf | Gweithdy dylunio a thechnoleg (SEMH difrifol) | | 62m$^2$-75m$^2$ ar gyfer 8 | 69m$^2$ |
| F Uchaf | Ystafell ddosbarth uwchradd (iechyd) | Darpariaeth amgen | 28m$^2$-33m$^2$ ar gyfer 8 | 32m$^2$ |
| G Uchaf | Ystafell ddosbarth uwchradd (ymddygiad) | | 37m$^2$-42m$^2$ ar gyfer 8 | 41m$^2$ |
| G Uchaf | Ystafell gelf (iechyd) | | 37m$^2$-42m$^2$ ar gyfer 8 | 41m$^2$ |
| H | Ystafell gelf (ymddygiad) | | 42m$^2$-52m$^2$ ar gyfer 8 | 41m$^2$ |
| G Uchaf | Stiwdio wyddoniaeth (iechyd) | | 37m$^2$-42m$^2$ ar gyfer 8 | 41m$^2$ |
| H | Stiwdio wyddoniaeth (ymddygiad) | | 42m$^2$-52m$^2$ ar gyfer 8 | 48m$^2$ |
| H | Ystafell fwyd uwchradd (iechyd) | | 42m$^2$-52m$^2$ ar gyfer 8 | 48m$^2$ |
| I | Ystafell fwyd uwchradd (ymddygiad) | | 52m$^2$-62m$^2$ ar gyfer 8 | 58m$^2$ |
| H | Gweithdy dylunio a thechnoleg (iechyd) | | 42m$^2$-52m$^2$ ar gyfer 8 | 48m$^2$ |
| I | Gweithdy dylunio a thechnoleg (ymddygiad) | | 52m$^2$-62m$^2$ ar gyfer 8 | 58m$^2$ |

**Tabl 14**
Ystafell chwarae meithrin (yn gallu cerdded)

## Neuaddau, addysg gorfforol, bwyta a chymdeithasu

Mae'r categori hwn, gan mwyaf, yn cynnwys gofodau mawr ar gyfer addysg gorfforol a pherfformio, yn ogystal ag ar gyfer bwyta a gweithgareddau cymdeithasol (gweler Atodiad 1 ar gyfer parthau'r ardaloedd argymelledig).

Gall bwyta ar y cyd fod yn achlysur pwysig i ddisgyblion ag anawsterau dysgu, yn ogystal â disgyblion ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol, gan ei fod yn eu helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac yn hybu annibyniaeth. I rai gall hefyd fod yn adeg llawn straen, ac mewn rhai lleoliadau efallai y bydd ar rai disgyblion angen preifatrwydd – er enghraifft disgyblion ag awtistiaeth ddifrifol neu ddisgyblion sy'n cael anhawster bwyta. Lle bo hyn yn wir, bydd yn ofynnol cael ardal amgaeedig yn yr ystafell fwyta (lle bo un), ac efallai y byddai'n well gan rai disgyblion fwyta yn eu dosbarth neu mewn ardal adnoddau dysgu. Mae'r opsiwn i fynd allan yn yr haf yn fantais. Mae'n bosibl y bydd angen bwydo rhai disgyblion mewn ysgolion arbennig neu unedau (neu hyd yn oed mewn darpariaeth amgen) trwy diwb; bydd yn ofynnol paratoi'r bwyd dan amodau hylan lle bo cyfleusterau sterileiddio ar gael, er enghraifft mewn ystafell feddygol neu yn ystafell y nyrs (gweler Staff a gweinyddu).

Lle darperir ystafell fwyta bwrpasol, dylai fod ynddi:

- fyrddau a chadeiriau ar gyfer y nifer o leoedd (neu fannau bwyta) a gofod i fynd atynt;
- gofod rhesymol i ddisgyblion giwio hyd at, ac o flaen, y cownter arlwyo a mynd heibio cyfleusterau'r ddesg dalu (lle bo'r disgyblion yn gweini arnynt eu hunain, weithiau ffefrir 'gwasanaeth teulu', lle gwasanaethir ar y disgyblion ar fyrddau a rennir);
- ardaloedd clirio a gwaredu gwastraff.

Mae'r prif gownter arlwyo yn rhan o'r dyraniad ar gyfer arwynebedd y gegin fasnachol, a dylai fod yn ymyl yr ardal fwyta a ddefnyddir ar gyfer ciniawau poeth.

## Neuaddau, addysg gorfforol, bwyta a chymdeithasu mewn ysgolion arbennig

Gall yr arwynebedd lleiaf argymelledig ar gyfer y categori neuaddau, addysg gorfforol, bwyta a chymdeithasol (gweler Atodiad 1) gael ei rannu mewn ffyrdd gwahanol i weddu i anghenion y disgyblion. Ond dylai pob ysgol arbennig gynnwys y canlynol mewn un neu ragor o ofodau:

- gwasanaethau (ar gyfer yr ysgol gyfan mewn ysgolion arbennig bach ond cyfnodau allweddol mewn ysgolion mwy), arholiadau (lle bônt yn berthnasol), perfformiadau cyhoeddus, nosweithiau rhieni a digwyddiadau cymunedol;
- bwyta;
- addysg gorfforol/symudiad.

Bydd gan y mwyafrif o ysgolion arbennig sy'n rhai cynradd yn unig un gofod amlbwrpas ar gyfer gwasanaethau, addysg gorfforol a bwyta, tebyg i'r hyn a geir mewn ysgol gynradd brif ffrwd. Os yw'r garfan disgyblion yn golygu mai yn anaml y caiff gemau tîm eu chwarae a bod y disgyblion yn teimlo'n anghyfforddus yn bwyta mewn grŵp mawr, gellid rhannu'r un ardal yn ddau ofod llai, un ar gyfer bwyta ac un ar gyfer addysg gorfforol/symudiad a gwasanaethau; gallai hyn fod yn digwydd mewn ysgol sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth ddifrifol yn unig.

Fel arfer, bydd gan ysgolion arbennig lle bo'r disgyblion yn gallu cerdded ddau ofod mawr: naill ai un gofod ar gyfer gwasanaethau, addysg gorfforol a pherfformio ac un gofod ar gyfer bwyta; neu un gofod ar gyfer addysg gorfforol ac un gofod ar gyfer gwasanaethau, bwyta a pherfformio. Byddai'r arwynebedd lleiaf argymelledig yn caniatáu i ysgol fod â neuadd sydd o leiaf yn 100m$^2$, ac ail ofod ar gyfer bwyta mewn dau eisteddiad.

Bydd gan ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion uwchradd nad ydynt yn gallu cerdded naill ai un gofod amlbwrpas neu ddau ofod llai (un gofod ar gyfer gwasanaethau, addysg gorfforol a pherfformio ac un gofod ar gyfer bwyta). Mae un gofod mwy yn sicrhau rhagor o ofod i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn ystod amser cinio, ac mae hefyd yn darparu ar gyfer gweithgareddau ar adegau eraill lle bo mwy o ofod yn ofynnol, megis trampolinio a phêl-droed.

Os darperir gofod amlbwrpas, bydd yn ofynnol dylunio'r acwsteg i weddu i ystod ehangach o weithgareddau, a bydd angen clirio'r dodrefn o'r neuadd ar ôl amser cinio. Os oes dau ofod ar gael, gallai rhywfaint o giniawau gael eu gweini yn y neuadd, gan adael y gofod bwyta ar gyfer y disgyblion hynny y mae arnynt angen y cymorth mwyaf a'r amser hiraf. Bydd gofyn i uchder nenfwd gofod ar gyfer addysg gorfforol fod o leiaf yn 4.5m, neu'n 5m lle bo trampolinio'n digwydd.

Bydd gan ysgolion arbennig gyda chweched dosbarth hefyd ofod cymdeithasol i'r chweched dosbarth, a gall hwn gael ei ddefnyddio ar gyfer bwyta (y prydau'n cael eu cludo o'r prif gownter arlwyo neu'n cael eu gwneud yn ymyl mewn cegin fach), yn ogystal ag ar gyfer hyfforddiant sgiliau bywyd. Gellir defnyddio'r arwynebeddau argymelledig ar gyfer ystafelloedd dosbarth yn ganllaw (gweler ffigur 17/18); dylid sicrhau bod 50% o'r disgyblion yn gallu bod yn yr ystafell ar unrhyw un adeg.

## Bwyta mewn ysgolion arbennig

Dylai cyfanswm arwynebedd y gofodau a ddefnyddir ar gyfer bwyta ddarparu 1.3m$^2$ fesul le ar gyfer disgyblion sy'n gallu cerdded a 3m$^2$ i 4m$^2$ fesul lle i ddisgyblion nad ydynt yn gallu cerdded. Mae cyfanswm yr arwynebeddau argymelledig ar gyfer neuaddau, addysg gorfforol, bwyta a chymdeithasu yn seiliedig ar ddau eisteddiad ar gyfer disgyblion sy'n gallu cerdded ac un eisteddiad ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded; mae'n bosibl na fydd sawl eisteddiad yn ymarferol mewn rhai ysgolion arbennig.

Wrth gyfrifo'r anghenion o ran arwynebedd, rhaid rhoi ystyriaeth i'r amser a gymerir i fwyta, yn enwedig pan fo ar ddisgyblion angen lefel uchel o gymorth. Er mwyn darparu amgylchedd priodol ar gyfer disgyblion iau, mae ysgolion arbennig ac ynddynt ddisgyblion cynradd ac uwchradd naill ai'n gweinio cinio am yn ail neu'n defnyddio dau ofod ar gyfer bwyta.

Mewn rhai ysgolion arbennig, bydd y staff yn gweini ar y disgyblion ac yn eu helpu yn ystod y pryd bwyd, felly mae'n hanfodol pennu faint o staff sy'n debygol o fod yn bresennol a'u cynnwys yn y cyfrifiadau ar gyfer arwynebeddau. Rhaid hefyd sicrhau digon o ofod er mwyn i ddisgyblion sy'n defnyddio cymhorthion symudedd allu symud yn ddiogel rhwng byrddau, ac fel y gall y rhai sydd ar orsafoedd dysgu llorweddol gael eu cynnwys.

## Neuaddau, addysg gorfforol, bwyta a chymdeithasu mewn darpariaeth amgen

Fel arfer, bydd gan ddarpariaeth amgen ofod amlbwrpas ar gyfer gwasanaethau, addysg gorfforol a bwyta. Bydd yr arwynebedd lleiaf argymelledig ar gyfer y categori hwn yn darparu dau eisteddiad cinio; byddai angen clirio'r byrddau.

Yr eithriad i hyn yw pan nad oes digon o ofod awyr agored ar gael mewn darpariaeth amgen sy'n cynnwys disgyblion oed uwchradd ag anawsterau ymddygiadol. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'r arwynebedd lleiaf argymelledig ar gyfer y categori hwn yn uwch (120 + 0.6Nm$^2$) oherwydd bod ar ddisgyblion ag anawsterau ymddygiadol angen mwy o weithgarwch corfforol fel arfer. Mae'r arwynebedd hwn yn darparu ar gyfer gwasanaethau/gofod addysg gorfforol ar gyfer gweithgareddau corfforol megis tennis bwrdd neu ffitrwydd, a gofod i fwyta mewn dau eisteddiad. Dull arall ar safle cyfyngedig yw defnyddio gofodau chwaraeon mewn ysgol gyfagos neu ganolfan chwaraeon gymunedol, ar yr amod ei bod yn ddiogel mynd yno, a bod effaith yr amser teithio ar weddill y cwricwlwm cyn lleied â phosibl.

## Bwyta mewn darpariaeth amgen

Dylai cyfanswm arwynebedd y gofodau a ddefnyddir ar gyfer bwyta mewn darpariaeth amgen ddarparu o leiaf 0.9m$^2$ fesul lle. Dylai nifer y lleoedd fod yn seiliedig ar nifer y disgyblion y rhagwelir y byddant yn bwyta cinio yn y neuadd, wedi'i rannu â nifer yr 'eisteddiadau' neu elfen gyfatebol (os yw'r llif yn barhaus) yn ystod yr egwyl ginio.

Rhaid ystyried yr amser a gymerir i fwyta wrth gyfrifo anghenion yr arwynebedd. Mae'n bwysig nodi mai dim ond os yw'r amser cinio sydd ar gael o leiaf yn awr o hyd y bydd yr arwynebedd bwyta argymelledig yn ddigonol. Gellir cyflawni hyn trwy gael un egwyl ginio i bob disgybl neu drwy gael egwyl ginio am yn ail, lle bo rhai disgyblion yn gweithio tra bo eraill yn bwyta.

## Bwyta a chymdeithasu mewn darpariaeth ag adnoddau arbenigol ac unedau

Nid yw gofodau ar gyfer addysg gorfforol a gwasanaethau neu ofod bwyta pwrpasol yn ofynnol mewn darpariaeth ag adnoddau arbenigol neu uned, a hynny am y bydd prif ofodau'r ysgol yn cael eu defnyddio lle bo angen. Fodd bynnag, dylai fod lle ar gael i'r disgyblion hynny nad ydynt yn gallu bwyta ym mhrif ofod bwyta'r ysgol (gall hyn olygu hyd at 50% o'r disgyblion). Dylid darparu arwynebedd rhwng 0.9m$^2$ ac 1.3m$^2$ fesul lle ar gyfer disgyblion sy'n gallu cerdded, yn dibynnu ar anghenion y disgyblion hynny, neu rhwng 3m$^2$ a 4m$^2$ fesul lle ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded. Ni fydd hwn yn ofod pwrpasol; caiff ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau eraill megis dysgu annibynnol, cyfarfodydd neu ddysgu sgiliau bywyd. Gweler Ardaloedd Adnoddau Dysgu.



## Ardaloedd Adnoddau Dysgu

Mae Ardaloedd Adnoddau Dysgu yn ofodau heb eu hamserlennu sy'n arbennig o bwysig i ysgolion arbennig, darpariaethau amgen, darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau oherwydd swm y dysgu unigol a'r cymorth therapiwtig sy'n ofynnol ar y disgyblion. Ar gyfer parthau'r arwynebeddau argymelledig gweler Atodiad 1.

### Ardaloedd Adnoddau Dysgu mewn ysgolion arbennig

Dylai cyfanswm yr arwynebedd ar gyfer ardal adnoddau dysgu mewn unrhyw ysgol arbennig gynnwys, er enghraifft, y canlynol:

- o leiaf un ystafell grŵp bach ar gyfer pob tair ystafell ddosbarth (un fesul ystafell ddosbarth ar gyfer awtistiaeth ddifrifol) i ddarparu cyfleusterau tawel ar wahân i'r ystafell ddosbarth i ddisgybl gael 'seibiant' neu i weithio gyda chynorthwyydd addysgu, athro peripatetig neu gwnselydd (parth B yn achos mwyafrif y disgyblion sy'n gallu cerdded, parth C yn achos disgyblion y mae arnynt angen mwy o ofod personol, parth F ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded);
- o leiaf un llyfrgell nad yw cyfanswm ei harwynebedd yn llai na 10m$^2$ ynghyd â 0.2m$^2$ ar gyfer pob lle disgybl (neu'r arwynebedd cyfatebol wedi'i ychwanegu at ystafelloedd dosbarth os yw darpariaeth wasgaredig yn fwy priodol);
- o leiaf un gofod therapi ar gyfer therapyddion sy'n ymweld â disgyblion ac i gyflawni tasgau gweinyddol; 12m$^2$ ar gyfer disgyblion sy'n gallu cerdded, 15m$^2$ ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu cerdded;
- o leiaf un ystafell synhwyraidd ar gyfer therapi golau a sain sy'n defnyddio cyfarpar arbenigol, ac ynddi le i ddim llai nag un disgybl ac un oedolyn (ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded ond yn dibynnu ar gyfarpar a dull yr ysgol); lle bo yna ddwy ystafell synhwyraidd, gall un fod yn ystafell 'dywyll' draddodiadol ar gyfer gwaith un-i-un, ac un yn ystafell 'drochi' fwy ar gyfer grwpiau bach.

Dylai gofodau ychwanegol i weddu i anghenion penodol disgyblion gynnwys:

- yn achos pob ysgol arbennig gyda disgyblion sy'n gallu cerdded, un ystafell dawel/ymdawelu fesul cyfnod allweddol lle gall un disgybl gael 'seibiant' (ar gyfer disgyblion y gallai fod arnynt angen mwy o ofod o'u cwmpas); mae'n well gan rai ysgolion 'fae'
  yn agos at neu yn ymyl yr ystafell ddosbarth yn hytrach nag ystafell gaeedig;
- ar gyfer pob ysgol arbennig a chanddi ddisgyblion oed cynradd, ystafell chwarae meddal ar gyfer therapi symudiad ar arwynebau clustogog (bydd y maint yn dibynnu ar y math o gyfarpar ond, yn nodweddiadol, bydd yn 20m$^2$ i 25m$^2$);
- ar gyfer pob ysgol arbennig a chanddi ddisgyblion nad ydynt yn gallu cerdded, ystafell ffisiotherapi (25m$^2$ i 30m$^2$) a phwll hydrotherapi (85m$^2$); gweler isod.

Gallai gofodau ychwanegol gynnwys:

- cegin sgiliau bywyd ar gyfer dysgu coginio, golchi, ac ati mewn amgylchedd domestig;
- ystafell chwarae meddal mewn darpariaeth uwchradd;
- ystafelloedd therapi ychwanegol at ddefnydd asiantaethau allanol megis therapyddion galwedigaethol, therapyddion lleferydd neu staff nyrsio (mae rhai ystafelloedd therapi hefyd yn gwasanaethu ysgolion eraill);
- ystafell grŵp i gefnogi grŵp ag anghenion penodol;
- gofodau cymorth ar gyfer ystafelloedd addysgu sylfaenol, megis ystafell odyn neu ystafell recordio (lle bo'r briff yn gofyn am hynny).

## Ffisiotherapi

Er bod rhywfaint o ffisiotherapi yn digwydd yn yr ystafell ddosbarth, dylai pob ysgol arbennig ar gyfer disgyblion ag anabledd corfforol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog feddu ar ystafell ffisiotherapi â chyfarpar llawn, lle mae staff yr ysgol a therapyddion sy'n ymweld yn trin disgyblion. Dylai fod ynddi soffa, basn golchi dwylo clinigol, teclyn codi ffrâm H wedi'i osod ar y nenfwd, ac ardal newid ac iddi len neu sgrin.

## Pwll hydrotherapi

Defnyddir hydrotherapi'n bennaf i drin disgyblion ag anableddau corfforol a/neu synhwyraidd, ac iddynt allu gwneud ymarfer corff. Caiff y therapi ei gyflawni mewn grŵp bach neu fesul un, a hynny gyda ffisiotherapydd neu oedolyn arall, a chânt eu goruchwylio gan oedolyn nad yw yn y dŵr. Mae pwll dŵr cynnes yn fwy o faint na phwll hydrotherapi ac mae tymheredd y dŵr ynddo yn wahanol, ond mae'n rhatach i'w adeiladu a'i redeg, a gall fod yn addas ar gyfer hydrotherapi, yn ogystal â gweithgareddau hamdden grwpiau ysgol. Os oes pwll gerllaw y gellir mynd â'r disgyblion iddo, er enghraifft mewn ysgol arbennig wedi'i chydleoli, gellir hepgor y ddarpariaeth a gellir lleihau'r arwynebedd yn unol â hynny.

Bydd ystafelloedd hydrotherapi nodweddiadol yn cynnwys:


- pwll 24m$^2$ gyda godre sydd o leiaf yn 2m i 2.5m o led (i sicrhau symudiad diogel) a theclyn codi;
- ardaloedd newid gwlyb gyda mynediad uniongyrchol i'r pwll trwy gyfrwng teclyn codi (gweler Arwynebedd nad yw'n net);
- ardal newid i staff;
- gofod pontio i ddisgyblion addasu i'r gwahaniaeth mewn tymheredd rhwng y pwll a gweddill yr ysgol; gall hwn fod yn rhan o'r ardal newid.

## Ardaloedd Adnoddau Dysgu mewn darpariaeth amgen

Dylai cyfanswm yr arwynebedd ar gyfer ardal adnoddau dysgu mewn unrhyw ddarpariaeth amgen gynnwys:

- o leiaf un ystafell grŵp bach ar gyfer pob pâr o ystafelloedd dosbarth i ddarparu cyfleusterau tawel, ar wahân, i ffwrdd oddi wrth yr ystafell ddosbarth fel y gall nifer bach o ddisgyblion weithio gyda chynorthwyydd addysgu, athro peripatetig neu gwnselydd, neu i gael amser tawel/ymdawelu (parth B, fel arfer yn 10m$^2$ ar gyfer hyd at bedwar disgybl);
- o leiaf un gofod therapi ar gyfer therapyddion sy'n ymweld â disgyblion; gall hefyd gael ei ddefnyddio fel swyddfa (tua 12m$^2$).

**Ffigur 18:** Parthau ar gyfer Mannau Addysgu Sylfaenol



## Ardaloedd Adnoddau Dysgu mewn darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau

Dylai cyfanswm arwynebedd yr adnoddau dysgu mewn unrhyw ddarpariaeth ag adnoddau arbenigol neu uned gynnwys gofod therapi lle bydd y disgyblion yn cael cymorth perthnasol i'w hanghenion, er enghraifft gwiriadau cymorth clyw ar gyfer disgyblion ag amhariad ar y clyw neu ffisiotherapi ar gyfer disgyblion ag anabledd corfforol. Bydd mwyafrif y darpariaethau ag adnoddau arbenigol a'r unedau hefyd yn cynnwys o leiaf un ystafell grŵp bach ar gyfer dysgu un-i-un, amser tawel unigol a gwaith mewn grwpiau bach. Bydd yna fel arfer un ystafell grŵp bach ar gyfer pob 2 i 3 ystafell ddosbarth ond un ym mhob ystafell ddosbarth ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth.

Lle bo yno ddisgyblion ag awtistiaeth, dylai fod gan unrhyw ddarpariaeth ag adnoddau arbenigol neu uned hefyd (yn ogystal â'r ystafelloedd therapi a grwpiau bach):

- un ystafell dawel/ymdawelu neu ystafell synhwyraidd;
- gofod iddynt gael cinio yn achos disgyblion sy'n teimlo'n anghyfforddus yn defnyddio prif ystafell fwyta'r ysgol; nid gofod pwrpasol mo hwn gan y caiff ei ddefnyddio ar gyfer dysgu a chyfarfodydd.

Lle bo gan ddisgyblion anabledd corfforol neu amhariad ar y golwg, dylai fod gan unrhyw ddarpariaeth ag adnoddau arbenigol neu uned hefyd (yn ogystal â'r ystafelloedd therapi a grwpiau bach):

- ystafell sgiliau bywyd ar gyfer therapi galwedigaethol, a lle gall y disgyblion ag anabledd corfforol fwyta/gael eu bwydo os oes arnynt angen preifatrwydd (25m$^2$ fel arfer ar gyfer dau ddisgybl).

Yn ogystal â'r uchod, bydd gan y rhan fwyaf o ddarpariaethau ag adnoddau arbenigol un ystafell grŵp ar gyfer pob grŵp dosbarth cymorth, a hynny gan gymryd na fydd mwy na 75% o'r disgyblion yn y ddarpariaeth ar unrhyw adeg benodol (parth F ar gyfer disgyblion sy'n gallu cerdded a pharth H ar gyfer disgyblion ag anabledd corfforol). Bydd union natur yr ystafell grŵp yn amrywio yn ôl anghenion y disgyblion. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd yna un ystafell grŵp yn darparu lle i 20 o ddisgyblion ag amhariad ar y golwg allu gweithio gyda'u cyfarpar TG arbenigol, neu gall fod nifer o ystafelloedd grŵp ar gael i ddisgyblion ag amhariad ar y clyw, lle cânt gymorth addysgu mewn grwpiau o 6 i 12. Bydd gan uned ystafelloedd dosbarth (gweler Addysgu sylfaenol) ond mae'n bosibl y bydd ganddi ystafelloedd grŵp hefyd.

Nodwch: Nid yw ystafelloedd grŵp nac ystafelloedd grŵp bach bob amser mewn cyfres; gallant fod wedi'u gwasgaru o gwmpas yr ysgol. Mae'n bosibl y bydd rhai ysgolion yn dewis ychwanegu'r arwynebedd cyfatebol at rai o ystafelloedd dosbarth y brif ysgol. Fodd bynnag, bydd yna fel arfer leoliad sefydlog i ddisgyblion yn y ddarpariaeth ag adnoddau arbenigol neu'r uned.

Mae Tabl 15 yn dangos y mathau mwyaf cyffredin o ofod yn y categori Ardaloedd Adnoddau Dysgu, a'u maint safonol argymelledig yn eu trefn, lle bo hynny'n berthnasol.

| Parth | Math o ystafell | Lleoliad nodweddiadol | Maint safonol argymelledig |
|---|---|---|---|
| B | Ystafell grŵp bach (yn gallu cerdded) | ysgol arbennig, SRP, uned, darpariaeth amgen | 10m$^2$ ar gyfer 4 |
| C | Ystafell grŵp bach (SEMH difrifol) | | 7m$^2$ ar gyfer 1 |
| F | Ystafell grŵp bach (ddim yn gallu cerdded) | | 12m$^2$ ar gyfer 2 |
| D | Ystafell dawel/ymdawelu (awtistiaeth ddifrifol) | | 8m$^2$ ar gyfer 1 |
| D | Ystafell therapi (yn gallu cerdded) | | 12m$^2$ ar gyfer 4 |
| F | Ystafell therapi (ddim yn gallu cerdded) | | 15m$^2$ |
| | | | |
| F | Ystafell synhwyraidd (yn gallu cerdded) | ysgol arbennig, SRP, uned | 13m$^2$-16m$^2$ |
| G | Ystafell synhwyraidd (ddim yn gallu cerdded) | | 16m$^2$-23m$^2$ |
| F | Ystafell sgiliau bywyd (yn gallu cerdded) | | 18m$^2$ ar gyfer 3 |
| H | Ystafell sgiliau bywyd (ddim yn gallu cerdded) | | 25m$^2$ ar gyfer 2 |
| | | | |
| N/A | Llyfrgell (yn gallu cerdded) | Ysgol arbennig | yn amrywio |
| N/A | Llyfrgell (ddim yn gallu cerdded) | | yn amrywio |
| N/A | Ystafell chwarae meddal (yn gallu cerdded/ddim yn gallu cerdded) | | 20m$^2$-25m$^2$ |
| N/A | Ystafell ffisiotherapi (ddim yn gallu cerdded) | | 25m$^2$-30m$^2$ |
| N/A | Ystafell hydrotherapi (yn gallu cerdded/ddim yn gallu cerdded) | | 85m$^2$ (24m$^2$ pŵll) |
| | | | |
| F | Ystafell grŵp (yn gallu cerdded) | SRP | 27m$^2$ ar gyfer 6 |
| G | Ystafell grŵp (awtistiaeth) | | 34m$^2$ ar gyfer 6 |
| G | Ystafell grŵp (VI) | | 48m$^2$ ar gyfer 10 |
| H | Ystafell grŵp (anabledd corfforol) | | 41m$^2$ ar gyfer 6 |

**Tabl 15**
Ardaloedd Adnoddau Dysgu mewn SRP ac uned

## Staff a gweinyddu

Mae cyfanswm yr arwynebedd ar gyfer staff a gweinyddu yn cynnwys mwyafrif yr ardaloedd nad ydynt yn rhai addysgu yn yr arwynebedd net ac eithrio storfeydd (ar gyfer yr arwynebeddau argymelledig gweler Atodiad 1).

### Staff a gweinyddu mewn ysgolion arbennig a darpariaethau amgen

Dylai cyfanswm yr arwynebedd ar gyfer staff a gweinyddu mewn ysgol arbennig neu ddarpariaeth amgen gynnwys:

- swyddfa gyffredinol ar gyfer staff gweinyddol a chanddi storfa ar gyfer cofnodion cyfrinachol mewn dodrefn, gosodiadau a chyfarpar, desg derbynfa yn y dderbynfa, a'r dewis o ail ddesg derbynfa mewn rhan o'r ysgol sy'n agored i'r disgyblion;
- ardal derbynfa ddiogel i ymwelwyr, gyda mynediad i weddill yr ysgol yn cael ei reoli gan staff y swyddfa (mae'r arwynebedd net hwn yn un ar gyfer seddi ac arddangosfeydd, ac yn ychwanegol at y gofod cylchredeg trwy ofod y fynedfa/dderbynfa);
- ystafell cyf-weld, y gellir ei chyrraedd yn ddelfrydol o'r cyntedd neu'r dderbynfa, ynghyd â thoiled hygyrch i ymwelwyr fel nad oes
- yn rhaid iddynt ddod i mewn i'r brif ysgol;
- swyddfa pennaeth tua 15m$^2$;
- ystafell gyfarfod/hyfforddiant ar gyfer cyfarfodydd achos, hyfforddiant staff, ac ati;
- ystafell rhieni, y gellid hefyd ei defnyddio fel ail ystafell gyfarfod;
- gofod paratoi a chymdeithasu ar gyfer staff addysgu, fel arfer ar ffurf ystafell staff ganolog at ddefnydd gwaith a chymdeithasu, ac sy'n cynnwys cegin fach.

A gallai hefyd gynnwys:

- swyddfeydd ar gyfer uwch-staff addysgu eraill, megis y dirprwy bennaeth neu'r bwrsar, y gallai fod arnynt angen preifatrwydd ar gyfer cyfweliadau a chymorth bugeiliol (ysgolion arbennig a darpariaethau amgen mwy);
- swyddfa ar gyfer therapyddion sy'n ymweld, a ddarperir fel arfer mewn ysgolion arbennig;
- cyfleusterau reprograffeg ar wahân os nad ydynt yn y swyddfa gyffredinol neu yn ystafell y staff;
- swyddfa/gweithdy ar gyfer rheolwr cyfleusterau neu ofalwr, a ddarperir yn nodweddiadol ymhob ysgol arbennig ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded;
- swyddfa/gweithdy ar gyfer technegydd TGCh.

Hefyd, dylai cyfanswm yr arwynebedd ar gyfer staff a gweinyddu mewn ysgol arbennig neu ddarpariaeth amgen gynnwys cyfleusterau ar gyfer archwiliadau a thriniaethau meddygol, ac i ofalu am ddisgyblion sâl ac anafedig yn y byrdymor. Bydd y rhain fel arfer yn cynnwys naill ai:

- clafdy neu ystafell y claf ar gyfer disgyblion sy'n aros i gael eu casglu, a hynny'n agos at y brif swyddfa, ynghyd â thoiled, gan gynnwys cyfleuster golchi; ac
- ystafell triniaethau meddygol (15m$^2$ i 20m$^2$) i drin disgyblion a gofalu amdanynt, ac ynddi oergell y gellir ei chloi a mynediad hawdd i doiled hygyrch;

neu (er enghraifft lle bo gan ddisgyblion anawsterau dysgu dwys a lluosog):

- ystafell triniaethau meddygol (15m$^2$ i 20m$^2$) i drin disgyblion a gofalu amdanynt, ond sydd hefyd yn gweithredu fel ystafell y claf, ac ynddi oergell y gellir ei chloi a mynediad hawdd i doiled hygyrch;
- ystafell y nyrs (sydd fel arfer yn gysylltiedig â'r ystafell triniaethau) i baratoi bwyd ar gyfer tiwb gastrostomi, ynghyd â basn golchi dwylo (a storfa ddiogel ar gyfer cyffuriau, os cânt eu dosbarthu o'r fan hon).

Lle bo yno ddisgyblion nad ydynt yn gallu cerdded, dylai fod gan yr ystafelloedd meddygol declyn codi ffrâm H wedi'i osod ar y nenfwd.

## Staff a gweinyddu mewn darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau

Dim ond ystafell waith y staff (parth D) sy'n ofynnol ar ddarpariaethau ag adnoddau arbenigol neu unedau, ac mewn lleoliadau mwy gallai fod ynddynt swyddfa staff hefyd (parth C). Lle bo gofyn i ddisgyblion (megis y rhai ag amhariad ar y golwg) gael cymorth technegol sylweddol, defnyddir ystafell waith y staff i gynnal a chadw cyfarpar a chreu adnoddau arbenigol. Gan fod darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau yn lleoliadau bach, rhaid defnyddio pob gofod yn effeithiol.

Er enghraifft, mae ystafell waith y staff yn debygol o gael ei defnyddio hefyd gan therapyddion sy'n ymweld. Gan y bydd staff yn y ddarpariaeth ag adnoddau arbenigol neu'r uned hefyd yn defnyddio cyfleusterau staff yn y brif ysgol, mae'n bwysig eu hystyried wrth gyfrifo arwynebeddau ar gyfer safle'r ysgol gyfan.

Mae Tabl 16 yn dangos y mathau mwyaf cyffredin o ofod yn yr ardal staff a gweinyddu a'u maint safonol argymelledig.

| Parth | Math o ystafell | Lleoliad nodweddiadol | Maint safonol argymelledig |
|---|---|---|---|
| C | Swyddfa (yn unig): ar gyfer un neu fwy o aelodau staff, gyda storfa weinyddol | Ysgol arbennig, darpariaeth amgen, SRP, uned | $7m^2$ ar gyfer 1, $9m^2$ ar gyfer 2 |
| D | Ystafell waith y staff: gofod i staff weithio a chyfarfod ynddo | | yn amrywio |
| | | | |
| A | Ystafell cyf-weld: ger y dderbynfa er mwyn cwrdd ag ymwelydd/ymwelwyr heb iddynt orfod mynd i mewn i'r brif ysgol | | $6m^2$ ar gyfer 3 |
| Amh | Clafdy: bae lled-agored i ddisgyblion sy'n teimlo'n sâl | | $4m^2$ |
| Amh | Ystafell y claf: ystafell gaeedig ar gyfer disgyblion sy'n teimlo'n sâl | | $6m^2$ |
| K | Swyddfa gyffredinol: prif swyddfa ar gyfer staff gweinyddol, gyda desg derbynfa i ymwelwyr ger y fynedfa/dderbynfa | | yn amrywio |
| D | Swyddfa'r pennaeth (ystafell gyfarfod): swyddfa'r pennaeth ac ar gyfer cyfarfodydd â staff, ymwelwyr neu oedolion eraill | | $15m^2$ far gyfer y pennaeth a phedwar ymwelydd |
| E | Swyddfa/gweithdy: ar gyfer y rheolwr cyfleusterau neu TGCh | | yn amrywio |
| B | Ystafell staff (cymdeithasu): y prif ofod i staff gwrdd a chymdeithasu | | yn amrywio |
| C | Ystafell staff (paratoi a chymdeithasu): y prif ofod i staff weithio, cwrdd a chymdeithasu | | yn amrywio |
| C | Ystafell gyfarfod/hyfforddiant: ar gyfer cyfarfodydd staff, i gwrdd ag asiantaethau allanol a rhieni (yn enwedig mewn cyfarfodydd adolygu), ac ar gyfer hyfforddiant staff | | yn amrywio |
| C | Ystafell rhieni: ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol | | yn amrywio |
| Amh | Ystafell triniaethau meddygol: i drin disgyblion a gofalu amdanynt | | $15m^2$-$20m^2$ |
| | | | |
| Amh | Ystafell y nyrs: i ofalu am ddisgyblion ac ar gyfer tasgau gweinyddol | Ysgol arbennig | $15m^2$-$20m^2$ |

**Tabl 16**
Staff a gweinyddu mewn darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau

## Storfeydd

Mae cyfanswm yr arwynebedd storio ar gyfer pob lleoliad yn cynnwys storfa ar gyfer deunyddiau a chyfarpar addysgu a gwaith y disgyblion. Mae'n bwysig darparu storfa addysgu ddiffiniedig i osgoi amharu ar yr arwynebedd y gellir ei ddefnyddio a hyblygrwydd y gofodau addysgu. Mae cyfanswm yr arwynebedd storio hefyd yn cynnwys storfa nad yw'n un addysgu ar gyfer eiddo disgyblion, adnoddau gweinyddol, cofnodion disgyblion a chyfarpar glanhau a chynnal a chadw. Bydd yna storfa hefyd ar gyfer cyfarpar symudedd, a all fod yn helaeth mewn ysgol lle nad yw'r disgyblion yn gallu cerdded. Ar gyfer cyfanswm argymelledig yr arwynebedd storio, gweler Atodiad 1.

## Storfeydd mewn ysgolion arbennig a darpariaethau amgen

### Storfeydd addysgu

Dylai cyfanswm arwynebedd y storfeydd mewn unrhyw ysgol arbennig neu ddarpariaeth amgen gynnwys y storfeydd addysgu a ganlyn (yn ychwanegol at yr hyn a ddarperir mewn dodrefn), sef storfeydd y mae'n hawdd i'r staff, ond nid y disgyblion, eu cyrraedd, a hynny'n ddelfrydol yn uniongyrchol o'r gofod addysgu:

- yr ystafelloedd dosbarth: storfa gloadwy uchder llawn, rhwng 1m$^2$ a 3m$^2$ ar gyfer pob ystafell ddosbarth yn dibynnu ar yr anghenion, ar gyfer adnoddau addysgu a (lle bo'n berthnasol) cyfarpar therapi;
- yr ystafelloedd ymarferol: storfeydd mewngamadwy ar gyfer deunyddiau, cyfarpar a gwaith disgyblion sydd ar y gweill mewn pynciau megis gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg a chelf (5m$^2$ ar gyfer pob ystafell addysgu ymarferol, ac eithrio gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg mewn rhai darpariaethau uwchradd; gweler isod);
- cerddoriaeth: o leiaf un storfa offerynnau nad yw'n llai na 5m$^2$ ar gyfer pob ysgol/ darpariaeth amgen;
- addysg gorfforol dan do: storfa cyfarpar sy'n rhoi cyfanswm nad yw'n llai na 10% o arwynebedd y gofod a ddefnyddir ar gyfer addysg gorfforol.

Lle bo yna leoedd uwchradd, dylai cyfanswm yr arwynebedd storio hefyd gynnwys:

- gwyddoniaeth: lle bo'r disgyblion yn gweithio tuag at gwricwlwm prif ffrwd, gofod paratoi/storio nad yw'n llai nag 8m$^2$ lle bo'r gweithgareddau'n gofyn am ddefnyddio cemegion, gyda chypyrddau pwrpasol ar gyfer cemegion, gan gynnwys cwpwrdd gwrthdan ar gyfer hylifau hynod o fflamadwy;
- dylunio a thechnoleg: lle bo'r disgyblion yn gweithio tuag at gwricwlwm prif ffrwd, storfa ar gyfer deunyddiau a chyfarpar nad yw'n llai nag 8m$^2$ a, lle caiff deunyddiau eu paratoi ar y safle, ystafell baratoi nad yw'n llai na 12m$^2$ i ddarparu lle diogel ar gyfer peiriannau;
- bwyd: storfa nad yw'n llai na 5m$^2$ ar gyfer nwyddau sych, cyfarpar a seigiau gorffenedig y disgyblion, a hynny ar gyfer pob ystafell fwyd;
- drama: storfa ar gyfer gwisgoedd a phropiau nad yw'n llai nag 8m$^2$;
- addysg gorfforol yn yr awyr agored: storfa ac iddi fynediad allanol, yn ddelfrydol yn agos at y cyfleusterau addysg gorfforol awyr agored (mewn ysgolion arbennig gall hyn gynnwys storfa beiciau);
- therapi: storfa ar gyfer adnoddau sy'n gysylltiedig â gofodau therapi (gall rhai ohonynt fod mewn dodrefn).

## Storfeydd nad ydynt yn rhai addysgu

Dylai storfeydd nad ydynt yn rhai addysgu gynnwys:

- storfa cotiau a bagiau ar gyfer eiddo personol disgyblion; 0.1m$^2$ fesul lle neu 0.2m$^2$ fesul lle os oes angen mwy o ofod personol ar ddisgyblion;
- gofod storio ar gyfer cyfarpar symudedd; 1.5m$^2$ fesul llawr ar gyfer unrhyw ysgol neu ddarpariaeth amgen ag ardal ychwanegol; ar gyfer ysgolion arbennig lle nad yw'r disgyblion yn gallu cerdded, gweler isod;
- storfa ar gyfer cyflenwadau meddygol, y gall fod angen cadw rhai yn yr oergell;
- storfa ddiogel ar gyfer eitemau gwerthfawr megis cofnodion ysgol a phersonol, archifau neu bapurau arholiad (lle bo'n berthnasol, i fodloni gofynion byrddau arholi);
- storfa ganolog i swmpstorio eitemau megis pennau ysgrifennu neu bapur;
- storfa ar gyfer cyfarpar cynnal a chadw, a chyfarpar glanhawyr a'r gofalwr;
- storfa ddodrefn ar gyfer cadeiriau, byrddau a llwyfannau, ac ar gyfer dodrefn bwyta pan ddefnyddir y neuadd ar gyfer bwyta; gellir storio dodrefn arholiadau ar y safle hefyd.

Bydd angen i'r storfeydd nad ydynt yn rhai addysgu hefyd gynnwys:

- lle bo yno ddisgyblion nad ydynt yn gallu cerdded, gofod i storio cyfarpar symudedd (6 + 1.5N);
- lle bo disgyblion yn defnyddio cyfarpar arbenigol megis darllenwyr braille neu gymhorthion radio, gofod i storio cyfarpar pan nad ydynt yn cael eu defnyddio (bydd yn rhaid asesu anghenion disgyblion);
- lle bo yno bwll, storfa ar gyfer cemegion (ysgolion arbennig yn unig);
- lle bo yno ddisgyblion ag anghenion meddygol difrifol, storfa ddiogel ar gyfer silindrau ocsigen.

Bydd gofyn i fath a lleoliad y storfa cotiau a bagiau fodloni oedran ac anghenion y disgyblion. Er enghraifft, ffefrir storfa neu fae yn union ger ar ystafell ddosbarth weithiau gan fod

disgyblion yn teimlo'n fwy cyfforddus o allu gweld eu heiddo. Rhaid i'r ardal storio fod yn ychwanegol at arwynebedd y dosbarth a'r gofod cylchredeg sy'n ofynnol i fynd at y cotiau. Yn achos disgyblion uwchradd, gall y storfa fod ar ffurf cypyrddau clo gan eu bod yn defnyddio llai o arwynebedd o'u stacio 3 neu 4 uned o uchder (0.075m$^2$ fesul lle disgybl). Rhaid caniatáu lle i agor drysau'r cypyrddau clo.

Mae'r gofod storio gofynnol ar gyfer cyfarpar symudedd yn sylweddol mewn rhai ysgolion arbennig. Mae llawer o ddisgyblion nad ydynt yn gallu cerdded yn defnyddio hyd at dri darn o gyfarpar yn ystod y dydd, a hynny naill ai i weddu i weithgareddau gwahanol neu am resymau meddygol. Er y bydd mwyafswm y gofod storio wedi'i leoli gerllaw ystafelloedd dosbarth y disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded, dylai fod yna hefyd ofod 'parcio' o gwmpas yr ysgol fel y gall disgybl, er enghraifft, newid cyfarpar cyn gwers ymarferol. Gallai fod yn ofynnol hefyd cael storfa ger y fynedfa fel y gall disgyblion newid cyfarpar wrth gyrraedd yr ysgol, ynghyd â storfa ganolog hirdymor ar gyfer cyfarpar sbâr. Dylai cyfleuster i wefru cadeiriau olwyn trydan fod ar gael.

## Storio mewn Darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac Unedau

Dylai cyfanswm yr ardal storio yn y darpariaethau ag adnoddau arbenigol neu unedau gynnwys:

- storfa gloadwy uchder llawn 1m$^2$ i 3m$^2$, yn dibynnu ar yr anghenion, ar gyfer pob ystafell ddosbarth neu ystafell grŵp i gadw adnoddau addysgu a chyfarpar;
- storfa cotiau a bagiau (dim ond os yw'r disgyblion yn cofrestru yno) sydd o leiaf yn 0.1m$^2$ fesul lle, neu'n 0.2m$^2$ fesul lle os oes ar y disgyblion angen mwy o ofod personol;
- storfa ar gyfer unrhyw gyfarpar arbenigol sy'n gysylltiedig ag anghenion penodol disgybl, megis cyfarpar symudedd neu gyfarpar TG arbenigol.

## Arwynebedd nad yw'n net

Mae'r arwynebedd nad yw'n net yn cynnwys y tri chategori o ofod a restrir isod, ynghyd ag arwynebeddau nad ydynt yn net sy'n ofynnol i gynnal unrhyw arwynebedd net atodol:

Toiledau a gofal personol – bydd hyn yn dibynnu ar nifer y lleoedd disgyblion ac anghenion hylendid penodol disgyblion; mewn ysgolion arbennig sy'n lletya disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded, gall y cyfleusterau hyn gymryd llawer o le ac mae'n rhaid darparu ar eu cyfer.

Cyfleusterau cegin – bydd hyn yn dibynnu ar y math o drefniadau arlwyo, unrhyw anghenion deietegol arbennig ac unrhyw weithgareddau cymunedol ychwanegol; Ni fydd gan ddarpariaethau ag adnoddau arbenigol nac unedau gegin fasnachol bwrpasol.

Cylchrediad, peiriannau a waliau mewnol – yn gyffredinol, bydd y rhain mewn cyfrannedd union â'r arwynebedd net, felly mae'n bwysig cynnwys unrhyw arwynebedd net atodol yng nghyfanswm yr arwynebedd net cyn cyfrifo'r gofyniad ar gyfer yr ardaloedd hyn.

## Toiledau a gofal personol

Rhaid i gyfanswm arwynebedd y toiledau a'r cyfleusterau gofal personol gynnwys y ddarpariaeth toiledau a ganlyn:

- yn achos ysgolion arbennig, darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau lle bo disgyblion yn llai annibynnol, ynghyd â disgyblion dwy i bedair oed mewn unrhyw leoliad, tua un gosodiad fesul 10 lle disgybl (cyfwerth ag amser llawn) (lle darperir ystafelloedd hylendid, gall pob un ac eithrio un o'r rhain gael eu cyfrif yn y cyfanswm hwn);
- yn achos unrhyw leoliad lle mae'r disgyblion yn annibynnol ac yn bum mlwydd oed a hŷn, un gosodiad ar gyfer cyfanswm o 20 disgybl;
- yn achos pob lleoliad, o leiaf un toiled hygyrch fesul llawr ar gyfer disgyblion anabl;
- lle bo yna bwll hydrotherapi, un toiled hygyrch ger y pwll;
- yn achos pob lleoliad, toiledau ar wahân i staff, sy'n cynnwys o leiaf un toiled gyda basn golchi dwylo ac un ar gyfer pob 25 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn (heb gynnwys staff arlwyo) wedi'i dalgrynnu i fyny. Gweler Rheoliadau (Iechyd, Diogelwch a Lles yn y Gweithle 1992, Cod Ymarfer Cymeradwy a Chanllawiau, L24;
- yn achos pob lleoliad, o leiaf un toiled hygyrch i staff neu ymwelwyr (a all hefyd gyfrif tuag at nifer y toiledau staff uchod).

Dylid darparu ystafelloedd hylendid fel a ganlyn: yn achos ysgolion neu unedau arbennig ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded, un ystafell hylendid ar gyfer pob 12 lle i ddisgyblion nad ydynt yn gallu cerdded, ynghyd â theclyn codi sefydlog, gwely newid, basn golchi dwylo, toiled hygyrch a chawod hygyrch (os nad yw'r gwely newid yn cynnwys un), a gofod i gynorthwywyr newid disgybl; yn achos ysgolion arbennig a darpariaethau amgen ar gyfer disgyblion sy'n gallu cerdded, un ystafell hylendid i bob lleoliad ac ynddi declyn codi sefydlog neu symudol, gwely newid, basn golchi dwylo a thoiled hygyrch (fel arall, gall y toiled fod gerllaw, gyda mynediad ar wahân iddo).

Dylai fod digon o osodiadau mewn unrhyw leoliad i sicrhau eu bod yn hygyrch, yn enwedig lle bo ar ddisgyblion angen cymorth gyda'u gofal personol neu lle bônt yn dysgu bod yn fwy annibynnol. Mewn cyfres o ystafelloedd ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth ddifrifol, gallai mwy o doiledau fod yn ofynnol i sicrhau bod un yn union gerllaw ystafell ddosbarth. Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol darparu toiledau hygyrch i ddisgyblion yn ardal pob cyfnod allweddol (a hynny'n ddelfrydol ochr yn ochr â'r toiledau safonol). Rhaid i bob toiled hygyrch fodloni pellteroedd teithio a gofynion mynediad Dogfen Gymeradwy M (ADM).

Dylai cyfleusterau hefyd fod o'r maint cywir; mae llai o ystafelloedd o'r maint cywir ac mewn lleoliad da yn gweithio'n well na gormod o ystafelloedd rhy fach. Rhaid i'r cyfleusterau hefyd fod yn addas ar gyfer oedran y disgyblion. Gellir defnyddio'r canlynol yn ganllaw i faint ystafell hylendid:

- gwely newid yn erbyn y wal a basn golchi dwylo (cynradd yn unig) – 7m$^2$;
- gwely newid yn erbyn y wal, ynghyd â basn golchi dwylo a thoiled hygyrch (cynradd yn unig) – 9m$^2$;
- gwely newid yn erbyn y wal, toiled hygyrch a chawod hygyrch (dim ond ar gyfer darpariaethau amgen, ysgolion arbennig lle bo'r disgyblion yn gallu cerdded, neu lle bo yna ystafelloedd hylendid mwy o faint, y mae hyn yn addas) – 12m$^2$;
- gwely newid penrhyn (fel y gall y staff gynnal y disgybl ar bob ochr) a thoiled hygyrch – 15m$^2$;
- gwely newid penrhyn, toiled hygyrch a chawod hygyrch – 20m$^2$;

Dylai fod gan bob ystafell hylendid le golchi neu ryw gyfleuster arall ar gyfer delio â gwastraff (i gyd-fynd â threfniadau'r ysgol) a storfa ar gyfer padiau, dillad sbâr, ac ati.

Dylid darparu ystafelloedd newid yn agos at y ddarpariaeth chwaraeon dan do, ac yn ddelfrydol yn agos at y ddarpariaeth awyr agored, a hynny fel a ganlyn:

- mewn ysgolion arbennig a darpariaethau amgen lle bo'r disgyblion ym Mlwyddyn 7 ac uwch, ystafelloedd newid ar gyfer un grŵp dosbarth (cyfleusterau cyfatebol ac ar wahân i fechgyn a merched mewn lleoliadau cydaddysgol i 65 o ddisgyblion), gydag un gawod, ar gyfartaledd, ar gyfer pob saith disgybl, a hynny'n gyffredinol ar ffurf ciwbiclau ar wahân;
- mewn ysgolion arbennig a darpariaethau amgen lle bo'r disgyblion ym Mlwyddyn 7 ac uwch, o leiaf un ardal newid hygyrch gyda gosodiad iechydaeth, basn golchi dwylo a chawod (os yw hwn yn ofod ar wahân, gallai staff hefyd ei ddefnyddio);
- mewn ysgolion arbennig, dwy ystafell newid ac ynddynt gawod ar gyfer staff unigol, a'r ystafelloedd hynny'n gysylltiedig â'r gofod addysg gorfforol.

Mewn ysgolion arbennig â phwll mae'n rhaid cael cyfleusterau newid cymorthedig ar gyfer hyd at dri disgybl anabl, yn ogystal â chyfleusterau ar gyfer disgyblion sy'n gallu cerdded a defnyddwyr cadeiriau olwyn annibynnol. Rhaid bod teclyn codi wedi'i osod ar y nenfwd, a hwnnw'n arwain yn uniongyrchol o'r ystafell newid gymorthedig i'r pwll. Bydd y trefniadau'n amrywio; efallai y bydd yna un ystafell newid 'sych' a ddefnyddir cyn mynd i'r pwll, ac un ystafell 'wlyb' a ddefnyddir ar ôl dod allan o'r pwll (bydd gofyn i gyfanswm yr arwynebedd fod o leiaf yn 30m$^2$). Dylai fod yna hefyd ddwy ystafell newid â chawod yn ymyl y pwll ar gyfer staff unigol.

Gallai rhai o'r gofodau a restrir uchod gael eu dylunio i ddarparu cyfleusterau priodol ar gyfer:

- defnydd y tu allan i'r diwrnod ysgol;
- gofynion crefyddol penodol, gan gynnwys cyfeiriadedd a golchiadau.

## Cyfleusterau cegin mewn ysgolion arbennig a darpariaethau amgen

Lle darperir cegin fasnachol, dylai cyfanswm arwynebedd y gegin gynnwys:

- cyfleusterau ar gyfer paratoi bwyd a diod, ac i olchi llestri wedyn, lle bo angen;
- storfeydd bwyd;
- cyfleusterau ar gyfer staff arlwyo, gan gynnwys ardaloedd newid, toiledau a gweithfan ar gyfer gweinyddu;
- prif gownter arlwyo ar gyfer bwyd poeth ac eitemau eraill (a all ddarparu ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn).

Lle darperir cegin fasnachol, dylai cyfanswm arwynebedd y gegin gynnwys:

- cyfleusterau ar gyfer paratoi bwyd a diod, ac i olchi llestri wedyn, lle bo angen;
- storfeydd bwyd;
- cyfleusterau ar gyfer staff arlwyo, gan gynnwys ardaloedd newid, toiledau a gweithfan ar gyfer gweinyddu;
- prif gownter arlwyo ar gyfer bwyd poeth ac eitemau eraill (a all ddarparu ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn).

## Cylchrediad, peiriannau a waliau mewnol

Dylai'r arwynebedd cylchredeg fod o leiaf fel a ganlyn (mae hyn hefyd yn ymwneud â'r arwynebedd atodol lle bo hynny'n berthnasol):

- yn achos pob darpariaeth amgen, darpariaeth ag adnoddau arbenigol ac uned (ac eithrio lleoliadau ar gyfer disgyblion ag anabledd corfforol), 22.5% o gyfanswm yr arwynebedd net;
- yn achos darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau ar gyfer disgyblion ag anabledd corfforol, 25% o gyfanswm yr arwynebedd net;
- yn achos ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion sy'n gallu cerdded, 27% o gyfanswm yr arwynebedd net;
- yn achos ysgolion arbennig lle nad yw'r disgyblion yn gallu cerdded, 32% o gyfanswm yr arwynebedd net.

O fewn yr ardal hon:

- dylid mynd i mewn i bob ystafell o lwybr sy'n cylchredeg, ac eithrio'r storfeydd a (lle bo hynny'n briodol) toiledau a chyfleusterau hylendid y gellir mynd iddynt yn uniongyrchol o ofodau dysgu;
- lle bo'r ddarpariaeth, yn bennaf, yn un ar gyfer disgyblion sy'n gallu cerdded, dylai coridorau sy'n arwain at fwy na dwy ystafell ddosbarth fod o leiaf yn 1.8m neu 2m o led os oes ar y disgyblion angen mwy o ofod 'personol';
- lle bo yno ddisgyblion sy'n defnyddio cymhorthion symudedd neu y mae arnynt angen cymorth gan weithwyr cymorth (megis disgybl ag amhariad ar y golwg), dylai'r coridorau sy'n arwain at fwy na dwy ystafell ddosbarth fod o leiaf yn 2.2m o led (lled clir o 1.8m o wal i wal yw'r lled lleiaf i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn basio'n ddiogel i wahanol gyfeiriadau; mae 2.2m yn galluogi staff i droi cadair olwyn 180°);
- lle bo yna lwybr mynediad trwy ofod, megis ardal fwyta, dylid diystyru 'llain' gylchredeg sydd o leiaf yn 1.5m o led o'r ardal net ddefnyddiadwy; 1.8m mewn ysgol arbennig lle nad yw'r disgyblion yn gallu cerdded.

Mewn ysgol arbennig lle nad yw'r disgyblion yn gallu cerdded, dylai'r coridorau ddarparu lle i symud cyfarpar symudedd, yn cynnwys gorsafoedd dysgu llorweddol, ac yn enwedig o amgylch corneli ac i mewn i/allan o ardaloedd storio. Rhaid hefyd sicrhau digon o le i ddisgyblion gylchdroi (yn cynnwys y rhai mewn cadeiriau olwyn) fel y gallant symud yn ddiogel rhwng eu hystafelloedd dosbarth/y neuadd a'u cludiant ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol, ac osgoi tagfeydd – mae diogelwch yn hollbwysig gan y gall yr adegau hyn o'r dydd beri straen penodol i rai disgyblion.

## Cylchrediad, peiriannau a waliau mewnol

Yn ddelfrydol, dylai ysgolion arbennig fod yn rhai unllawr fel bod y cylchrediad yn haws i ddisgyblion sy'n defnyddio cymhorthion symudedd, neu i'r rhai y mae gofyn iddynt gael cymorth neu oruchwyliaeth fanwl gan staff. Lle nad oes modd osgoi llawr uchaf, dylai'r grisiau fod yn ddigon llydan:

- i alluogi staff i gynorthwyo disgybl o'r ddwy ochr;
- ar gyfer cadair achub neu gyfarpar arall i fynd â rhywun i lawr y grisiau mewn achos o dân;
- i ddarparu lloches a gofod glanio, i fodloni'r ADM.

Yn ogystal, bydd gofyn i lifftiau allu darparu lle ar gyfer disgybl, ynghyd â'i gyfarpar symudedd a'r staff sy'n ei hebrwng.

## Peiriannau

Mewn ysgolion arbennig a darpariaethau amgen, bydd angen arwynebedd sy'n cyfateb i o leiaf 2% o gyfanswm yr arwynebedd net ar gyfer ystafelloedd peiriannau ac ystafelloedd gweinyddion, yn ogystal ag ystafelloedd hybiau a phibelli fertigol. Yn gyffredinol, bydd angen arwynebedd ychwanegol os cynhwysir peiriannau awyru, simneiau neu danciau chwistrellu yn arwynebedd gros yr adeilad. Mewn ysgol arbennig â phwll, bydd ardal ar gyfer cyfarpar y pwll ac i storio cemegion yn ychwanegol at hyn.

Mewn darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau bydd yr arwynebedd gofynnol yn llai gan y bydd y prif beiriannau yn y brif ysgol.

## Waliau mewnol

Bydd arwynebedd y waliau mewnol yn cyfateb i o leiaf 3% o'r arwynebedd net, a hyd at 6% os yw'r waliau'n fwy trwchus oherwydd mathau cyfredol neu wahanol o adeiladu.

## Arwynebedd atodol

Mewn ysgolion arbennig a darpariaethau amgen, gellir ychwanegu arwynebedd atodol ar gyfer swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â'r ysgol, megis gweithgareddau cymunedol y mae arnynt angen ardal ychwanegol. Mae tri math o ofod yn y categori arwynebedd atodol:

- arwynebedd i wella cyfleusterau lleoliad; bydd hyn yn cynnwys gofodau sydd wedi'u hehangu y tu hwnt i'r 'safon' argymelledig, er enghraifft i ddarparu lle ar gyfer cyfarpar arbenigol helaeth;
- arwynebedd ar gyfer cyfleusterau cymorth ychwanegol; bydd hyn yn cynnwys gofodau ar wahân sydd ar gael i eraill, yn ogystal ag i'r lleoliad, at ddefnyddiau penodol, megis ail bwll mewn ysgol arbennig neu ganolfan gwnsela mewn darpariaeth amgen;
- darpariaeth gymunedol; mae hwn yn ofod ar wahân nad yw ar gael fel arfer i'r lleoliad, er enghraifft cyfleusterau ar gyfer addysg oedolion yn ystod y dydd.

Mae'n bwysig nodi bod ffrwd ariannu ychwanegol, bwrpasol yn ofynnol ar gyfer unrhyw arwynebedd atodol, oni bai fod yr arwynebedd hwnnw eisoes yn bodoli mewn adeilad priodol.

Diffinnir darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau yn rhai atodol i ysgolion prif ffrwd.



# Rhan 2 - Maint Arwynebedd y Safle

**Mae'r canllawiau'n cyd-fynd â'r dull gweithredu a'r maint o'r Bwletinau Adeiladu ar gyfer arwynebeddau safleoedd.**

Gall y safle gefnogi polisïau cenedlaethol ehangach, megis y gallu i ddarparu System Asesu ar gyfer Adeiladu Cynaliadwy (BNB), a'r ffaith bod cysylltiadau â byd natur yn gadarnhaol ar gyfer addysg a'r blynyddoedd cynnar.

BNB Newydd – fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, 'Rhaid i awdurdodau cynllunio, wrth fabwysiadu dull strategol a rhagweithiol o ymdrin â seilwaith gwyrdd, bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, gynhyrchu rhestrau a mapiau cyfredol o seilwaith gwyrdd ac asedau a rhwydweithiau ecolegol sy'n bodoli'n barod.' Mae'r cymhelliant hwn yn anelu at wella bioamrywiaeth trwy ddatblygiadau.

LtL Cymru yw rhaglen Dysgu drwy Dirweddau yng Nghymru (Learning through Landscapes); mae Dysgu drwy Dirweddau yn elusen yn y DU sy'n ymroddedig i wella dysgu a chwarae yn yr awyr agored i blant. Dogfennau allweddol sy'n cefnogi hyn yw Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r cynllun hefyd yn cysylltu â'r cwricwlwm newydd yng Nghymru, Cwricwlwm i Gymru.

Prif swyddogaethau'r cynllun yw:

- Gweithio ochr yn ochr ag ysgolion a meithrinfeydd i'w helpu i roi prosiectau datblygu ymarferol ar waith, prosiectau sy'n trawsnewid eu gofodau awyr agored a phrofiadau eu plant yn yr ysgol.
- Galluogi ysgolion a lleoliadau ledled Cymru i ddatblygu a defnyddio eu tiroedd yn greadigol trwy gyfrwng rhaglenni hyfforddi, ymweliadau cynghori, adnoddau ysbrydoledig mewn print, ar ffilm ac ar-lein, gwasanaethau cymorth i aelodau, a chymorth pwrpasol awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.
- Hyrwyddo i blant bwysigrwydd gofodau awyr agored uchel eu safon yn eu hysgolion a'u meithrinfeydd.

Mae'r rhan hon yn ymdrin ag arwynebedd safle ysgol. Mae tiroedd ysgol yn adnodd gwerthfawr ac yn cael effaith sylweddol ar ethos ysgol a safon yr addysg a gaiff y disgyblion.

## Cyfanswm Arwynebedd y Safle

Mae'r rhan hon o'r canllawiau yn pennu sut i sefydlu'r gofynion o ran arwynebedd safle ar gyfer ysgol. Yn achos ysgolion canol ac ysgolion pob oed, gellir pennu maint y gofodau trwy gyfeirio at yr arwynebeddau perthnasol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd.

Gellir rhannu'r adran hon yn:

- Arwynebedd net y safle, sef arwynebedd defnyddiadwy'r safle sydd ar gael i ddisgyblion, ac a elwir hefyd yn 'arwynebedd y cae chwarae' pan fo gwaredu tir (Adran 77 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998) dan ystyriaeth;
- Arwynebedd nad yw'n net y safle, sy'n cynnal gweithrediad y safle ac yn cynnwys ôl troed adeiladau a mannau mynediad megis llwybrau, ffyrdd a meysydd parcio;
- Arwynebedd atodol, a ddefnyddir ar gyfer swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â'r ysgol neu swyddogaethau cymorth megis cyfleusterau anghenion arbennig ac iddynt adnoddau arbennig.

Cyfanswm arwynebedd y safle, neu arwynebedd gros y safle, yw swm yr arwynebedd net a'r arwynebedd nad yw'n net. Yn gyffredinol, bydd y cyfanswm gofynnol yn achos arwynebedd safle ar gyfer ysgol gynradd 5 i 11 oed newydd neu ysgol uwchradd yn amrywio rhwng tua 111% a 125% o arwynebedd net y safle, a hynny fel bod arwynebedd net y safle yn 80% i 90% o'r cyfanswm.

Mae arwynebedd net y safle ar gyfer ysgolion babanod yn debygol o fod yn llai gan nad oes yna ofyniad am ardal addysg gorfforol awyr agored feddal (megis caeau chwarae). Gall arwynebedd gros y safle felly fod cyn uched â 135% o arwynebedd net y safle gan fod yr adeiladau a'r ardal mynediad yn gyfran fwy o gyfanswm y safle.

## Arwynebedd Net y Safle

Fel arfer ni ddylai fod angen i gyfanswm arwynebedd net y safle sy'n ofynnol gan ysgol gymunedol gynhwysol fod yn fwy nag arwynebedd net argymelledig y safle ar gyfer nifer y lleoedd disgyblion ac ystod oedran yr ysgol.


Mae'n bosibl y bydd angen arwynebedd net atodol ychwanegol i'r safle, a chynnydd cymesurol mewn adeiladau ac ardal fynediad, os oes yna swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â'r ysgol neu swyddogaethau cymorth ag adnoddau arbennig yn mynd rhagddynt ar safle'r ysgol. Mae diffinio cyfanswm arwynebedd y safle yn gam pwysig ar gyfer ysgol newydd.

## Arwynebedd net y safle mewn ysgolion arbennig


Mae gofodau awyr agored mewn ysgolion arbennig yn llawer mwy amrywiol nag mewn ysgolion prif ffrwd, ac yn adlewyrchu ystod eang anghenion y disgyblion. I rai ysgolion mae gweithgareddau garddwriaethol yn rhan bwysig o'r cwricwlwm, ac i eraill addysg gorfforol yn yr awyr agored yw'r gweithgarwch pwysicaf. I rai ysgolion efallai na fydd yna fawr o wahaniaeth rhwng y cwricwlwm ffurfiol ac anffurfiol a rhwng dysgu a chwarae. Am y rheswm hwn, mae'r ystodau o ran yr arwynebedd argymelledig yn ehangach nag mewn ysgolion prif ffrwd, ac mae gofyn defnyddio'r categorïau mewn modd hyblyg, er y dylid cyflawni'r maint lleiaf argymelledig ar gyfer pob categori



**Ffigur 19:** Arwynebedd Safle Cynradd



**Ffigur 20:** Arwynebedd Safle Uwchradd



## Arwynebedd Net y Safle: Caeau Chwarae

Gellir rhannu arwynebedd net y safle, a elwir hefyd yn arwynebedd caeau chwarae'r ysgol yn Adran 77 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, lle sonnir am eu gwarchod, i'r pum categori canlynol o fannau awyr agored:

- addysg gorfforol awyr agored feddal;
- addysg gorfforol awyr agored galed;
- ardal anffurfiol a chymdeithasol feddal;
- ardal anffurfiol a chymdeithasol galed;
- ardaloedd cynefinoedd;

yn ogystal ag unrhyw arwynebedd net atodol i'r safle sy'n ofynnol ar gyfer swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â'r ysgol neu swyddogaethau cymorth.

Mae'r graffiau yn ffigurau 18 a 19 yn dangos y parthau ar gyfer pob categori o ofod awyr agored. Megis yn achos arwynebedd adeiladau, brig pob parth yw'r arwynebedd mwyaf argymelledig ar gyfer y categori, a'r gwaelod yw'r arwynebedd lleiaf argymelledig. Cyfrifir pob un ar gyfer nifer y lleoedd disgyblion trwy ddefnyddio'r fformiwlâu a ddangosir yn y graffiau ac yn Atodiad B. Mae'r graffiau hefyd yn dangos yr arwynebeddau net argymelledig lleiaf a mwyaf ar gyfer safle, ac ystod debygol yr arwynebedd gros gofynnol, a hynny'n seiliedig ar y gyfran leiaf a mwyaf o net i gros (gweler tudalen 35). Mae'r ystod yn y graffiau yn galluogi amrywiad yn siâp a chyfuchliniau'r safle, ac ym maint ôl troed yr adeilad.

Ni ddylai fod yn angenrheidiol, fel arfer, i gyfanswm arwynebedd net safle sy'n ofynnol gan ysgol gymunedol gynhwysol fod yn fwy na'r arwynebedd net mwyaf argymelledig ar gyfer y safle i nifer y lleoedd disgyblion ac ystod oedran yr ysgol. Fodd bynnag, rhaid i safleoedd presennol sy'n meddu ar o leiaf yr arwynebedd hwn ar eu safle fynd ati'n gyffredinol i gadw'r arwynebedd hwn ar gyfer 105% o'r capasiti presennol er mwyn darparu ar gyfer twf yn y dyfodol; gweler Adran 77 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Bydd rhai ysgolion ar safleoedd cyfyngedig ac ni fydd ganddynt ddigon o ofod awyr agored i fodloni gofynion ar y safle. Yn y sefyllfaoedd hyn, bydd gofyn darparu mynediad i ddarpariaeth addas oddi ar y safle i'r disgyblion. Ar safleoedd cyfyngedig, lle bo gofod yn brin, bydd angen agwedd hyblyg mewn perthynas ag arwynebedd y safle, a bydd yn ofynnol rheoli'r defnydd o'r arwynebedd. Dylid hefyd ystyried darparu'r canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth:

- yn gyntaf, gofod ar gyfer ardal anffurfiol a chymdeithasol galed, gan gynnwys man chwarae awyr agored y gellir ei gyrraedd yn syth o'r dosbarthiadau meithrin a derbyn;
- yna rhywfaint o ofod addysg gorfforol galed awyr agored fel y gall addysg gorfforol neu gemau tîm gael eu chwarae heb orfod mynd oddi ar y safle, a hynny'n ddelfrydol ar ffurf ardal gemau amlddefnydd y gellir ei defnyddio hefyd fel ardal anffurfiol a chymdeithasol galed;
- yna ardal anffurfiol a chymdeithasol feddal ar gyfer ystod ehangach o gyfleoedd addysgol yn yr awyr agored a gofod cymdeithasol;
- yn olaf, gellir darparu rhywfaint o addysg gorfforol feddal yn yr awyr agored. Os bydd hyn ar ffurf cae pob tywydd, gall gyfrif ddwywaith tuag at y lleiafswm argymelledig.

## Ysgolion arbennig

Pan fo ysgol arbennig ar safle cyfyngedig, rhaid mabwysiadu agwedd hyblyg o ran darparu a rheoli'r ardal sydd ar gael. Dylid rhoi blaenoriaeth i'r gofodau hynny sydd bwysicaf i anghenion penodol disgyblion y lleoliad. Lle bo hynny'n briodol, gall disgyblion fanteisio ar ddarpariaeth addysg gorfforol addas oddi ar y safle. Mae diogelwch eiddo a diogelwch personol yn arbennig o bwysig ar safleoedd ysgolion arbennig; gall y disgyblion fod yn llai ymwybodol o beryglon neu'n fwy agored i niwed yn eu hamgylchedd. Dylai fod yn hawdd gweld pobman o ofodau awyr agored, ac ni ddylai gofodau cudd fod ar gael. Bydd angen ffensio rhai ardaloedd (bydd hyn yn ychwanegol at ffens y perimedr); dylai ardaloedd swnllyd, prysur fod ar wahân i ofodau tawelach, cysgodol. Lle bo yna ddisgyblion nad ydynt yn gallu symud cymaint neu gerdded, rhaid sicrhau bod y canlynol ar gael:

- llwybrau hygyrch, gyda lloches ar gyfer disgyblion mwy agored i niwed;
- arwynebau diogel a hygyrch i gadeiriau olwyn, gyda newidiadau diogel mewn l efelau neu wrth bontio rhwng arwynebau;
- llwybrau llydan (mae'r ADM a BS8300 yn gofyn am 1500mm a 1800mm ar gyfer llwybrau prysur, ynghyd â mannau pasio yn ôl y gofyn).

Dylid ymgynghori â staff yr ysgol i sicrhau bod ardaloedd yn yr awyr agored wedi'u lleoli'n addas mewn perthynas â'r adeilad. Er enghraifft, efallai y tynnir sylw rhai disgyblion yn hawdd os yw'r olygfa o'u hystafell ddosbarth yn cynnwys gweithgareddau allanol.

Bydd angen storfeydd ar gyfer cyfarpar addysg gorfforol a chwarae, gan gynnwys beiciau o bosibl.

**Ffigur 21: Arwynebedd Net y Safle: Cae Chwarae**



## Cyfleusterau addysg gorfforol yn yr awyr agored

### Ardal addysg gorfforol awyr agored feddal

Dylai cyfanswm arwynebedd addysg gorfforol awyr agored wyneb meddal gynnwys caeau chwaraeon sydd wedi'u gosod i weddu i gemau tîm, gan gynnwys y canlynol:

- caeau chwarae'r gaeaf ar gyfer gemau tîm dewisol yr ysgol, megis pêl-droed, rygbi a hoci; a
- chaeau chwarae'r haf, sy'n gorgyffwrdd, megis criced, trac athletau 400m a chyfleusterau ar gyfer cystadlaethau maes.

Yn ogystal â'r meysydd glaswellt uchod, gall yr ardal hefyd gynnwys:

- caeau pob tywydd, megis caeau tyweirch synthetig sy'n galluogi defnydd mwy dwys na glaswellt ac, yn enwedig gyda llifoleuadau, yn cynnig adnodd cymunedol poblogaidd hefyd (Sport England, 2012: Artificial Surfaces for Outdoor Sport);
- cyfleusterau wyneb meddal eraill a all ychwanegu at y ddarpariaeth addysg gorfforol a chwaraeon, megis llwybrau cyfarpar (trim trails) a thraciau beicio.

Gellir cyfrif arwynebedd caeau pob tywydd ddwywaith at ddibenion y canllawiau hyn a cheisiadau adran 77, fel ei gilydd, gan y gellir eu defnyddio am lawer mwy o amser na'r saith awr yr wythnos a dybir yn achos meysydd glaswellt.

Dylai lleoliad, maint a siâp ardaloedd addysg gorfforol glaswelltog fod yn seiliedig ar nifer o ystyriaethau, gan gynnwys y gofynion statudol, ystyriaethau diogelwch, graddiant, y berthynas rhwng meysydd gemau'r gaeaf a'r darpariaethau ar gyfer athletau a chriced yn yr haf (fel y bo'n briodol), a chyfeiriadaeth y meysydd a hygyrchedd.

#### Ysgolion arbennig

Gall nifer o ddisgyblion mewn ysgolion arbennig gymryd rhan mewn gemau tîm a gweithgareddau eraill, yn debyg i ddisgyblion mewn ysgolion prif ffrwd. Bydd rhai'n cymryd

rhan mewn gemau symlach i ddatblygu sgiliau taflu, dal a neidio. I rai disgyblion, gan gynnwys y rhai ag awtistiaeth ddifrifol, mae'n bosibl na fydd gemau tîm yn briodol. Dylid anelu'r ddarpariaeth at ddisgyblion yr ysgol.

Lle darperir caeau chwarae, mae'n bwysig eu bod yn cael eu cynllunio a'u gosod fel bod defnyddwyr cadeiriau olwyn yn gallu mynd arnynt. Mae wynebau pob tywydd yn haws i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn symud ar eu traws na meysydd glaswellt.

## Ardal addysg gorfforol awyr agored galed

Mewn ysgolion newydd, dylai cyfanswm yr arwynebedd addysg gorfforol awyr agored wyneb caled gynnwys:

- ardal gemau amlddefnydd (MUGA) ar facadam mandyllog, gyda thri chwrt pêl-rwyd wedi'u marcio arno, a lle bo'r dimensiynau hanfodol yn 22m x 33m, ynghyd ag ymylon, ar gyfer disgyblion cynradd, neu'n 60m x 33m, ynghyd ag ymylon, ar gyfer disgyblion uwchradd;
- rhagor o gyrtiau tennis/pêl-rwyd mewn ysgolion mwy.

Mae gosod amrywiaeth o gyrtiau o fewn un ardal gemau amlddefnydd yn gwneud goruchwyliaeth yn haws ac yn ehangu'r ystod o gemau.

Mewn ysgolion presennol, dylid gosod tua'r un faint o arwynebedd caled ar gyfer gemau.

### Ysgolion arbennig

Lle nad yw ardal gemau tîm ffurfiol yn addas ar gyfer anghenion y disgyblion, er enghraifft os nad yw'r mwyafrif yn gallu cerdded neu os ydynt yn ddifrifol awtistig, dylid parhau i ddarparu ardal wyneb caled ar gyfer gweithgareddau addysg gorfforol eraill.

## Ardaloedd anffurfiol a chymdeithasol meddal

Dylid creu amrywiaeth o ardaloedd anffurfiol a chymdeithasol i weddu i ddatblygiad dysgu ac anghenion diwylliannol y disgyblion yn ystod egwyliau ac yn y cyfnodau cyn ac ar ôl ysgol, a hefyd ar gyfer ystod o anghenion cwricwlwm mwy ffurfiol. Bydd y rhain yn cynnwys ardaloedd ag wyneb meddal, sy'n laswelltog fel arfer, ac iardiau, llwybrau a chaeau chwarae wyneb caled.

Dylai'r ardaloedd wyneb meddal fod mewn lleoliad cyfleus, yn ddiogel ac yn darparu rhywfaint o gysgod.

Gallai cyfanswm yr arwynebedd gynnwys:

- ardaloedd wyneb meddal, megis glaswellt, tywod neu domwellt rhisgl, ar gyfer chwarae neu i eistedd a chymdeithasu;
- cloddiau neu derasau glaswelltog y gellir eu defnyddio ar gyfer cynulliadau mawr;
- llwyni neu ardaloedd wedi'u plannu (gan gynnwys y rhai sydd ger adeiladau);
- dolydd neu goetir, lle bo gofod ar gael.

### Ysgolion arbennig

Gall yr ardaloedd hyn hefyd fod yn fannau i ddisgyblion fynd iddynt i gael ychydig o dawelwch neu i ymdawelu os ydynt yn teimlo'n ofidus neu'n bryderus. Mae diogelwch o'r pwys mwyaf, ac felly efallai na fydd ardaloedd grisiog a llethrog, y gellir eu darparu mewn ysgolion prif ffrwd, yn addas hyd yn oed ar gyfer rhai o'r disgyblion sy'n gallu cerdded.

## Ardaloedd anffurfiol a chymdeithasol caled

I gyd-fynd â'r ardaloedd anffurfiol a chymdeithasol meddal, dylai fod yna feysydd chwarae wyneb caled i annog chwarae iach, egnïol a chreadigol yn yr awyr agored, yn ogystal ag i ddarparu gofod ar gyfer gweithgareddau dysgu mwy ffurfiol, yn cynnwys grwpiau astudio yn yr awyr agored, ac i ddisgyblion allu cymryd rhan mewn celf, theatr, dawns a dylunio yn yr awyr agored. Mae'n bosibl hefyd y bydd gofyn darparu ardaloedd penodol ar gyfer y blynyddoedd cynnar (meithrin a derbyn), gan gynnwys gofod cysgodol. Gellir creu 'dodrefn' trwy gyflwyno deunyddiau naturiol sy'n ymdoddi i'r gwaith tirweddu. Gall cyfanswm yr arwynebedd gynnwys llwybrau a mannau chwarae ar doeau mewn safleoedd cyfyngedig.

### Ysgolion arbennig

Mae arwynebedd argymelledig parth ar gyfer ardal galed anffurfiol a chymdeithasol yn eang ac yn adlewyrchu ystod anghenion y disgyblion, ond lle bo ysgol arbennig dan sylw dylai'r arwynebedd hwn gynnwys y canlynol:

- gofod chwarae (gan gynnwys ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn), yn ogystal â lle i redeg a chicio pêl;
- gofodau cymdeithasol i eistedd a siarad ynddynt, neu fannau tawel i ddisgybl fod ar ei ben ei hun, gyda seddau sefydlog a lle i gadeiriau olwyn yn eu hymyl;
- gofod awyr agored sy'n uniongyrchol hygyrch o'r dosbarthiadau meithrin a derbyn (a, lle bo'n briodol, ar gyfer disgyblion hŷn sy'n elwa o 'gyfnod callio' yn yr awyr agored); dylid gorchuddio rhan o'r gofod i ddarparu cysgod a rhywfaint o loches rhag glaw ysgafn.

Gall cyfanswm yr arwynebedd hefyd gynnwys:

- ardaloedd wyneb diogel sy'n cynnwys cyfarpar antur a chwarae sefydlog;
- lleoedd ar gyfer dysgu galwedigaethol i ddisgyblion uwchradd, megis golchi cerbydau;
- i helpu disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded i feithrin sgiliau annibyniaeth, llwybrau wedi'u gosod ar gyfer hyfforddiant symudedd, gydag efelychiadau diogel o beryglon y gallai'r disgyblion ddod ar eu traws y tu allan i'r ysgol.

Er mwyn disgyblion mwy agored i niwed, efallai y bydd gofyn gwahanu gweithgareddau swnllyd oddi wrth fannau cysgodol tawelach. I ychwanegu amrywiaeth a helpu'r gwaith goruchwylio, gellir defnyddio llwybrau, ffensys a gatiau i rannu ardaloedd. Mewn rhai achosion bydd angen ffensio mannau awyr agored yn union y tu allan i ystafelloedd dosbarth am resymau diogelwch. Dylid dod i gytundeb â'r ysgol ynghylch rheoli mynediad, yn ogystal â lleoliadau ac uchder ffensys.

Bydd math a hyd a lled yr ysgogiadau synhwyraidd a'r cyfarpar chwarae yn amrywio yn ôl anghenion y disgyblion ac yn destun trafodaeth â'r staff. Dylai fod gofod digonol o amgylch cyfarpar chwarae, ynghyd ag wynebau diogel, meddal fel bod y disgyblion yn glanio'n saff. Gellir creu 'dodrefn' trwy gyflwyno deunyddiau naturiol sy'n ymdoddi i'r gwaith tirweddu.

## Ardaloedd cynefinoedd

Gall ardaloedd cynefinoedd gynnwys amrywiaeth o ystafelloedd dosbarth a chynlluniau awyr agored i ddarparu adnodd gwerthfawr ar gyfer addysgu a dysgu ar draws y cwricwlwm cyfan. Dylai cyfanswm arwynebedd y cynefin gynnwys tir wedi'i ddatblygu ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau dan oruchwyliaeth, er enghraifft dolydd, cynefinoedd bywyd gwyllt (megis pyllau), gerddi ac ardaloedd gwyddoniaeth awyr agored i gefnogi'r cwricwlwm. Yn gyffredinol, dylid ffensio ardaloedd o'r fath i atal mynediad heb oruchwyliaeth. Gellir cynllunio i rannau o'r ardal gael eu datblygu dros amser gan yr ysgol.

### Ysgolion arbennig

Dylai cyfanswm arwynebedd y cynefin mewn unrhyw ysgol arbennig gynnwys tir wedi'i ddatblygu ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau dan oruchwyliaeth.

Os oes disgyblion nad ydynt yn gallu cerdded yn yr ysgol, dylai:

- cynwysyddion planhigion gael eu gosod ar lefel uwch er mwyn disgyblion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a chymhorthion symudedd eraill;
- tai gwydr fod yn hygyrch.

Mae arwynebedd argymelledig parth ar gyfer cynefin yn eang am y bydd y ddarpariaeth yn amrywio yn ôl cwricwlwm yr ysgol a chyfleoedd naturiol y safle. Mae'n bosibl y bydd ysgol uwchradd arbennig sy'n arbenigo mewn cyrsiau galwedigaethol yn meddu ar gyfleusterau garddwriaethol helaeth; gallai ysgol arall ddefnyddio ardaloedd coediog mewn bod i sefydlu ystafelloedd dosbarth awyr agored dan do neu lwybrau natur. Dylid ffensio ardaloedd cynefinoedd i osgoi mynediad heb oruchwyliaeth, a'u cynllunio fel eu bod o gymorth i waith goruchwylio effeithiol. Mae'r gallu i weld yr ardal gyfan yn glir, ynghyd â diogelwch priodol, yn hanfodol i atal disgyblion rhag crwydro ac i'w hamddiffyn rhag ymwelwyr anawdurdodedig. Gellir cynllunio i rannau o'r ardal gael eu datblygu dros amser gan y staff, y disgyblion a'r rhieni.

## Arwynebedd Net y Safle mewn Darpariaeth Amgen

Bydd ardal allanol darpariaeth amgen yn amrywio'n fawr yn ôl y lleoliad, a gall fod yn fach iawn mewn lleoliad trefol. Mae'n bwysig gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael a diwallu anghenion penodol y disgyblion. Dylai gofodau awyr agored fod yn lleoedd ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol a hamdden a, lle bo modd, addysg gorfforol. Yn achos disgyblion hŷn, gall gofod awyr agored cysgodol ategu gofod dysgu galwedigaethol dan do ar gyfer cyrsiau megis adeiladu.

## Addysg Gorfforol Awyr Agored mewn Darpariaeth Amgen

Gall gweithgareddau addysg gorfforol feithrin sgiliau cymdeithasol, gwaith tîm a deall risgiau. Fodd bynnag, efallai na fydd yn addas ar gyfer pob disgybl.

Yn achos darpariaeth uwchradd, gallai'r hyn a ddarperir yn nodweddiadol gynnwys ardaloedd gemau amlddefnydd (MUGA), sy'n 18m x 33m yn gyffredinol, ynghyd ag ymylon o 1m i 1.5m fel y gellir chwarae pêl-fasged (15m x 28m), pêl-rwyd (15.25m x 30.5m) a phêl-droed. Bydd storfeydd yn ofynnol hefyd (gweler Storfeydd). Yn achos darpariaeth amgen cynradd yn unig, mae'n bosibl na fydd lle ar gyfer MUGA, ac yn yr achosion hyn trefnir defnydd ar y cyd yn aml gydag ysgol gynradd gyfagos.

Ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiadol, gallai addysg gorfforol awyr agored wyneb meddal gynnwys (lle bo gofod ar gael) caeau chwaraeon wedi'u gosod ar gyfer gemau tîm megis pêl-droed, traciau athletau, llwybrau cyfarpar neu draciau beicio. Mae cae glaswellt ar gyfer pêl-droed pump bob ochr yn 18.5m i 28m x 30m i 40m. Os yw safle ar gyfer darpariaeth amgen sy'n cynnwys disgyblion uwchradd ag anawsterau ymddygiadol yn un cyfyng iawn, efallai y bydd gofyn cynyddu'r gofod addysg gorfforol mewnol.

## Ystyriaethau Ychwanegol yn achos Ysgolion Arbennig

### Ardaloedd anffurfiol a chymdeithasol mewn darpariaeth amgen

Yn ogystal ag at ddefnydd cwricwlaidd, dylid darparu gofodau awyr agored ar gyfer gweithgareddau anffurfiol, cymdeithasol a hamdden hefyd, a dylai storfa allanol fod ar gael.

Dylai fod yna ofodau ar gael i redeg o gwmpas a chicio pêl, yn ogystal ag i fod yn dawel a chymdeithasu, a hynny ar gyfer disgyblion uwchradd ag anawsterau ymddygiadol a disgyblion cynradd; gellid darparu cyfarpar chwarae awyr agored cadarn. Yn achos disgyblion hŷn ag anawsterau iechyd, gofodau cymdeithasol tawelach fydd y flaenoriaeth. Mewn unrhyw leoliad, dylai'r gofodau cymdeithasol tawel fod ar wahân, yn ddiogel a chynnwys lloches. Mae'n bosibl y bydd ar rai disgyblion angen mynediad i ofod awyr agored diogel er mwyn bod yn dawel a digyffro.

Ar lefel gynradd, argymhellir cael gofod allanol y gellir ei ddefnyddio fel ystafell ddosbarth awyr agored.

### Ardaloedd cynefinoedd mewn darpariaethau amgen

Lle bo gofod ar gael, gall ardaloedd ar gyfer plannu a chadw anifeiliaid fod o fudd i ddisgyblion agored i niwed.

### Arwynebedd Net y Safle Mewn Darpariaethau ag Adnoddau Arbenigol ac Unedau

Mewn darpariaethau ag adnoddau arbenigol ac unedau bydd y disgyblion yn rhannu ardaloedd addysg gorfforol, cymdeithasol a chynefinoedd â'r brif ysgol, ond dylai fod yna ardal ddiogel ar wahân, ac ynddi rywfaint o gysgod, sy'n uniongyrchol hygyrch o'r cyfleuster a lle gall y disgyblion gael amser tawel i ffwrdd oddi wrth brif ran yr ysgol.

## Arwynebedd yr Adeiladau a Mynediad

Bydd arwynebedd nad yw'n net y safle yn amrywio yn dibynnu ar gyfluniad y safle a'r adeiladau. Bydd yn cynnwys:

- 'ôl troed' pob adeilad;
- y fynedfa ar gyfer nwyddau;
- yr ardaloedd gwastraff (dan glo neu'n bell o'r adeiladau).

A bydd fel arfer yn cynnwys:

- y llwybrau mynediad, y ffyrdd, a'r dirwedd gysylltiedig nad yw ar gael i'r disgyblion fel arfer;
- y maes parcio (sef un bae parcio fesul athro fel arfer, ac ychydig o faeau i ymwelwyr a'r anabl).

A gall gynnwys:

- gofod i goetsys, bysiau neu dacsis ollwng disgyblion yn ddiogel, yn enwedig y rhai ag ADY neu anableddau;
- storfa feiciau dan glo (a gorchudd) ar gyfer disgyblion a staff.

Mae'n hollbwysig mynd ati i ystyried ffyrdd o wahanu'r fynedfa i ddisgyblion ar droed oddi wrth gylchrediad cerbydau, y fynedfa nwyddau a'r maes parcio, ac o ddarparu storfa feiciau dan glo sy'n weladwy ac yn ddigonol ar gyfer disgyblion hŷn.

### Mynediad i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig

Mae'n hanfodol darparu digon o ofod i ddisgyblion gyrraedd a gadael ysgol arbennig, gofod a all lenwi hyd at 40% o arwynebedd net y safle. Bydd yr union ofynion yn dibynnu ar drefniadau penodol yr ysgol a phwy fydd yn dod i'r ysgol. Mae rhai disgyblion yn cyrraedd ar droed, ar feic neu mewn bygi, ac efallai y bydd eraill yn defnyddio cadeiriau olwyn neu gymhorthion symudedd eraill. Bydd y mwyafrif yn cael eu cludo i'r safle, a gallai sawl cerbyd fod yn gollwng disgyblion ar yr un pryd.

Mae'n bwysig gwybod beth yw'r nifer a'r math posibl o gerbydau, ac am y broses o drosglwyddo'r disgyblion i'r ysgol. Er enghraifft, mae angen cynllun parcio gwahanol ar finibysiau â drysau yn y cefn (a allai olygu goblygiadau posibl o ran yr arwynebedd) i finibysiau â drysau ar yr ochr. Mae'r fformiwla ar gyfer yr arwynebedd nad yw'n net lleiaf yn golygu mai dim ond ar gyfer cyrraedd/gollwng y gall ardal y fynedfa gael ei defnyddio, ond ar safle cyfyngedig gellir gwneud defnydd effeithiol o'r gofod os yw'r ardal ollwng, yn ei chyfanrwydd neu'n rhannol, wedi'i chynllunio i fod yn ardal anffurfiol a chymdeithasol galed a diogel yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae cyrraedd a gadael yr ysgol yn cymryd amser ac yn cynnwys nifer o staff. Bydd rhai disgyblion, gan gynnwys y rhai ag awtistiaeth, yn teimlo'n bryderus; mae gan rai disgyblion lai o ymwybyddiaeth o beryglon traffig neu ni allant weld na chlywed cerbydau. Rhaid i'r broses fod yn bwyllog ac yn effeithlon a sicrhau iechyd a diogelwch. Mae trosglwyddo disgyblion mewn cadeiriau olwyn o gefn neu ochr cerbyd yn broses araf, ac yn un sy'n gorfod digwydd ym mhob tywydd; dylai fod yna gysgod o'r cerbyd i fynedfa'r disgyblion. Dylai mynediad i'r safle mewn ysgol arbennig ddarparu'r canlynol:

- cylchrediad i gerbydau, boed yn drafnidiaeth gyhoeddus neu breifat, sy'n cynnwys gollwng disgyblion heb greu tagfeydd (er enghraifft trwy gyfrwng llif traffig unffordd neu gylchfan);
- mynediad hawdd i ambiwlansys godi disgyblion wrth y brif fynedfa neu'r fynedfa i ddisgyblion;
- llwybrau i gerddwyr sy'n hygyrch, gwastad neu ar ffurf ramp ac iddynt arwynebau gwrthlithro sy'n draenio'n dda a lle nad oes peryglon baglu; hefyd, llwybr hygyrch i fyny grisiau gerllaw i roi dewis;
- goleuadau allanol o safon dda ar hyd llwybrau ac iddynt arwyddion clir a darllenadwy, cyferbyniad gweledol, a dynodwyr llwybrau synhwyraidd i helpu annibyniaeth.

## Arwynebedd Atodol i'r Safle

Gall unrhyw ysgol fod ag ardaloedd atodol ar gyfer swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â'r ysgol neu swyddogaethau cymorth. Bydd unrhyw ardal ar y safle sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hyn yn arwynebedd atodol i'r safle, ac mae'n bosibl y bydd gofyn iddo hefyd gael ei ariannu trwy ffrydiau ariannu cydgysylltiedig eraill.

Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys gofod chwarae ar gyfer crèche, maes parcio ychwanegol at ddefnydd y gymuned, neu welliannau i ddarpariaeth chwaraeon sydd hefyd yn cael ei defnyddio gan y gymuned.

# Atodiad 1

# Fformiwlâu Meintiau Ysgolion

# Fformiwla Arwynebeddau Lleiaf a Mwyaf (Cynradd)

## Arwynebeddau ysgolion cynradd

| Arwynebedd | Lleiaf | Mwyaf |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr Arwynebedd Net | 236 + 3N | 260 + 3.22N |
| Fflôt | 18 + 0.17N | |
| Ardal Addysgu Sylfaenol | 0 + 2.1N | 30 + 2.2N |
| Neuaddau a Stiwdios | 100 + 0.3N | 115 + 0.35N |
| Storfeydd | 45 + 0.25N | 60 + 0.3N |
| Staff a Gweinyddu | 30 + 0.2N | 45 + 0.25N |
| Ardaloedd Adnoddau Dysgu | 15 + 0.15N | 35+ 0.23N |
| Gwasanaethau | 15 + 0.25N | 20 + 0.3N |
| Canolfan Adnoddau Llyfrgell | 15 + 0.08N | |
| Cyfleusterau Cegin | 0 + 0.1N | 22.5 + 0.23N |
| Bwyta | 15 + 0.3N | |
| Arwynebedd Net y Safle | 2,000 + 32N | |
| Caeau chwarae | 0 + 20N | 750 + 22.5N |
| Chwarae Meddal<br>(Anffurfiol a Chymdeithasol) | 800 + 2.5N | 1,000 + 3N |
| Cyrtiau Gemau | 600 + 2N | 800 + 2.5N |
| Chwarae Caled<br>(Anffurfiol a Chymdeithasol) | 400 + 1.5N | 600 + 2N |
| Arwynebedd Cynefin | 200 + 1N | 400 + 1.5N |

## Arwynebeddau penodol i ystafelloedd dosbarth

| Arwynebedd | Lleiaf | Mwyaf |
|---|---|---|
| Ystafell Ddosbarth Fawr | 6 + 1.9G | 7 + 2.1G |
| Ystafell Ddosbarth Safonol | 5 + 1.7G | 6 + 1.9G |
| Lleoliad Dosbarth Bach | 4 + 1.5G | 5 + 1.7G |
| Ystafell Grŵp | 2 + 1.1G | 4 + 1.5G |

# Fformiwla Arwynebeddau Lleiaf a Mwyaf (Uwchradd)

## Arwynebeddau Uwchradd

| Arwynebedd | Lleiaf | Mwyaf |
|---|---|---|
| Arwynebedd Net | 1,030 + 4.31N | 1,300 + 4.7N |
| Fflôt | 270 + 0.39N | |
| Ardal addysgu sylfaenol | 50 + 3N | 135 + 3N |
| Neuaddau | 600 + 0.3N | 750 + 0.35N |
| Storfeydd | 175 + 0.35N | 225 + 0.4N |
| Staff a Gweinyddu | 125 + 0.3N | 175 + 0.35N |
| Adnoddau Dysgu | 75 + 0.25N | 135 + 0.28N |
| Adnoddau Dysgu (11-18 oed) | 125 + 0.3N | 200 + 0.34N |
| Bwyta a Chymdeithasol | 25 + 0.2N | 75 + 0.25N |
| Bwyta a Chymdeithasol (11-18 oed) | 100 + 0.26N | 175 + 0.31N |
| Adnoddau Llyfrgell | 40 + 0.08N | |
| Cegin | 0 + 0.1N | 15 + 0.15N |
| Arwynebedd net y safle | | 13,000 + 47N |
| Caeau chwarae | 10,000 + 35N | |
| Anffurfiol a Chymdeithasol Meddal | 800 + 2.5N | 1,000 + 3N |
| Cyrtiau Gemau (Wyneb Caled) | 600 + 2N | 800 + 2.5N |
| Anffurfiol a Chymdeithasol Caled | 400 + 1.5N | 600 + 2N |
| Arwynebedd Cynefin | 200 + 1N | 400 + 1.5N |

## Additional Sixth form area

| Arwynebedd | Lleiaf | Mwyaf |
|---|---|---|
| Arwynebedd net ychwanegol | Cyfanswm yr arwynebedd lleiaf | 300 + 5.7N |
| Arwynebedd addysgu sylfaenol ychwanegol | 150 + 3.3N | 250 + 3.6N |
| Gofod neuadd ychwanegol | 0.3N | 0.35N |
| Storfeydd ychwanegol | 25 + 0.4N | 50 + 0.45N |
| Staff a gweinyddu ychwanegol | 0.35N | 25 + 0.4N |
| Adnoddau dysgu ychwanegol | 50 + 0.45N | 75 + 0.25N |
| Bwyta a chymdeithasol ychwanegol | 75 + 0.5N | 100 + 0.55N |

## Meintiau penodol i ystafelloedd dosbarth

| Arwynebedd | Lleiaf | Mwyaf |
|---|---|---|
| Deunyddiau Gwrthiannol | 27 + 4G | 31 + 4.4G |
| Ystafell Fwyd | 28 + 3.6G | 27 + 4G |
| Electroneg a systemau rheoli, labordy gwyddoniaeth y chweched dosbarth | 19 + 3.2G | 28 + 3.6G |
| Ystafell gelf fawr (tecstilau neu 3D), tecstilau, ystafell gelf y chweched dosbarth, cynhyrchion graffeg | 15 + 2.8G | 19 + 3.2G |
| Ystafell gelf safonol | 11 + 2.4G | 15 + 2.8G |
| Labordy gwyddoniaeth | 11 + 2.4G | 15 + 2.8G |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), astudiaethau busnes, Labordy iaith | 7 + 2.1G | 11 + 2.4G |
| Ystafell ddosbarth fawr | 6 + 1.9G | 7 + 2.1G |
| Ystafell ddosbarth safonol | 5 + 1.7G | 6 + 1.9G |
| Ystafell ddosbarth fach | 4 + 1.5G | 5 + 1.7G |
| Ystafell grŵp bach | 2 + 1.1G | 4 + 1.5G |

## Y gofynion o ran ystafelloedd ADY

| Arwynebedd | Lleiaf | Mwyaf |
|---|---|---|
| **Yn gallu cerdded** | | |
| Arwynebedd gros | 700 + 14.5N | 825 + 156.5N |
| Arwynebedd net | 475 + 10N | 575 + 10.7N |
| Fflôt | 325 + 8.9N | 475 + 10N |
| Addysgu sylfaenol | 6.5N | 8.5N |
| Neuaddau, addysg gorfforol, bwyta a chymdeithasol | 100 + 0.6N | 175 + 0.8N |
| Staff a gweinyddu | 90 + 0.8N | 120 + 1.2N |
| Storfeydd | 75 + 0.6N | 105 + 1N |
| Adnoddau dysgu | 60 + 0.4N | 105 + 1N |
| **Ddim yn gallu cerdded** | | |
| Arwynebedd gros | 900 + 18.5N | 1,050 + 20.5N |
| Arwynebedd net | 550 + 12.4N | 625 + 13.6 |
| Fflôt | 385 + 10.9N | 550 + 12.4N |
| Addysgu sylfaenol | 7.5N | 9.5N |
| Neuaddau, addysg gorfforol, bwyta a chymdeithasol | 100 + 0.8N | 150 + 1.6N |
| Staff a gweinyddu | 90 + 0.8N | 120 + 1.2N |
| Storfeydd | 75 + 0.6N | 150 + 1.6N |
| Adnoddau dysgu | 120 + 1.2N | 165 + 1.8N |
| **Yn gallu cerdded ac yn cynnwys disgyblion uwchradd** | | |
| Arwynebedd gros | 1,050 + 14.5N | 1,250 + 16.5N |
| Arwynebedd net | 725 + 10N | 825 + 10.7N |
| Fflôt | 525 + 8.9N | 725 + 10N |
| Addysgu sylfaenol | 150 + 6.5N | 200 + 8.5N |
| Neuaddau, addysg gorfforol, bwyta a chymdeithasol | 150 + 0.6N | 225 + 1.8N |
| Staff a gweinyddu | 90 + 0.8N | 135 + 1.4N |
| Storfeydd | 75 + 0.6N | 105 + 1N |
| Adnoddau dysgu | 60 + 0.4N | 120 + 1.2N |
| **Ddim yn gallu cerdded ac yn cynnwys disgyblion uwchradd** | | |
| Arwynebedd gros | 1,250 +18.5N | 1,500 + 20.5N |
| Arwynebedd net | 775 + 12.4N | 875 + 13.6N |
| Fflôt | 585 + 10.9N | 775 + 12.4N |
| Addysgu sylfaenol | 175 + 7.5N | 200 + 9.5N |
| Neuaddau, addysg gorfforol, bwyta a chymdeithasol | 125 + 0.8N | 200 + 2N |
| Staff a gweinyddu | 90 + 0.8N | 120 + 1.2N |
| Storfeydd | 75 + 0.6N | 150 1.6N |
| Adnoddau dysgu | 120 + 1.2N | 165 + 1.8N |

## Y gofynion o ran ystafelloedd ADY

| Arwynebedd | Lleiaf | Mwyaf |
|---|---|---|
| **Darpariaeth Gynradd Amgen (iechyd)** | | |
| Arwynebedd gros | 275 + 10.5N | 300 + 12.5N |
| Arwynebedd net | 165 + 7.6N | 185 + 8.5N |
| Fflôt | 110 + 6.5N | 165 + 7.6N |
| Addysgu sylfaenol | 4.5N | 60 + 5.5N |
| Neuaddau, addysg gorfforol, bwyta a chymdeithasol | 40 + 0.6N | 70 + 0.8N |
| Staff a gweinyddu | 35 + 0.5N | 70 + 0.8N |
| Storfeydd | 25 + 0.5N | 55 + 0.7N |
| Adnoddau dysgu | 10 + 0.4N | 35 + 0.5N |
| **Darpariaeth Gynradd Amgen (ymddygiad)** | | |
| Arwynebedd gros | 300 + 12.5N | 350 + 14.5N |
| Arwynebedd net | 180 + 9N | 210 + 10N |
| Fflôt | 110 + 7.5N | 180 + 9N |
| Addysgu sylfaenol | 5.5N | 60 + 6.5N |
| Neuaddau, addysg gorfforol, bwyta a chymdeithasol | 40 + 0.6N | 70 + 0.8N |
| Staff a gweinyddu | 35 + 0.5N | 70 + 0.8N |
| Storfeydd | 25 + 0.5N | 40 + 0.6N |
| Adnoddau dysgu | 10 + 0.4N | 35 + 0.5N |
| **Darpariaeth Amgen (iechyd) ac yn cynnwys disgyblion uwchradd** | | |
| Arwynebedd gros | 400 + 10.5N | 450 + 12.5N |
| Arwynebedd net | 250 + 7.6N | 275 + 8.5N |
| Fflôt | 180 + 6.5N | 250 + 7.6N |
| Addysgu sylfaenol | 60 + 4.5N | 120 + 5.5N |
| Neuaddau, addysg gorfforol, bwyta a chymdeithasol | 40 + 0.6N | 70 + 0.8N |
| Staff a gweinyddu | 35 + 0.5N | 70 + 0.8N |
| Storfeydd | 35 + 0.5N | 55 + 0.7N |
| Adnoddau dysgu | 10 + 0.4N | 35 + 0.5N |
| **Darpariaeth Amgen (ymddygiad) ac yn cynnwys disgyblion uwchradd** | | |
| Arwynebedd gros | 450 + 12.5N | 525 + 14.5N |
| Arwynebedd net | 300 + 9N | 350 + 10N |
| Fflôt | 260 + 7.5N | 300 + 9N |
| Addysgu sylfaenol | 60 + 5.5N | 120 + 6.5N |
| Neuaddau, addysg gorfforol, bwyta a chymdeithasol | 120 + 0.6N | 150 + 1N |
| Staff a gweinyddu | 35 + 0.5N | 70 + 0.8N |
| Storfeydd | 35 + 0.5N | 55 + 0.7N |
| Adnoddau dysgu | 10 + 0.4N | 35 + 0.5N |
| **Darpariaeth ag adnoddau arbennig (yn gallu cerdded), unrhyw oedran** | | |
| Arwynebedd gros | 60 + 5N | 75 + 6.5N |

## Y gofynion o ran ystafelloedd ADY

| Arwynebedd | Lleiaf | Mwyaf |
|---|---|---|
| Arwynebedd net | 42 + 3.6N | 52 + 4.6N |
| Fflôt | 25 + 2N | 42 + 3.5N |
| Addysgu sylfaenol | Amh. | Amh. |
| Adnoddau dysgu, bwyta a chymdeithasol | 15 + 1.6N | 30 + 3.6N |
| Staff a gweinyddu | 5 + 0.2N | 15 + 0.8N |
| Storfeydd | 5 + 0.2N | 5 + 0.8N |
| **Darpariaeth ag adnoddau arbennig (anabledd corfforol), unrhyw oedran** | | |
| Arwynebedd gros | 60 + 5N | 75 + 6.5N |
| Arwynebedd net | 30 + 3.6N | 40 + 4.4N |
| Fflôt | 25 + 2.2N | 30 + 3.6N |
| Addysgu sylfaenol | Amh. | Amh. |
| Adnoddau dysgu, bwyta a chymdeithasol | 15 + 1.2N | 20 + 2N |
| Staff a gweinyddu | 5 + 0.2N | 15 + 0.8N |
| Storfeydd | 5 + 0.8N | 15 + 1.6N |
| **Uned (yn gallu cerdded), unrhyw oedran** | | |
| Arwynebedd gros | 60 + 10.5N | 75 + 12.5N |
| Arwynebedd net | 42 + 7.6N | 52 + 8.8N |
| Fflôt | 25 + 5.7N | 42 + 7.6N |
| Addysgu sylfaenol | 4.5N | 6N |
| Adnoddau dysgu, bwyta a chymdeithasol | 15 + 0.8N | 20 + 2N |
| Staff a gweinyddu | 5 + 0.2N | 15 + 0.8N |
| Storfeydd | 5 + 0.2N | 15 + 0.8N |
| **Uned (yn gallu cerdded – anhwylder ar y sbectrwm awtistig), unrhyw oedran** | | |
| Arwynebedd gros | 60 + 12.5N | 75 + 14.5N |
| Arwynebedd net | 42 + 9N | 52 + 10N |
| Fflôt | 25 + 7.1N | 42 + 9N |
| Addysgu sylfaenol | 5.5N | 7.5N |
| Adnoddau dysgu, bwyta a chymdeithasol | 15 + 1.2N | 20 + 2N |
| Staff a gweinyddu | 5 + 0.2N | 15 + 0.8N |
| Storfeydd | 5 + 0.2N | 15 + 0.8N |

## Gofynion safle ADY

| Arwynebedd | Lleiaf | Mwyaf |
|---|---|---|
| **Arwynebeddau allanol gros a net ar gyfer ysgolion arbennig heb gemau tîm** | | |
| Arwynebedd gros y safle | 8,000 + 36N | 11,500 + 42N |
| Arwynebedd nad yw'n net y safle | 4,500 + 21N | 6,000 + 24N |
| Arwynebedd net y safle | 3,500 + 15N | 5,500 + 18N |
| Parth anffurfiol a chymdeithasol caled | 600 + 2N | 1,800 + 5N |
| Parth anffurfiol a chymdeithasol meddal | 600 + 2N | 1,800 + 5N |
| Parthau ardaloedd cynefinoedd | 200 + 1N | 1,000 + 3N |
| Parthau addysg gorfforol awyr agored caled | 200 + 1N | 600 + 2N |
| Parthau addysg gorfforol awyr agored meddal | 0 + 0N | 600 + 2N |
| **Arwynebeddau allanol gros a net ar gyfer ysgolion arbennig gyda gemau tîm** | | |
| Arwynebedd gros y safle | 11,500 + 42N | 15,000 + 48N |
| Arwynebedd nad yw'n net y safle | 4,500 + 21N | 6,000 + 24N |
| Arwynebedd net y safle | 7,000 + 21N | 9,000 + 24N |
| Parth anffurfiol a chymdeithasol caled | 600 + 2N | 1,800 + 5N |
| Parth anffurfiol a chymdeithasol meddal | 600 + 2N | 1,800 + 5N |
| Parthau ardaloedd cynefinoedd | 200 + 1N | 1,000 + 3N |
| Parthau addysg gorfforol awyr agored caled | 400 + 1.5N | 800 + 2.5N |
| Parthau addysg gorfforol awyr agored meddal | 2,800 + 7.5N | 3,800 + 10N |

# Atodiad 2

# Rhestrau enghreifftiol ar gyfer 210 o ysgolion cynradd a 900 o ysgolion uwchradd

## Ysgolion Cynradd

| Grŵp | Ystafell | Nifer y disgyblion: 105 – Nifer yr ystafelloedd | 105 – Arwynebedd (m²) | 210 – Nifer yr ystafelloedd | 210 – Arwynebedd (m²) | 315 – Nifer yr ystafelloedd | 315 – Arwynebedd (m²) | 420 – Nifer yr ystafelloedd | 420 – Arwynebedd (m²) | 630 – Nifer yr ystafelloedd | 630 – Arwynebedd (m²) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysgu | Dosbarth derbyn | 0.5 | 33 | 1 | 66 | 1.5 | 99 | 2 | 132 | 3 | 198 |
| | Lleoliad dosbarthiadau'r babanod | 1 | 60 | 2 | 120 | 3 | 180 | 4 | 240 | 6 | 360 |
| | Lleoliad dosbarthiadau'r disgyblion iau | 2 | 120 | 4 | 240 | 6 | 360 | 8 | 480 | 12 | 720 |
| Ymarferol arbenigol | Bwyd/Gwyddoniaeth/Dylunio a Thechnoleg | 1 | 24 | 1 | 24 | 1 | 24 | 1 | 24 | 1 | 24 |
| | Ystafell grŵp Bwyd/Gwyddoniaeth/Dylunio a Thechnoleg/TGCh | | | | | | | | | 15 | 38 |
| | Ystafelloedd TGCh ((nifer y cyfrifiaduron)) | ((8)) | 38 | ((15)) | 38 | ((23)) | 54 | ((30)) | 68 | ((30)) | 68 |
| Neuaddau | Y brif neuadd | 1 | 140 | 1 | 180 | 1 | 150 | 1 | 150 | 1 | 200 |
| | Neuadd fach | | | | | | | 1 | 80 | 1 | 80 |
| | Stiwdio | | | | | 1 | 50 | | | 1 | 50 |
| Adnodd dysgu | Canolfan adnoddau llyfrgell | 1 | 28.5 | 1 | 39 | 1 | 49.5 | 1 | 60 | 1 | 81 |
| | Ystafell grŵp bach (Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig) | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 |
| | Ystafell grŵp bach | 0 | 0 | 1 | 9 | 2 | 18 | 3 | 27 | 5 | 45 |
| Staff a gweinyddu | Swyddfa'r Pennaeth | 1 | 10 | 1 | 12 | 1 | 14 | 1 | 16 | 1 | 20 |
| | Swyddfa'r uwch-reolwyr | | | | | 1 | 8 | 1 | 8 | 1 | 8 |
| | Ystafell y staff | 1 | 19 | 1 | 32 | 1 | 45 | 1 | 58 | 1 | 84 |
| | Swyddfa gyffredinol | 1 | 8 | 1 | 10 | 1 | 12 | 1 | 14 | 1 | 18 |
| | Clafdy | 1 | 3 | 1 | 3 | 1 | 3 | 1 | 3 | 1 | 3 |
| | Mynedfa/Derbynfa | 1 | 2 | 1 | 3 | 1 | 4 | 1 | 5 | 1 | 7 |
| | Llungopïwr/Reprograffeg | 1 | 2 | 1 | 4 | 1 | 6 | 1 | 8 | 1 | 12 |
| | Ystafell therapi ADY/cyf-weld ysgogiadol | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 |
| | Cyfweliadau/y gwasanaethau cymdeithasol | | | 1 | 8 | 1 | 8 | 1 | 8 | 1 | 8 |
| Storfeydd | Storfeydd dosbarthiadau (derbyn) | 1 | 3 | 1 | 3 | 1 | 3 | 2 | 6 | 3 | 9 |
| | Storfeydd dosbarthiadau (babanod ac iau) | 3 | 4.5 | 6 | 9 | 9 | 13.5 | 12 | 18 | 18 | 27 |
| | Storfeydd arbenigol | 2 | 16 | 3 | 24 | 4 | 32 | 3 | 24 | 4 | 32 |
| | Storfeydd addysg gorfforol (ger y neuadd) | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 | 2 | 24 |
| | Storfeydd addysg gorfforol (allanol) | 1 | 4 | 1 | 4 | 1 | 4 | 1 | 4 | 1 | 4 |
| Storfeydd nad ydynt yn rhai addysgu | Stoc ganolog | 1 | 8 | 1 | 8 | 1 | 8 | 1 | 8 | 1 | 8 |
| | Ystafelloedd cotiau/storfa bocsys bwyd | | 10.5 | | 21 | | 31.5 | | 42 | | 63 |
| | Storfa cadeiriau/byrddau cinio | 2 | 0 | 2 | 12 | 2 | 16 | 3 | 16 | 3 | 20 |
| | Storfa llwyfan/cyfarpar | 1 | 0 | 1 | 4 | 1 | 8 | 1 | 8 | 1 | 8 |
| | Storfa gymunedol | 1 | 4 | 1 | 4 | 1 | 4 | 1 | 4 | 1 | 4 |
| | Storfa'r gofalwyr/storfa cynnal a chadw | 1 | 0 | 1 | 5 | 1 | 6 | 1 | 7 | 1 | 9 |
| | Storfa'r glanhawyr | 2 | 3 | 2 | 3 | 3 | 4.5 | 3 | 4.5 | 4 | 6 |
| Cegin | Cegin | 1 | 43.5 | 1 | 67.5 | 1 | 91.5 | 1 | 115.5 | 1 | 163.5 |
| | Cownter arlwyo | 1 | 6 | 1 | 6 | 1 | 8 | 1 | 8 | 1 | 10 |

| Grŵp | Ystafell | Nifer y disgyblion: 105 | | 210 | | 315 | | 420 | | 630 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer yr ystafelloedd | Arwynebedd ($m^2$) | Nifer yr ystafelloedd | Arwynebedd ($m^2$) | Nifer yr ystafelloedd | Arwynebedd ($m^2$) | Nifer yr ystafelloedd | Arwynebedd ($m^2$) | Nifer yr ystafelloedd | Arwynebedd ($m^2$) |
| Toiledau | Toiledau'r dosbarth derbyn | 1 | 4 | 2 | 8 | 3 | 12 | 3 | 12 | 5 | 20 |
| | Toiledau'r disgyblion eraill | | 15 | | 30 | | 45 | | 60 | | 90 |
| | Toiledau/cyfleusterau hylendid hygyrch | | 10 | | 12 | | 14 | | 16 | | 20 |
| | Toiledau'r staff | | 3.5 | | 7 | | 10.5 | | 14 | | 21 |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cylchrediad** | | | 130 | | 203 | | 276 | | 349 | | 496 |
| **Peiriannau** | | | 28.825 | | 46.05 | | 62.55 | | 77.925 | | 113.1 |
| **Paredau** | | | 29 | | 45 | | 61 | | 78 | | 110 |
| **Cyfanswm yr arwynebedd ($m^2$)** | | | 846.325 | | 1,345.55 | | 1,831.55 | | 2,288.925 | | 3,305.6 |

## Ysgolion Uwchradd

Nifer y disgyblion

| Grŵp | Ystafell | 600 | | 900 | | 1200 | | 1500 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer yr ystafelloedd | Arwynebedd ($m^2$) | Nifer yr ystafelloedd | Arwynebedd ($m^2$) | Nifer yr ystafelloedd | Arwynebedd ($m^2$) | Nifer yr ystafelloedd | Arwynebedd ($m^2$) |
| **Addysgu** | Ystafell ddosbarth | 16 | 896 | 24 | 1344 | 32 | 1792 | 38 | 2128 |
| | Ystafell ddosbarth arall | 16 | 64 | 24 | 96 | 32 | 128 | 38 | 152 |
| | Ystafell TG | 1 | 77 | 2 | 154 | 3 | 231 | 4 | 308 |
| | Labordy gwyddoniaeth | 3 | 270 | 4 | 360 | 5 | 450 | 7 | 630 |
| | Stiwdio wyddoniaeth/arddangosfeydd gwyddoniaeth | 3 | 60 | 4 | 80 | 5 | 100 | 7 | 140 |
| **Dylunio a Thechnoleg** | Ystafell fwyd | 1 | 353.7 | 1 | 523.8 | 2 | 695.7 | 2 | 877.5 |
| | Deunyddiau gwrthiannol | 1 | | 2 | | 2 | | 3 | |
| | Electroneg a rheoli | 1 | | 1 | | 2 | | 2 | |
| | Tecstilau adeiladu | 1 | | 1 | | 1 | | 2 | |
| | Ystafell graffeg | | | 1 | | 1 | | 1 | |
| **Celf** | Ystafell gelf fawr | 1 | 105 | 2 | 210 | 2 | 210 | 2 | 210 |
| | Ystafell gelf gyffredinol | | | 1 | 90 | 1 | 90 | 2 | 180 |
| **Cerdd a Drama** | Datganiadau cerdd | 1 | 90 | 1 | 90 | 1 | 90 | 1 | 90 |
| | Ystafell ddosbarth cerddoriaeth | | | 1 | 67 | 1 | 67 | 2 | 134 |
| | Stiwdio ddrama | | | | | 1 | 90 | 1 | 90 |
| | Stiwdio glyweledol | | | | | | | 1 | 90 |
| **Neuaddau** | Neuadd chwaraeon 4 cwrt | 1 | 594 | 1 | 594 | 1 | 594 | 1 | 594 |
| | Stiwdio gweithgareddau | 1 | 150 | 1 | 150 | 1 | 180 | 1 | 180 |
| | Y brif neuadd | 1 | 200 | 1 | 280 | 1 | 290 | 1 | 300 |
| **Ardaloedd adnoddau dysgu** | Lleoliad ADY | 1 | 40 | 1 | 40 | 1 | 40 | 1 | 40 |
| | Ystafell grŵp bach | 1 | 16 | 1 | 16 | 2 | 32 | 2 | 32 |
| | Ystafell grŵp bach/cyf-weld | 2 | 20 | 3 | 30 | 4 | 40 | 5 | 50 |
| | Ystafell grŵp cerdd/ymarfer | 4 | 28 | 7 | 49 | 7 | 49 | 10 | 70 |
| | Ystafell ensemble cerddoriaeth | 1 | 20 | 1 | 20 | 1 | 20 | 2 | 40 |
| | Ystafell recordio/reoli | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 |
| | Ystafell odynnau | 1 | 4 | 1 | 4 | 1 | 4 | 1 | 4 |
| | Ystafell dywyll | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 |
| | Canolfan adnoddau llyfrgell | 1 | 99.2 | 1 | 124 | 1 | 148.8 | 1 | 173.6 |
| **Staff a gweinyddu** | Swyddfa'r Pennaeth | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 |
| | Ystafell gyfarfod | 1 | 16 | 1 | 16 | 1 | 20 | 1 | 24 |
| | Swyddfeydd | 10 | 80 | 13 | 104 | 15 | 120 | 18 | 144 |
| | Swyddfa gymunedol a swyddfeydd eraill | 4 | 32 | 3 | 24 | 3 | 24 | 2 | 16 |
| | Ystafell therapi ADY/cyf-weld ysgogiadol | 1 | 18 | 1 | 18 | 1 | 18 | 1 | 18 |
| | Mynedfa/derbynfa a chlafdy cyfagos | 1 | 13 | 1 | 16 | 1 | 19 | 1 | 22 |
| | Swyddfa gyffredinol | 1 | 33 | 1 | 48 | 1 | 63 | 1 | 78 |

| Grŵp | Ystafell | Nifer y disgyblion: 600 – Nifer yr ystafelloedd | 600 – Arwynebedd ($m^2$) | 900 – Nifer yr ystafelloedd | 900 – Arwynebedd ($m^2$) | 1200 – Nifer yr ystafelloedd | 1200 – Arwynebedd ($m^2$) | 1500 – Nifer yr ystafelloedd | 1500 – Arwynebedd ($m^2$) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff a gweinyddu | Ystafell y staff | 1 | 50 | 1 | 60 | 1 | 70 | 1 | 80 |
| | Ystafelloedd gwaith y staff | 5 | 70 | 5 | 100 | 5 | 130 | 1 | 160 |
| | Reprograffeg | 1 | 20 | 1 | 26 | 1 | 32 | 1 | 38 |
| | Technegydd TGCh | 1 | 8 | 1 | 8 | 1 | 8 | 1 | 8 |
| Storfeydd (addysgu) | TG addysgu cyffredinol/llyfrgell | 6 | 18 | 9 | 27 | 11 | 33 | 14 | 42 |
| | Gofodau cerdd neu ddrama | 7 | 42 | 13 | 78 | 18 | 108 | 25 | 150 |
| | Storfeydd allanol ar gyfer offerynnau | 2 | 20 | 2 | 20 | 2 | 20 | 2 | 20 |
| | Storfeydd addysg gorfforol | 2 | 88 | 2 | 88 | 2 | 88 | 2 | 88 |
| | Ystafell baratoi gwyddoniaeth a storfa gemegol | 1 | 65 | 1 | 91 | 1 | 117 | 1 | 143 |
| | Paratoi bwyd | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 |
| | Ystafell baratoi deunyddiau gwrthiannol | 1 | 50 | 1 | 50 | 1 | 50 | 1 | 50 |
| Storfeydd (nad ydynt yn rhai addysgu) | Stoc ganolog | | 12 | | 15 | | 18 | | 24 |
| | Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig (SENCO)/ cadeiriau olwyn/cyfarpar | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 | 1 | 12 |
| | Storfeydd dan glo/arholiad/cymunedol | 2 | 16 | 2 | 16 | 2 | 16 | 2 | 16 |
| | Cypyrddau clo ar gyfer storio eiddo personol | | 42 | | 63 | | 84 | | 105 |
| | Cypyrddau clo cymunedol | 1 | 4 | 1 | 4 | 1 | 4 | 1 | 4 |
| | Storfa cadeiriau | 1 | 12 | 1 | 18 | 1 | 24 | 1 | 30 |
| | Storfa cynnal a chadw | 1 | 8 | 1 | 8 | 2 | 16 | 2 | 16 |
| | Storfa'r glanhawyr | 4 | 6 | 6 | 9 | 8 | 12 | 10 | 15 |
| Ardaloedd bwyta/ cymdeithasol | Ardal fwyta | 1 | 160 | 1 | 215 | 1 | 270 | 1 | 325 |
| | Ardal gymdeithasol a brechdanau | 1 | 30 | 1 | 35 | 1 | 40 | 1 | 45 |
| Cyfleuster arlwyo | Cegin | 1 | 68 | 1 | 101 | 1 | 134 | | 167 |
| Toiledau | Ystafelloedd newid a chawodydd y disgyblion | 2 | 100 | 2 | 134 | 2 | 168 | 2 | 202 |
| | Cyfleusterau hylendid a newid hygyrch a rhywedd-niwtral i staff | | 30 | | 30 | | 30 | | 30 |
| | Toiledau'r disgyblion | | 90 | | 129 | | 168 | | 207 |
| | Toiledau disgyblion ychwanegol gydag ardaloedd ADY | | | | | | | | |
| | Toiledau hygyrch | | | | | | | | |
| | Toiledau'r staff | | 21 | | 32 | | 42 | | 53 |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Cyfarpar/Adeiladau** | | | 162.396 | | 221.552 | | 272.22 | | 329.364 |
| **Paredau** | | | 187 | | 247 | | 306 | | 365 |
| **Cylchrediad (70% o'r gros)** | | | 1,128 | | 1,520 | | 1,903 | | 2,292 |
| **Cyfanswm yr arwynebedd ($m^2$)** | | | 5,846.206 | | 7,953.352 | | 9,828.72 | | 11,879.464 |

# Atodiad 3

# Geirfa a Chyfeiriadau

## Geirfa

**ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol)**
Yn cyfeirio at anghenion addysgol arbennig disgyblion y mae arnynt angen cymorth ychwanegol i ddysgu, cymorth sydd y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysgol safonol.

**Darpariaeth Amgen**
Trefniadau addysgol ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu mynychu ysgolion prif ffrwd oherwydd problemau ymddygiadol, emosiynol, cymdeithasol neu iechyd. Gall y ddarpariaeth amgen fod yn un dros dro neu'n fwy hirdymor, yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn.

**Bwletin Adeiladu**
Dogfennau hanesyddol gan yr Adran Addysg a oedd yn darparu canllawiau arwynebedd ar gyfer adeiladau ysgolion. Mae'r canllawiau cyfredol ar gyfer Cymru bellach yn wahanol i safonau Bwletinau Adeiladu 98, 99, a 104.

**Unedau Dynodedig (Unedau)**
Cyfleusterau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd sydd wedi'u cynllunio ar gyfer disgyblion ag anghenion penodol, megis amhariad lleferydd, amhariad iaith neu amhariad ar y synhwyrau.

**Fflôt**
Yr arwynebedd ychwanegol o fewn cyfanswm yr arwynebedd net argymelledig y gellir ei ddyrannu'n hyblyg i ddiwallu anghenion penodol ysgol ac sy'n cyfateb i 8-11% o'r arwynebedd mwyaf argymelledig.

**Arwynebedd Gros**
Cyfanswm arwynebedd mewnol adeilad, gan gynnwys yr holl ofodau swyddogaethol a'r gofodau nad ydynt yn rhai addysgu.

**Arwynebedd Net**
Ardal ddefnyddiadwy adeilad, gan gynnwys gofodau a ddefnyddir yn uniongyrchol at ddibenion addysgol, ond gan eithrio rhai ardaloedd cylchredeg ac nad ydynt yn rhai addysgu penodol.

**Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (SCfL)**
Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n ariannu adeiladau newydd a gwaith adnewyddu mawr ar ysgolion i gyd-fynd ag anghenion Cwricwlwm i Gymru a nodau cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

**Darpariaeth ag Adnoddau Arbenigol (SRP)**
Cyfleusterau mewn ysgolion prif ffrwd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu neu gorfforol penodol. Yn wahanol i unedau, mae darpariaethau ag adnoddau arbenigol yn caniatáu i ddisgyblion dreulio mwyafswm eu hamser yn ystafelloedd dosbarth y brif ffrwd, gan geisio cymorth pan fo angen.

**Rhestr Ystafelloedd (SOA)**
Dogfen sy'n amlinellu'r nifer a'r mathau o ofodau sy'n ofynnol ar gyfer ysgol, a hynny ar sail niferoedd y disgyblion, y cwricwlwm a'r ystod oedran.

**Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd (UPFSM)**
Polisi sy'n gorchymyn bod pob disgybl oed cynradd i gael prydau ysgol am ddim.

**BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu)**
Safon ryngwladol ar gyfer mesur a graddio cynaliadwyedd a pherfformiad amgylcheddol adeiladau, gyda'r sgôr "Rhagorol" yn aml yn ofynnol ar gyfer adeiladau newydd i ysgolion.

**Amlen yr Adeilad**
Yn cyfeirio at y waliau allanol, y toeau, y ffenestri, a'r drysau sy'n ffurfio cragen allanol adeilad, a ddylai fod yn ddiogel ac yn ddiddos rhag y tywydd.

**Cynnig Gofal Plant Cymru**
Rhaglen gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu gofal plant am ddim i rieni cymwys sy'n gweithio ac y mae ganddynt blant 3 i 4 oed. Mae'n dylanwadu ar y gofynion o ran lleoedd yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar mewn ysgolion.

### Cymraeg 2050
Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac sy'n effeithio ar y gofod a'r cynllunio ar gyfer y cwricwlwm yn achos addysg cyfrwng Cymraeg.

### Carbon Ymgorfforedig
Cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â deunyddiau a phrosesau codi adeilad. Mae ysgolion newydd yn anelu at fodloni'r targedau ar gyfer lleihau carbon ymgorfforedig.

### TGCh (Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu)
Adnoddau technoleg a ddefnyddir at ddibenion addysgol, sy'n aml yn gofyn am ofodau addysgu dynodedig ac ynddynt weithfannau cyfrifiadurol neu gysylltedd di-wifr.

### Systemau Carbon Isel a Di-garbon
Systemau mewn ysgolion sy'n lleihau neu'n dileu allyriadau carbon, gan gynnwys ffynonellau ynni adnewyddadwy megis paneli solar neu bympiau gwres, a hynny'n unol â nodau Carbon Sero Net Cymru.

### Carbon Sero Net
Safon lle nad yw adeilad yn cynhyrchu unrhyw allyriadau carbon yn rhan o'i ynni gweithredol, a tharged i bob ysgol newydd yng Nghymru erbyn 2030.

### Ynni Gweithredol
Yr ynni a ddefnyddir yn ystod gweithrediad adeilad o ddydd i ddydd, gan gynnwys gwresogi, oeri, goleuo a chyfarpar.

### Ystafell Beiriannau
Ardal yn adeilad ysgol sy'n gartref i'r cyfarpar mecanyddol a thrydanol angenrheidiol i wresogi ac oeri, ac i ddarparu cyflenwad dŵr a gwasanaethau hanfodol eraill.

### RIBA Plan of Work
Fframwaith a grëwyd gan Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) ac sy'n manylu ar gamau datblygu prosiect adeiladu o'r diffiniad strategol hyd at yr adeg y caiff ei ddefnyddio. Mae'r fframwaith yn arwain prosesau cynllunio ysgolion.

### ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol)
Gofynion disgyblion y mae arnynt angen cymorth addysgol arbenigol oherwydd anawsterau dysgu, corfforol neu synhwyraidd.

### Arwynebedd Atodol
Gofodau mewn ysgol a ddynodwyd ar gyfer swyddogaethau ychwanegol y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysgol sylfaenol, megis defnydd cymunedol, cymorth ADY, neu wasanaethau ysgol estynedig.

### Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS)
Datrysiadau rheoli dŵr a gynlluniwyd i leihau risgiau o lifogydd a hyrwyddo'r broses o adlenwi dŵr daear, a ymgorfforir yn aml ar dir ysgolion.

### Dyluniad Cyffredinol
Dull o ddylunio adeiladau sy'n gwneud gofodau'n hygyrch ac yn ddefnyddiadwy i bawb, ni waeth beth fo'u hoedran, eu gallu na'u hanabledd.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Deddfwriaeth sy'n arwain cyrff cyhoeddus yng Nghymru i ystyried cynaliadwyedd, cydlyniant cymunedol a chenedlaethau'r dyfodol wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau, ac sy'n dylanwadu ar ddyluniad ysgolion.

### Rhannu'n barthau
Rhannu gofodau ysgol yn seiliedig ar eu swyddogaeth, gan ganiatáu i ardaloedd penodol gael eu haddasu at ddefnydd cymunedol, eu cloi ar wahân, neu eu hoptimeiddio i ddibenion addysgol.

### Gofynion Hygyrchedd
Meini prawf dylunio sy'n sicrhau bod gan bob unigolyn, gan gynnwys y rhai ag anableddau, fynediad llawn i gyfleusterau'r ysgol. Maent yn cynnwys rampiau, coridorau llydan, lifftiau, a thoiledau hygyrch.

### Darpariaeth Dysgu Amgen
Rhaglenni addysgol a gynlluniwyd i gefnogi disgyblion na allant gymryd rhan mewn amgylcheddau ysgol traddodiadol oherwydd anghenion amrywiol. Caiff y rhaglenni eu hintegreiddio i mewn i gynlluniau ysgol.

### Fformiwlâu Meintiau Arwynebeddau
Defnyddir cyfrifiadau penodol wrth gynllunio ysgolion i bennu'r gofynion lleiaf a mwyaf o ran gofodau mewn perthynas â'r amrywiol fathau o ystafelloedd a gweithgareddau sydd mewn ysgolion.

### Gwasanaethau Adeiladau
Y systemau mewn ysgol sy'n darparu'r gwasanaethau hanfodol megis trydan, dŵr, gwresogi, awyru ac oeri, ac sy'n aml wedi'u lleoli mewn ystafelloedd peiriannau.

### System Ganolog
Dull o wresogi, oeri neu o reoli ynni lle mae un ffynhonnell ganolog yn cyflenwi'r gwasanaethau hyn ledled yr ysgol; system sy'n aml yn cael ei chyferbynnu â systemau datganoledig o ran effeithlonrwydd a chynaliadwyedd.

### Gofod Cylchredeg
Ardaloedd yn adeilad ysgol sy'n darparu lle i symud rhwng ystafelloedd, megis coridorau, grisiau, a chynteddau. Mae gofod cylchredeg yn elfen o'r arwynebedd nad yw'n net.

### Ysgolion Bro
Ysgolion sy'n ymgysylltu'n weithredol â'u cymunedau cyfagos trwy gynnig gofodau a gwasanaethau a rennir, a hynny'n aml y tu hwnt i oriau ysgol traddodiadol.

### Cwricwlwm i Gymru
Y fframwaith addysgol sy'n arwain ysgolion Cymru ac yn pwysleisio dysgu hyblyg, rhyngddisgyblaethol sy'n cyd-fynd â nodau unigolion uchelgeisiol, galluog ac iach.

### System Ddatganoledig
Systemau gwresogi neu oeri lle mae nifer o unedau llai wedi'u dosbarthu mewn adeilad drwyddo draw yn hytrach na bod yno un ffynhonnell ganolog; system sy'n galluogi prosesau rheoli lleol ac arbedion ynni posibl.

### Gofodau Bwyta a Chymdeithasol
Ardaloedd dynodedig mewn ysgolion i ddisgyblion fwyta a chymdeithasu, ac a gynllunnir i fod yn hyblyg ar gyfer amserlenni am yn ail ac i fodloni gofynion rhaglenni prydau ysgol.

### Newid Addysgol
Addasiadau i seilwaith neu gwricwla ysgolion sy'n ymateb i newidiadau mewn polisi, datblygiadau technolegol, neu anghenion addysgol sy'n esblygu.

### Ardaloedd Dysgu Amgylcheddol
Gofodau awyr agored neu dan do sydd wedi'u neilltuo ar gyfer addysg amgylcheddol, ac a all gynnwys gerddi, tai gwydr, neu lwybrau natur.

### Astudiaeth Ddichonoldeb
Dadansoddiad a gynhelir i asesu ymarferoldeb prosiect adeiladu ysgol, ac sy'n ystyried ffactorau megis maint y safle, y gyllideb, a'i gysondeb â gofynion addysgol.

### Poblogaeth Symudol
Disgyblion neu aelodau staff sy'n symud rhwng rhannau gwahanol o'r ysgol oherwydd amserlenni hyblyg, gan effeithio ar ofynion am ofodau mewn ardaloedd cyffredin.

### Gofodau Defnydd Hyblyg
Ardaloedd a gynlluniwyd at sawl diben, sy'n golygu y gallant gael eu haddasu ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau addysgu neu gymunedol.

### Lleoliad/Clwstwr TGCh
Ardaloedd â chyfarpar ar gyfer addysgu TGCh neu at ddefnydd technoleg cyffredinol; weithiau wedi'u grwpio mewn clystyrau i ddarparu mynediad a rennir ymysg dosbarthiadau.

### Addysg Gynhwysol
Dull addysgol sy'n sicrhau bod pob disgybl, ni waeth beth fo'i allu na'i angen, yn cael ei integreiddio'n llwyr i mewn i fywyd yr ysgol a bod ganddo fynediad i'r cwricwlwm llawn.

### Ardal Adnoddau Dysgu
Gofodau sy'n cynnwys adnoddau llyfrgell, offer digidol, a deunyddiau ar gyfer astudio annibynnol neu astudiaeth mewn grŵp bach; maent yn ategu'r cwricwlwm trwy ddarparu amgylcheddau dysgu hyblyg, tawel.

### Awyru Naturiol
Dull dylunio sy'n defnyddio ffenestri a nodweddion pensaernïol eraill i ddarparu awyr iach, gan leihau'r angen am awyru mecanyddol a chefnogi nodau amgylcheddol.

### Gofod Dysgu Awyr Agored
Ardaloedd ar dir yr ysgol a ddynodir ar gyfer gweithgareddau addysgol, ac sy'n aml wedi'u cynllunio i gefnogi dysgu amgylcheddol neu addysg gorfforol.

### Staff Peripatetig
Aelodau staff, megis therapyddion neu arbenigwyr, sy'n teithio rhwng sawl ysgol neu leoliad, gan olygu bod gofodau cymorth penodol yn ofynnol arnynt mewn ysgolion.

### Mesurau Diogelwch Ffisegol
Nodweddion a systemau dylunio, megis ffensys, mynedfeydd diogel a systemau larymau, sy'n helpu i sicrhau diogelwch y sawl sy'n bresennol mewn ysgol.

### Arwynebedd Safle Ysgol Gynradd
Cyfanswm arwynebedd y tir sy'n ofynnol ar gyfer ysgol gynradd, gan gynnwys cyfleusterau dan do ac awyr agored, fel yr amlinellir yn y canllawiau arwynebedd.

### Dylunio Cydnerth
Strategaethau dylunio sy'n galluogi cyfleusterau ysgol i addasu i newidiadau neu i wrthsefyll heriau amrywiol, megis newidiadau yn yr hinsawdd neu ofynion addysgol.

### Gofod Dysgu Cymdeithasol
Ardaloedd yn yr ysgol, a geir yn aml mewn gofodau cyffredin megis lolfeydd neu gynteddau, lle gall y disgyblion ryngweithio'n anffurfiol i feithrin cymuned a llesiant.

### Lleoliad Adnoddau Arbennig
Gofodau pwrpasol mewn ysgol i gefnogi disgyblion ag anghenion addysgol neu iechyd penodol, ac sy'n aml yn rhan o ddyraniadau'r arwynebedd atodol.

### Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd (UPFSM)
Polisi sy'n gorchymyn prydau ysgol am ddim i bob disgybl cynradd, ac sy'n dylanwadu ar ofynion ceginau a mannau bwyta'r ysgol.

### Dynodi Llwybrau
Ciwiau gweledol, megis arwyddion a llwybrau cod lliw, sy'n helpu unigolion i lywio adeilad ysgol, ac sy'n arbennig o bwysig mewn dyluniad cynhwysol a hygyrch.

### Acwsteg (Bwletin Adeiladu 93)
Safonau a amlinellir ym Mwletin Adeiladu 93 ac sy'n diffinio lefelau sŵn derbyniol mewn adeiladau ysgol i sicrhau eu bod yn amgylchedd addas ar gyfer dysgu a chanolbwyntio.

### Gofodau Dysgu Gweithredol
Amgylcheddau dysgu hyblyg, rhyngweithiol sy'n annog ymgysylltiad a chyfranogiad disgyblion, ac sy'n aml yn cynnwys dodrefn a thechnoleg fodiwlaidd.

### Dylunio Addas i'r Oedran
Ystyriaethau yng nghynlluniau'r ysgol i sicrhau bod gofodau'n addas ar gyfer ystod oedran y disgyblion, megis dodrefn llai ar gyfer plant iau neu gyfarpar arbenigol ar gyfer disgyblion hŷn.

### Asesu ar gyfer Dysgu
Dull sy'n defnyddio gwaith asesu rheolaidd i gefnogi ac arwain y disgyblion wrth iddynt ddysgu, gan ddylanwadu ar ddyluniad gofodau pwrpasol ar gyfer hunanasesu ac adborth y disgyblion.

Diogelwch Seiliedig ar Gylchrediad
Dyluniad er diogelwch sy'n canolbwyntio ar ardaloedd cylchredeg (megis coridorau) i reoli mynediad a symudiadau ym mhob rhan o'r adeilad.

Dyluniad Clwstwr
Cynllun pensaernïol sy'n grwpio ystafelloedd dosbarth neu ofodau o amgylch ardal ganolog a rennir er mwyn cefnogi cydweithrediad a threfniadau addysgu hyblyg.

Storfeydd Cymunedol
Ardaloedd storio pwrpasol mewn ysgolion at ddefnydd cymunedol ac sydd ar wahân i adnoddau'r ysgol; maent yn ofynnol yn aml ar gyfer gweithgareddau cymunedol estynedig neu bartneriaethau cymunedol.

Gofodau Trawsgwricwlaidd
Mannau hyblyg a gynllunnir i gefnogi dysgu rhyngddisgyblaethol trwy alluogi i sawl pwnc neu thema gael eu haddysgu yn yr un ardal.

Golau dydd
Y defnydd o olau naturiol i oleuo gofodau dan do, gan leihau'r angen am oleuadau artiffisial a gwella'r amgylchedd dysgu.

Datgarboneiddio
Y broses o leihau allyriadau carbon yng ngweithrediadau ysgol, a all olygu newid i ffynonellau ynni adnewyddadwy neu wella effeithlonrwydd ynni.

Gofodau Cyfoethogi
Ardaloedd sy'n cefnogi gweithgareddau dysgu allgyrsiol neu ddi-graidd, megis stiwdios celf, ystafelloedd cerdd neu labordai gwyddoniaeth, gan gyfoethogi ehangder profiadau dysgu'r disgyblion.

Dodrefn Sefydlog
Dodrefn integredig neu wedi'u gosod yn barhaol, megis meinciau neu silffoedd labordai, sydd fel arfer yn llai addasadwy i wneud defnydd hyblyg o ofod.

Ystafelloedd Dosbarth Lle Bo'r Angen
Ystafelloedd dosbarth nad ydynt wedi'u neilltuo ar gyfer athro neu bwnc penodol, ac sy'n galluogi defnydd hyblyg ar draws dosbarthiadau gwahanol, gan leihau'r angen am ofod penodol.

Y Cyfnod Sylfaen
Yng Nghymru, fframwaith addysgol y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 i 7 oed; mae'n dylanwadu ar ddyluniad gofodau hyblyg sydd â chwarae'n sail iddynt.

Ardaloedd Chwarae Cynhwysol
Gofodau chwarae awyr agored neu dan do sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer plant o bob gallu ac yn aml yn cynnwys cyfarpar chwarae hygyrch a nodweddion synhwyraidd.

Systemau Adeiladu Deallus
Technolegau sydd wedi'u hintegreiddio i mewn i adeiladau ysgol, megis goleuadau awtomataidd neu systemau rheoli'r hinsawdd, ac sy'n helpu i wella effeithlonrwydd ynni a chysur y defnyddwyr.

Canolfannau Dysgu
Ardaloedd canolog mewn ysgol lle mae'r disgyblion yn ymgynnull ar gyfer astudiaeth gydweithredol neu annibynnol, ac sy'n aml yn cynnwys adnoddau TGCh a dodrefn addasadwy.

Ardal Gemau Amlddefnydd (MUGA)
Ardal chwaraeon awyr agored amlbwrpas sy'n darparu man ar gyfer nifer o chwaraeon, ac a geir yn gyffredin mewn ysgolion i wneud y defnydd gorau o'r gofod ar gyfer addysg gorfforol.

Asesiad o'r Capasiti Net
Cyfrifiad a ddefnyddir i bennu capasiti adeilad ysgol yn seiliedig ar y gofod llawr defnyddiadwy, gan sicrhau bod y cyfleusterau'n cyd-fynd ag anghenion y disgyblion a gofynion cyfreithiol.

Dylunio Solar Goddefol
Technegau pensaernïol sy'n defnyddio golau'r haul ar gyfer gwresogi a goleuo naturiol, ac sy'n aml yn cael eu hintegreiddio i mewn i ddyluniadau cynaliadwy ar gyfer adeiladau ysgolion.

**Safonau Perfformiad**
Meincnodau neu safonau penodol y mae adeiladau ysgol wedi'u cynllunio i'w bodloni, gan gynnwys safonau acwstig, amgylcheddol a diogelwch.

**Dysgu Seiliedig ar Chwarae**
Dull addysgol, ac yn un arbennig o berthnasol yn y blynyddoedd cynnar, sy'n defnyddio chwarae fel dull dysgu canolog, gan ddylanwadu ar yr angen am ofodau hyblyg a rhyngweithiol.

**Ystafelloedd Tawel**
Gofodau pwrpasol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion y mae arnynt angen amgylchedd heb fawr ddim ysgogiadau ynddo; fe'u defnyddir yn aml ar gyfer ymlacio neu i ddarparu cymorth un-i-un.

**Gofod Addysgu Arbenigol**
Ystafelloedd ac ynddynt gyfarpar arbenigol a gosodiadau ar gyfer pynciau megis gwyddoniaeth, technoleg a'r celfyddydau, sy'n sicrhau eu bod yn diwallu anghenion penodol pob pwnc.

**Gofodau Pontio**
Ardaloedd sy'n cefnogi symudiad disgyblion rhwng gweithgareddau neu gamau dysgu gwahanol, megis pontio o'r awyr agored i fynd dan do neu lwybrau o'r dosbarth i gaffi.

**Strategaeth Awyru (BB101)**
Canllawiau a amlinellir ym Mwletin Adeiladu 101, ac sy'n canolbwyntio ar gyflawni ansawdd aer dan do iach trwy gyfrwng systemau awyru effeithiol yn amgylcheddau'r ysgol.

**Strategaeth Dynodi Llwybrau**
System gynlluniedig o arwyddion, codau lliw, ac elfennau dylunio gofodol sy'n helpu'r disgyblion, y staff ac ymwelwyr i lywio tir ac adeiladau'r ysgol yn hawdd.

**Ardaloedd Gwlyb**
Gofodau a gynlluniwyd ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â dŵr neu hylifau, megis ystafelloedd celf neu labordai gwyddoniaeth; maent yn aml yn golygu bod lloriau penodol a systemau draenio yn ofynnol.

**Rhannu'n Barthau er mwyn Hyblygrwydd**
Rhannu'r ysgol yn barthau ar sail swyddogaeth, grŵp oedran neu'r math o weithgaredd er mwyn creu gofodau addasadwy a all ddiwallu ystod o anghenion a hwyluso'r dysgu.

**Stiwdio Gweithgareddau**
Gofod dan do amlbwrpas a ddefnyddir yn nodweddiadol ar gyfer addysg gorfforol, dawns neu ddrama, ac sydd wedi'i gynllunio i gynnal amrywiaeth o weithgareddau corfforol a digwyddiadau cymunedol.

**Gofod Ymneilltuo**
Ardaloedd llai gerllaw ystafelloedd dosbarth neu ganolfannau dysgu lle gall y disgyblion weithio mewn grwpiau bach neu'n annibynnol; fe'u defnyddir yn aml ar gyfer cyfarwyddyd gwahaniaethol neu gymorth arbenigol.

**Carbon Niwtral**
Adeilad neu broses sy'n cyflawni allyriadau carbon sero net, gan gydbwyso'r carbon a gynhyrchir â phrosesau gwrthbwyso carbon, sy'n hanfodol i gyflawni targedau amgylcheddol yn adeiladau ysgolion newydd.

**Meincnodi Capasiti**
Y broses o asesu anghenion ysgol o ran gofodau ar sail niferoedd amcanestynedig y disgyblion, gan sicrhau bod y cyfleusterau'n bodloni'r galw presennol a'r galw a ragwelir.

**Mynediad a Reolir**
Protocolau diogelwch sy'n sicrhau mai dim ond unigolion awdurdodedig a all fynd i mewn i rannau penodol o'r ysgol, a hynny'n aml trwy systemau cerdyn allwedd neu bwyntiau mynediad sy'n cael eu monitro.

**Parwydydd Hyblyg**
Waliau neu barwydydd symudol sy'n galluogi i un ystafell fawr gael ei rhannu'n ofodau llai, gan felly gefnogi gweithgareddau dosbarth amrywiol neu ddefnydd cymunedol.

### Paratoi at y Dyfodol
Ystyriaethau dylunio sy'n galluogi i adeilad addasu i newidiadau addysgol neu dechnolegol yn y dyfodol, megis cynlluniau modiwlaidd a chapasiti ar gyfer uwchraddio'r dechnoleg.

### Cegin Capasiti Uchel
Cegin wedi'i chynllunio i baratoi a darparu niferoedd mawr o brydau bwyd, sy'n aml yn angenrheidiol mewn ysgolion sy'n cynnig Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd neu sy'n gwasanaethu poblogaethau mawr o ddisgyblion.

### Man Dysgu
Ardal ddysgu cysyniad agored sy'n cyfuno swyddogaethau sawl ystafell dosbarth, gan hwyluso cydweithrediad a defnydd hyblyg ar draws dosbarthiadau a phynciau.

### Gwyliadwriaeth Naturiol
Dull dylunio sy'n hybu gwelededd yn adeiladau ysgolion ac o'u hamgylch er mwyn gwella diogelwch; gwneir hyn trwy alluogi'r sawl sydd yn yr ysgol i weld a monitro'r ardaloedd cyfagos.

### Parth Chwarae Awyr Agored
Ardaloedd a ddynodir ar gyfer defnydd hamdden ac sy'n aml yn cael eu gwahanu ar gyfer chwarae a diogelwch sy'n briodol i'r oedran; maent yn cynnwys adeiladweithiau megis meysydd chwarae, caeau chwaraeon, neu erddi synhwyraidd.

### Ystafell Ddiogel
Gofod diogel a ddylunnir ar gyfer defnydd brys, lle gall y disgyblion a staff lochesu os oes angen; mae ynddo nodweddion diogelwch penodol yn rhan o strategaeth ddiogelwch.

### Cyfyngiadau'r Safle
Cyfyngiadau o ran maint y safle, ei dopograffeg, neu'r seilwaith o'i amgylch, elfennau sy'n effeithio ar gynllun yr adeilad a'r broses o ddyrannu ardaloedd.

### Gofynion Gofodol
Y dyraniadau penodol o ran yr arwynebeddau gofynnol ar gyfer pob math o ofod mewn ysgol (e.e. ystafelloedd dosbarth, neuaddau, labordai), a hynny'n seiliedig ar ganllawiau swyddogaeth a pholisi.

### Dodrefn, Gosodiadau a Chyfarpar (FF&E) Arbenigol
Dodrefn a chyfarpar personol neu arbenigol sy'n ofynnol ar gyfer pynciau neu weithgareddau penodol, megis labordai gwyddoniaeth neu ystafelloedd dylunio a thechnoleg.

### Dwysedd Storfeydd
Swm y lle storio sy'n ofynnol fesul ystafell ddosbarth neu ardal gweithgareddau; caiff ei gynnwys yn aml mewn canllawiau arwynebedd i sicrhau digon o ofod ar gyfer deunyddiau a chyfarpar addysgol.

### Mynediad Cyffredinol
Egwyddor ddylunio sy'n sicrhau bod pob rhan o'r ysgol yn hygyrch i bawb ni waeth beth fo'u gallu; mae'n cynnwys anghenion symudedd, arwyddion, a chynlluniau cynhwysol.

### Meini Prawf Pwysedig
Ffactorau a ystyrir mewn penderfyniadau ariannu a dylunio, lle gallai blaenoriaethau penodol (e.e. darpariaeth Gymraeg, anghenion ADY) fod yn destun mwy o bwyslais.

### Ardal Gwasanaethau ar gyfer yr Ysgol Gyfan
Neuadd fawr neu ofod awditoriwm a all ddarparu lle i holl boblogaeth yr ysgol ar gyfer digwyddiadau, ac y gellir yn aml eu haddasu ar gyfer arholiadau, perfformiadau a defnydd cymunedol.

## Cyfeiriadau

Yr Adran Addysg (DfE). (2015). Bwletin Adeiladu 104: Area Guidelines for SEN and Alternative Provision. Llundain, y DU: Yr Adran Addysg. Ar gael yma: assets.publishing.service.gov.uk

Yr Adran Addysg (DfE). (2014). Bwletin Adeiladu 103: Area Guidelines for Mainstream Schools. Llundain, y DU: Yr Adran Addysg.

Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA). (n.d.). RIBA Plan of Work. Llundain, y DU: RIBA. Ar gael yma: architecture.com

Llywodraeth Cymru. (2022).Cymunedau Dysgu Cynaliadwy: Bwletinau Adeiladu. Caerdydd, Cymru: Llywodraeth Cymru. Ar gael yma: llyw.cymru

Llywodraeth Cymru. (2021). Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Caerdydd, Cymru: Llywodraeth Cymru. Ar gael yma: llyw.cymru

Llywodraeth Cymru. (2022). Cwricwlwm i Gymru: Crynodeb o'r ddeddfwriaeth. Caerdydd, Cymru: Llywodraeth Cymru. Ar gael yma: hwb@gov.wales

Llywodraeth Cymru. Y Cwricwlwm i Gymru: Beth y mae angen i ysgolion ei wneud erbyn mis Medi? Caerdydd, Cymru: Llywodraeth Cymru. Ar gael yma: addysgcymru.blog.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru. (2024). Diwygio canllawiau Cwricwlwm i Gymru  Caerdydd, Cymru: Llywodraeth Cymru. Ar gael yma: addysgcymru.blog.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru. (2017). Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Caerdydd, Cymru: Llywodraeth Cymru. Ar gael yma: llyw.cymru

Llywodraeth Cymru. (2015). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Caerdydd, Cymru: Llywodraeth Cymru. Ar gael yma: llyw.cymru

Llywodraeth Cymru. (n.d.). Canllawiau Fy Ysgol Leol. Caerdydd, Cymru: Llywodraeth Cymru. Ar gael yma: llyw.cymru

Llywodraeth Cymru. (2021). Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru: Llywodraeth Cymru. Ar gael yma: llyw.cymru

**Delwedd clawr blaen a chefn**
Llun o du mewn Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Reolir Hwlffordd




ISBN 978-1-80633-555-8